

# A M S E R,

A

## Diwedd Amser ;

Yn Ddau Draethawd :

Y cyntaf ynghylch *Prynnu'r Amser* :  
Yr ail ynghylch *Ystyried ein Diwedd*.

---

A osodwyd allan gyntaf yn *Saesonaeg* gan *Joan Madyn*. Ac a gyfieithiwyd yr awron i'r *Gymraeg* er daioni i'r *Cymru*.

---

*Psal. 90. 12. Dysg i ni felly gyfrif ein dyddian fel y dygom ein calonau i ddoethineb.*  
*Galar. 1. 9. Ei haflendid sydd yn ei godreu, nid yw hi yn meddwl am ei diwedd ; am hynny y syrthiodd hi yn rhyfedd.*

---

Non pudet te reliquias vitæ tibi reservare, & id solum *Tempus bonæ menti destinare*, quod in nullam rem conferri possit ! *Quam serum est, tunc vivere incipere, cum definendum est ?*  
*Sen. de br. v. vit.*

*Llundain : Argraphwyd i Eben. Tracey, dan Lûn y Tri Bibl ar Bont Llundain. 1707.*

---



---

---

At y Gwir-Barchedig Dad yng  
Hrist *Humphrey* gan Rad  
Duw Arglwydd Esgob Caer-  
ffawydd.

*Gwir-Barchedig Dad,*

**G**AN weled *maj* Defod ac arfer Yf-  
grifennyddion yn gyffredin, a'r rheini  
yn gystal, Grifftianogion a Chenhedl-  
oedd, ym mhob oes oedd cyflwyno eu Lly-  
frau, a'u danfon allan i olwg y Byd anwa-  
dal-farn hwn, tan henw a nodded y cyfryw  
rai a dybygent hwy a fyddent yn Ymddi-  
ffyuwyr tradewrion ac yn Goleddwyr hael-  
ionus iddynt ; i'w cyfngodi a'u hadeinio  
rhag enllib a chamfarn dynion drygionus  
a fertheiriawg. A minneu, rhag bod o  
honaf yn unigawl yn yr oes gynfigennus  
hon (gan na fu erioed reittiach wrth Nodd-  
wyr nag yn awr) wedi cyfieithu'r Llyfran  
bychan hwn yn oraf ag y medrwn i'n ta-  
fodiaith genedigol ni yng *Hymru* ; yr hwn  
a arhosodd rai blynyddoedd yn fy Llyfr-  
gell i yn ddiymgeledd, a'r Geiriau hyn ar ei

A. 2.

gefn,

## Y Llythyr Gorchymmynedig.

gesn, Fplant a ddaethant byd yr anedigaeth, ond nid oes grym i esgor, 2 Bren. 19. 3. O ran nad oedd gennyf na gallu na gobaith (ar ol fy llafur yn ei gyfieithu ef) i gael ei olof ef allan byth mewn Print, nes darfod i rai Ewyllytwyr Da (taled yr Arglwydd iddynt am eu daioni) ei gymmeryd yn llaw, a'i ddangos yn ddiarwybod i mi, i'ch Arglwyddiaeth chwi, Wîr-Barchedig Dâd; a chael o honynt hefyd eich tirion-farn hynawfaidd chwi arnaw, y gellid ei ddangos ef allan i'r Wlad mewn Print: A farnais yn anaddas ac yn ormod bai ynnof fy hun ei anfon ef allan yn Enw nêb arall; heb-law ddarfod i mi ystyried nad oedd nêb arall i'w gael yn iawnach i'r Cymru mewn dyled a diolwchgarwch i orchymmyn eu Llyfrau iddo nag i chwi, o ran eich bod nid yn unig (fel y mae'n perthyn i'ch Swydd Gyssegredig) yn Ben-Bugail da dan Ghrist i lywodraethu ei braidd ef, ac i ofalu tros ei Eglwys; eithr hefyd yn Ben-Colofn ardderchog i gynnal i fymhîn Iaith y Brutaniaid, yn gwîr garu llwyddiant eich Gwlad, yn hoffi clywed llafar plant ein Sion yn canu mawl cydeleisiaawl i Dduw yn eu Tafodiaith eu hûnain, ac yn Ganllaw ymgeleddus i ymddifftyn Iaith-Mam (sy wedi myned yn ddigysgrif tan draed a'i braint yn nifodd yn mysg.

## *Y Llythyr Gorchymyndig*

mysg pobl goeg-feilchion y Genhedaeth ferch-newyddiawg hon) trwy chwilio allan yn ofalus eich hunain, ei Henaduriaeth a'i Choffadwriaethau, a'u codi i synu o dywyll-wch a llwch anghof, i fod yn oleuni i'r rhai a synient arnynt ac annog pawb eraill a'u cefnogi i studio a darllen yr Hen-fam-iaith o didog hon, a'ch dangos eich hun ym hób ffordd yn Dadmaeth da, ac yn Achlefrwr ymgeleddus iddi.

Er dywedyd o Salomon ddoeth nad oes diben ar wneuthur Llyfrau lawer, Preg. 12, 12. Etto yr wyfi'n tybied y gallaf ddywedyd yn hŷf yn y gwrthwyneb, nad oes ond prin Dechreuad o hynny yn Gymraeg mewn cyffelybiaeth i'r llio logrwydd a'r amledd sydd o honynt mewn leithoedd eraill : A'r rhai sy gennym mewn Print beth ydynt gan mwyaf ond Cyfeithiadau o leithoedd eraill, a'r rheini yn ychydig iawn, yn gymaint ag y dichon Gŵr na bo ond egwan eu dwyn yn hawdd yn ei Gôd. Yr hyn sydd resyndod ei fod, wrth ystyried na wyddus pa nifer llwych Men sydd o honynt yn leithoedd ein Cymydigion. A hyn oll ysywaeth sydd yn digwydd i ni yn anad dim oblegid anewylltgarwch Gwŷr ein Gwlad ni'n hunain i wneuthur un Tro da na dim llef sad yn un modd i iaith eu Mamau. Ac nid y Bonedd yn unig, y rhai

## *Y Llythyr Gorchymmynedig.*

sy'n cymmeryd arnynt nad ynt yn deall *Cymraeg*, a rhai min-grynnion eraill na sýnant siarad dim ond rhyw goeg-gymhen-dod lledieithiog sy'n euog o'r bai hwn; Eithr hefyd y mae hyd yn yn Nôd y Gwyr Llen a'r Periglorion gan mwyaf mor chwy-ddedig ac uchel-feddwl, na wnant, o ran diystyrwch i'r Iaith, gymmaint a phrege-thu yn *Gymraeg* i'r Gwerinos un-iaith tlod-ion sy'n eu mysg, a chanddynt Eneidiau i'w hachub yn gyfadl ag eraill.

Ni ddarfu i mi gyfieithu mor Llyfr hwn o ran y tyb lleiaf yn un modd y medrwn i wneud dim yn agos mor berffaith ag y gwnelsai un'arall cysfarwydd yn yr Iaith, ond o ran fy chwant yn ol fy ngallu i wneuthur rhyw ddaioni yn oreu ag y medrwn i'm Gwlad a Chenedl y *Brutaniaid*. Ac yma y mae'n rhaid i mi gyfaddef fy mod i ya rhy hŷf yn hyn o beth, ie ac yn rhy anfoesol hefyd, yn enwedig trwy ryfylgu anrhegu Cyfieithiad mor Drwgwl ac anghymmen a hwn i'ch Arglwyddiaeth chwi. Am hynny mi attolygaf i chwi o'ch addfwynder, Wir-barchedig Dad, ei groesafu ef yn y fath Drwg-siad anhydlws ag y mae efe wedi ei anfon i'w osod i lawr gyd-a phob gofystyng-eiddrwydd wrth draed eith Arglwyddiaeth chwi, ac edrych arnaw nid yn ol anghyw-reinrwydd y Cyfieithiad, ond yn ol pur-deb

## Y Llythyr Gorchymmynedig.

deb yr Athrawiaeth ; a phwyso y rhodd  
nid yn ol ei maintiolaeth ond yn ol ewyllyf-  
garwch y Rhoddwr. Ac nid i'ch syfrdanu  
ym mhellach oblegid peth mor wael,  
rhag i rai dybied fy mod i yn ceisio udcanu  
Udcorn eich mawl i'r byd ; yr hyn beth  
mi wn yn dda na's mynnech i nêb ei wneu-  
thur ; Gan hynny erfyniaf eich nawdd am  
fy eondra, ac i chwi roi cwr o Gochl eich  
cariad i guddio fy ngwendid i, a bod yn  
wiw gennych dderbyn y cwbl megis ar-  
wydd diffuant o nïolwchgarwoh i i'ch Ar-  
glwyddiaeth chwi am eich tra-mawr aml  
Garedigrwydd a'ch Haelioni digymmar  
i'ch Gwlad a Iaith yr hên Frutaniaid ; Gan  
ddymuno ar Arglwydd yr Arglwyddi fen-  
dithio eich Arglwyddiaeth chwi a hîr  
ddyddiau i lywodraethu ei Eglwys ef  
yma ar y Ddaiar, a'ch coroni ar ôl hyn  
a Choron gogoniant o anlygredigaeth a  
bywyd tragicwyddol yn y Nefoedd uchod.  
Hyn a gaiff fod yn rhan o Weddiau beu-  
nyddiol.

Eich Gostyngeiddiaf a'ch Ufuddaf Wâs,  
wrth Orchymmyn eich Arglwyddiaeth,

Samuel Williams.

Ar.

---

---

## At y Darlenydd o Gymro di- ledryw ; Annerch.

**Y** Darlenydd addfwyn, ystyried mor a-  
hyddysg yw ein Cydwladwyr ni, y Cym-  
ru Un-iaith, i ddeall un māth o Lyfr a sgri-  
fennir attynt mewn ymadroddion parablaidd  
dysgedig ; a bod y Llyfr yn cynnwys  
yn ddo ddau o brif byngciau tra-buddiol ac  
angenrheidiol i'w synied a myfyrio arnynt ym  
mywyd dŷn ; a'r mawr groesaw a gafodd efe  
ym mhōb mangre yn ei dafodiaith a'i drwsiad  
genedigol, gan ei Genedl ei hun y Saeson, a  
chan gynnifer ag a ddeallent ei iaith ef o'n  
Cenedl ninnau, ni bu efe (hyd ag y gwn i)  
ddim yn anhygar : Ac hefyd farnu o honof  
nad oedd ond afraid i mi syned yngylch  
sgrifennu a chyfansoddi Llyfr o'm gwaith fy  
hun, a gadael y fath un godidog ag yw hun  
heb ei gyfieithu, ac yntau mor debyg i fod yn  
Offeryn tra-llwyddiannus tu-ag at hyfforddi  
'addysg ac athrawiaeth i'r annwybodol : Y  
pe-  
thau byn (meddaf si) gyd ag amryw bethau  
amgylchiadawl eraill, ynghyd am bewyllysgar-  
wch a'm chwant i wneuthur daioni i'm Cyd-  
wladwyr a'm Cenedl fy hun, a'm hannogodd ac  
a'm

## At y Darllenysedd.

a'm byshaodd i'w gysfeithu ef (yn ol fy ngallu egwan) i'n Tofodiaith ni ym mro-dir Cymru ; gan obeithio y gwnae efe (wedi dysgu iddo siarad Cymraeg) nid ychydig o ddaioni i'r Gwerinod annysgedig a'r anghysfarwydd yn ein mysg ni, a bod megis Canwyll mewn Canhwyll-lren (ac nid tan lestr) yn goleuo i bamb trwy'r Tŷ.

Am Amser a'i dymmhoreiddrwydd, nid achos bychan sy gennym ni i'w brisio ef yn ddyladwy, ystyried ei werthfawrogrwydd, a dal gafel arnaw erbyn ei gudyn blaen, cyn y trotho ei wegil a myned o honaw ymaith : Obligid nid oes ond ei amser i bob pêth, ac i bob amcan tan y Nefoedd, Preg. 3. 1. Nid oes ond amser terfynedig a byr iawn i ddyn ar y ddaiar ; y mae byd yn oed ei fisoeedd ef, ei ddyddian a'i orian tan rif gan yr Hollalluog, atherosynau wedi eu gosod iddynt, fel nad el trostynt, Job 7. 1. a'r 14. 15. Wy gyffelybir einioes Dyn i Wynt a Chwa yn myned hei-bio, i Niwl a Tharth yn diflannu, i Fwng a Chyngod yn cilio, ac i Lifeiriant yn myned ymaith. Nid yw ein Hoedl ond megis hun, breuddwyd neu chwedl, ac y mae ein dyddian yn ffoi ac yn darfod heb obaith : Nid ydynt ond megis dyrnfeidd, lled llaw a diddim yngolwg yr Arglwydd. Nid yw holl drigolion y ddaiar ond fel mân lwc'h y cloriannau, llai na gwagedd, ac na dim ger ei fron ef : O herwydd

## At y Darllenyydd.

wydd pa achos nid yw'r gwychaf o feibion dynion ond cwbl wagedd pan fo ar y goreu. Nid oes un Athrariaeth gymraethwysach i'w dysgu, un Fyfyrnod angenrheittiach i'w myfyrio, un Wybodaeth fuddiolach i'w gwybod, nac un Ystyriaeth ddwysach i feddwl am dani, nag yw byrder ac ansicrwydd amser, annigonol-rwydd y Creadur, brenolder a thrueni bywyd dyn, gorwagedd a thwyll y byd anwadal hwn, a'r lleied diddanwch y sydd i'w gael ym mhob gorhoffder ac hyfrydwch a'r y sy dan yr Haul, yr hyn beth nid ym ni yn ei ddirnad, er ein bod yn ei ddarllen yn sgrifenn pob Carreg, ei weled ynglwymp pob deilian, ei glywed yn llais pob Cloch, ei archwaethu ym mhob disgliad o fwyd, ei arogl yn nhrymsawyr pob Celain, a'i deimlo yn nhrawiad pob gwthien; ie ni fynnwn ni (fel y dywed S. Cyprian) wybod mo honaw, er na's gallwn fod heb ei wybod ef. Fel hyn y mae'n hamser yn myned ymaith ddydd a nos, awr ac orig yn ddiattal, a ninnau yn rhy esgeulus i orphen y gwaith mawr sy'n perthyn i'n heneidian anfarwol cyn y delo tywyllwch y nos erchyll ar ein gwartha, a myned o honom i Drazywyddoldeb. Er ein bod ni yn byw yn yr Amser ac yn deimladwy o honaw, ni wyddom ni (fel y dywed Aristotl) er hyrny beth yw Amser na'i werthfawrogrwydd.

*Am ystyried ein Diwedd, buddiol iawn yw*

## At y Darllenyydd.

i ni wneuthur hynny ; oblegid nid oes un dyn ar  
wyneb y ddaiar a ddichon ddadlen anwybod-  
aeth yn erbyn Deddf gyffredin Duw holl-  
alluog, yngylch angenrheidrwydd marwoldeb  
Dyn : Canys gosodwyd i ddynion farw un-  
waith, Heb. 9. 27. Ac se all pob dyn ddywed-  
dyd gyd a'r Wraig ddoeth o Decoah, yr  
ydym ni oll fel dyfroedd wedi eu tywallt  
ar y ddaiar, 2 Sam. 14. 14. Nid oes un  
oes, ystat, To, na Gradd o ddynion, na's  
cowfiant y gwaethaf gan yr Ymdrechwr anno-  
resgynnol hwn Angau ; yr hwn gan farchog-  
aeth ei gyloch i fynu ac i wared ar hyd y Byd ar  
ei Farch gwelwlas, er yw mwy na phum mil o  
flynnyddoedd, a osodes y cwbl o'i flaen a dyrnod  
didueddol yn llawr gwastad. Cafodd rhai yn  
eu Mebyd brofi beth yw marw cyn y gwyddent  
beth oedd byw ; rhai yn eu Hisiengctid, ac  
eraill yn eu Henaint ; cyfoethog a thlawd,  
nchel ac isel, o bob math a galwad ; fe all  
gwyr ieuainc farw, a rhaid yw i hen ddynion  
farw ; ie eu Marwoldeb a barodd hyd yn  
oed i'r rhai a alwyd yn Dduwian (a hynny  
nid gan un Truthiwr gwenhieithus, ond gan  
Dduw ei bun) ddeall nad oeddynt ond dynion  
iddynt eu hunain, er eu bod fel Dduwian i  
eraill : Ac mal y dywedadd Epictetus wrth  
yr Ymerodwr gynt, Fod geni a marw mor gy-  
ffredin i'r Brenin ac i'r Cerdottyn. Clefydon  
a thrueni i'r fuchedd hon, a wnaeth i'r Pagan-  
iaid balchaf, gyfaddef a dyweddyd fel y dywe-  
dodd

## At y Darllynydd.

dodd S. Petr wrth Cornelius, Act. 10. 26. Dŷn marwol wyf finnau hefyd. *Mal hyn y mae prawf (cyn gystled a Sgrythyr) yn gweiddi yn groch, Pa wr a fydd byw, ac ni wêl farwolaeth?* Psal. 89. 48. *Ac nid oes fan yn y Byd a ddichon gadw dyn yn ddiangol rhag gafaelau y Swyddog didrugaredd hwn; feddaliodd Abel yn y maes, Eli yn eistedd wrth y drws, Plant Job ar wledd, Eglon yn ei Stafell haf, Zacharias rhwng y Deml a'r Allor, Zenacherib yn nhŷ ei Dduw Nisroch, Isboseth yn gorwedd ar ei welu, a Herod a'i orseddfaingc: Hefyd y mae Angau yn ein goddiwes ni trwy amryw o foddion; Josiah a fu farw o friw saeth, Prophwyd Dduw a dannedd llew, Abimelech a darn o faen melin, St. Paul a'r Cleddyf, Esay a llif, Jezebel a swytta-wyd gan gwn, Achitophel a ymgrogodd, yr hen Fyd a foddyd gan y dwfr Diluw, Sodoma a Gomorra a losgwyd a than o'r Nefoedd, a'r Ddaiar a lyngcodd Cora, Dathan ac Abiram. Beth a wnaf fi yn siarad, y mae myrddiwn (medd Erasmus) o ddolurian yn y Byd, ac ni wyr neb yn ei fymyd a'i iechyd pa un o honynt a'i dibenyydd a ef; canys i'r Arglwydd Dduw y perthyn diangfau rhag marwolaeth, Psal. 68. 20. *Am bynnny nid rhyfeda ddymedyd o un, mai Angau o bôb pêth erchyll yw'r erchyllaf.* Nid oes un gyfaredu na meddygimaeth trwy'r holl Fyd a ddichon*

ei gwe

## At y Darllenyydd.

ein cadw ni'n ddihangol rhag ei ddyrnod es ;  
ni ddichon tegwch na galluogrwydd, golud nac  
anrhydedd, cyfeillion na cheraint, na neb, na  
dim a'r y sydd, a'm yn ol y Farn ddiadlam honno,  
Pridd wyt ti, ac i'r pridd y dychweli, Gen. 3. 19.  
Nid yw pob gwyn a gwaew, pob anhwyl ac ase-  
chyd, a phob cymhrycynrwydd yn ein Cyrph brau-  
lyd, ond megis ymladdseydd bychein o flaen ym-  
laddfa fawr Marwolaeth ; yn yr hon dyn eg-  
wan wedi ei orchfygu, a gaethgludir i dy ei hir  
gartref : A phan araddir unwaith gwysan Mar-  
woldeb yn wyneb y teccaf ei bryd a'i wedd o ddyn  
marwol, fe a'r oling arno yn y man yn gethinllyd  
(er hygared ydoedd o'r blaen) a'r diwedd yw,  
Claddu fy marw allan o'm golwg, Gen. 23. 4.  
Er pa foddy bynnag y mae pawb yn cyfaddef ac  
yn cydnabod fod yn angenrhaid i ni farw, ac nad  
oes le i ochelyd Angau, na diangc rhagddo ; etto  
y mae prawf galarus yn dangos fod y rhan fwyaf  
o ddynion yn byw felly yn y Byd Cristianogol, fel  
pe na byddent feirw byth, ac yn meirw o'r di-  
wedd, mal pe na bai iddynt gael byw byth dra-  
ehefn : A phan ddel amser eu hymddattodiad, y  
maent mor amharod i roesawi'r gennad ddido-  
ydd sturi hon Marwolaeth, ac mor ddiarwybod oble-  
vol-gid eu diwedd a'u cyflwr tragywyddol, nad oes  
feda ganddynt ddim i'w ddywedyd, na gwybod beth a  
er-ddaw o honyn, mwy nag anifeiliaid ysgryblaidd,  
reda y rhal nid oes rhewm ganddynt.

In eur fel na bo i ni gamdreulio ein hanfer  
ei gmerthfaur a'i wario yn ofer, na bod yn amha-

## At y Darllenyydd.

rod i ymdrech a'r gelyn diweddaf hwn, (heb law'r mawr gymmorth sy yngair Duw, yn nhresniadau ei ragluniaeth ef, yn aml ddrychau marwoldeb ger ein bron yn oestad, ac yn ein teimladol ddy-nessiad ein hunain at byrth Angau; heb law y rhai'n, meddaf fi, ac aneirif yn rhagor) fe all y Llyfran bychan hwn (a gyfansoddwyd mor gŵr aint) trwy fendith yr Arglwydd, a'n diwydriwydd ninnau, roi i ni nid ychydig gymmorth a chyfarwyddyd yn ein taith trwy'r glyn gwael hwn o drueni, a'n pererindod trwy ddyffryn Baca: **Canys y mae ynddo amryw o Athrawiathau a Gwersi rhagorol, Ystyriaethau a Rhesymman gwysig, Annogaethau, Hyfforddiadau a Chyngorion defnyddfawr o blegid Amser, a diwedd Amser, y rhai (yn sy marn i) os darllenir hwynt yn araf ac yn ystyriol, a ollant fod yn fodion effeithiol i ddysgu i ni wadu annuwioldeb a chwantau bydol, a byw yn fobr, ac yn gyfiau, ac yn dduwiol, yn y byd sydd yr awron, Tit. 2. 12.** Gan wneuthur y goren o'n hamser, trwy ymbarottoi ac ymarfogi erbyn marwolaeth; fel y gallom ymadael mewn tangneddys, ddiweddu ein dyddian, a marw mewn llawn sicrwydd a gobaith diogel y deleir ein pechoda, par ddelo yr amseroedd i orphywys o olwg yr Arglwydd, **Alt. 3. 19.**

Nid chwant clod ar fy neheulaw a'm cym-melodd i gyfeithu'r Llyfran hwn, ac ni chas ofn anglod ar fy llaw a夫wy fy attal rhag ei gyfeithu ef: Eithr gobaith sicr y byddai iddo

## At y Darllenyydd.

w'r  
dan  
deb  
dy.  
v y  
all  
nor  
di.  
orth  
ael  
ca:  
e a  
nan  
ng-  
edd  
ynt  
tion  
b a  
yf.  
yr  
o'n  
ar.  
tys,  
ws  
ho-  
s o  
ym-  
has  
gy-  
ddi  
eua  
wnend daioni i'm Gwlad a'm cynhaliodd i synn yn erbyn pob anhawsdra hyd onid aethym trwy'r gwaith, a'i osod ef i synu yn y cyfryw drec wael ag y mae efe. Os bydd i ryw rai crassus ryfeddu gweled y Pererin gwan hwn yn tramwy'r wlad yn eu mysg mewn cyn fengled dillad, a thybied digwydd hynny o anffawd iddo, o eisian bod y Gymraeg mor gyfoethog a'r Saesonaeag i'w dacelu ef yn bingc ac yn brydferth. Fe atebir, Darfod ei ddanfon ef yn y modd anghymmen byn (er mai nid ychydig y mae'n hiaith ni yn rhagori ar eu hiaith hwynt, mewn llisosomgrwydd, tadogaeth a chyfan-foddiad geiriau, a llwy-breiddrwydd ymadrodd) o waith fod yn rhaid i mi linio ei siaced Gymreig ef yn nesaf ag allwn at ddull yr un Saesonig, ac yn gyfattebol iddi, rhag (pe fuasid yn ei addurno ef a meini gwertbfawr, tlysan godidog a gwisgoedd euraid ein hiaith ni) na nabyddsai ei Dad mo honaw, ac iddo yntau fod yu rhy anhebyg iddo; ac rhag na ellai pawb o'n Gwlad ni edrych yn graff arno yn y fath drwsiad disglair: O waith darfod i'r wdd yr amser yssu, i lwch anymarfer orchguddio, ac i Nant anghof olchi ymaith y pethau dymunol byn eu gyd gan mwyafr, mal nad ynt yn ddatcuddidig ond i rai: Am hynny mi a wneuthym fy ngoarau er ei anfon ef allan yn y cyfryw ddillad tacclus, fel na bai iddo gael llawer o anghariad gyd-a ni yn Neheubarth; na'i daslu ymaith a cherrig 'chwaith gan ein Cydfrodyr o Wynedd: Ac na baent hwy yn Farbariaid i ni, na ninnau

## At y Darllenyydd.

iddyn hwythau. Fy mhrif amcan i yw, bod i bant o'm Cydwladwyr cystadl a'u gilydd dderbyn llesfa oddiwrth y Llyfr hwn; ac iddo wasanaethu er adaladaeth yn gyffredin i bant o'r Gwerin yn ddilysiant.

Wele bellach nid oes gan i, y Darllenyydd addfwyn, ddim a synnwyl a thi yn ychwaneg, ond dy orchymmyn i Dduw, ac i air ei Ras ef,  
*Act. 20. 32.* Gan ddymuno i ti bob math o lwyddiant tymorol ac ysprydol, a buddiant tragymyddol i th Enaid oddiwrth y Llyfr bychan hwn a phob cyfryngau eraill o'r cyffelyb; a bod i ti hysyd ei roesawi a'i ddarllain ef, mor ewyllysgar ag y bunt i i'w gyfieithu ef er dy fwyn di: Am bynny bydd wych, ac nac anghofia,

Aber Trosol ym mblwys  
Llandyfriog ger llaw  
Emlyn, y 50 Ebrill yn  
y fwyddyn, 1703.

Yr eiddot ynddo Ef, yn  
llaw'r hwn y mae ein  
hamserau,

*Samuel Williams.*

---

**GWEDDI**

## Gweddi i'w harfer mewn Teulu-oedd, Foreu a Hwyr.

**Y** Mae'r Weddi sy'n canlyn *At y darllenwydd.*  
wedi ei dosparthu yn rhannau neilltuol, fel y gallo 'r Darllenwydd defisionol adael rhai o honynt heibio ar ryw amserau; megis pan na bo yn cael arfod, neu pan dybygo yn ei Gydwybod, y dichon ei wasanaeth fod yn gymmeradwy ger bron Duw, heb ddarllain y cwbl a'r fydd wedi ei ofod i lawr yma; fel y bo'r achos prefennol yna gofyn ac yn caniachau iddo wneuthur.

Arglwydd parodioa ein calennau i weddio, agor glustiau *Parodioa.*  
dy drugaredd i wrando arnom. Bydded ymadroddion ein genau, a myfyrdod ein calennau yn gymmeradwy ger dy fron o Arglydd Dduw, ein craig a'n prynwr.

O dragwyddol a gogoneidd-  
us Arglwydd, Tâd y trugaredd- *Cyffwr.*  
au a Duw pob diddanwch; anfeidrol ac anfesuredig mewn mawredd, galluogrwydd a doethineb; yn yr hwn yr ydym ni, dy weision anwiw, yn byw, yn symud ac yn bod.

## *Gweddi i'w harfer mewn Teuluoedd,*

Tydi yn y dechreuad a greaist y Nefoedd a'r Ddaiar a'u holl Ddefnyddiau o ddiddim ddefnydd: Ac wyt Dduw o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb. Pa beth yw Dŷn i ti i'w gofio, a mab Dŷn i ti ymweled ag ef a'i brofi ar bob Moment. Nid yw holl Drigolion y Ddaiar ger dy fron di ond fel man lŵch y cloriannau, megis diddim, a llai na dim, ac na gwagedd y cyfrifir pob cnaud gennyt ti. Wrth ystyried dy fawredd di, a'n gwaeledd ein hunain, yr ydym yn cyfaddef ac yn cydnabod nad ydym Deilwng i ddyneffau attat, nac i gymmeryd dy Enw sanctaidd bendigedig yn ein gwefusau afaen halogedig. Os gofodi di, O Arglwydd Dduw, gyfiawnder wrth bŵys yn ein herbyn ni, a barnedigaeth wrth linyn; Pa fod y gallwn ni sefyll ger dy fron di, na rhoddi i ti ateb na chyfrif am un o fil o'n camweithredoedd. Ti a osodaist amser terfynedig i ni i fyw yma ar y Ddaiar, a therfynau i'n dyddiau fel nad elom i rostynt: Eithr ni ddarfu i ni wneud iawn ddefnydd o dyddiau, ddeall fod ein hamserau yn dy law di, na'u treulio yn ddyladwy, fel y dylym, yn dy wasanaeth di a'th osni; ond byw mewn dygyn annuwioldeb, esgeuluto amser ein ym-weliad, dŷdd gras, ein Iechydwriaeth ein hunain a'r pethau a berthynent fwyaf i'n hedd-wch; trwy roddi ein haelodau yn weision i aflenid ac anwiredd, a gadael i'n pechodaif syned tros ben pôb rhif, yn amlach na gwali ei

## Foreu a Hwyrs.

ein pennau, tywod y môr neu fer y Ffurfa-sen : Fe ddarfu i ni bechu yn dy erbyn di mewn meddyliau aflen, geiriau enwir a gwei-thredoedd annuwiol. Fe ddarfu i ni bechu yn erbyn y Gyfraith, yn erbyn yr Efengyl ; yn erbyn bygwthion ac yn erbyn addewidion ; trwy adael heb wneuthur y pethau a ddylafsem eu gwneuthur, a gwneuthur y pethau ni ddy-lafsem eu gwneuthur : Yn gymaint ag i'n gwnaethom ein hunain yn anheilwng o'r lleiaf o'th drugareddau, ac yn deilwng o'r mwyaf o'th farnedigaethau ; fel nad oes i ni ddisgwyl dim oddiwrthyt ti, wrth union farn cyflawn-der, ond dy ddigofaint di a'n damnedig-aeth ein hunain.

Etto gennyt ti, O Arglwydd  
ein Duw y mae trugareddau a *Eryniad.*  
maddeuant, er gwirthryfalu o honom i'th er-  
byn, ac na wr<sup>am</sup>awsom 'chwaith ar dy lefe-  
rydd. O tydi arra<sup>ll</sup>hwn wyt yn eistedd rhwng  
y Cerubiaid ac yn cysanneddu ym moliant Itri-  
ael, na ddôs i farn a ni dy weision, y rhai  
'ym bridd a llwch gwael : Eithr bydded gwiw  
gennyt faddeu i ni holl liaws ein pechodaau  
a n hanwireddau, er mwyn haeddedigaethau,  
teilyngdod a rhinweddau dy unig-anedig Fab  
Iesu Ghrist ein Harglwydd. Pellha o'th wŷdd,  
nyni a attolygwn i ti, cyn belled ag yw'r  
Dwyrain oddiwrth y Gorllewyn, ein pecho-  
dau ni, y rhai a fynnasent ein pellhau oddi-  
wrthyt ti, cyn belled ag ydyw Uffern oddi-

## Gweddi i'w harfer mewn Teuluoedd,

wrth y Nefoedd: Bawdd hwynt yn eigiawn mor dy drugaredd, cladd hwynt ym mèdd dy anwyl Fab, a delea hwynt fel cwinwl a niwl allan o lyfr dy goffadwriaeth byth bythoedd; fel na bo iddynt ein cywilyddio na'n gwradwyddo ger bron dynion yn y bŷd hwn, na 'chwaith ein condeimnio na'n heuog-farnu ger dy fron di yn y bŷd a ddaw. Par i ni glywed gallu marwolaeth dy Fab yn lladd pechod yn ein Cyrph marwol, a rhinwedd ei adgyfodiad ef yn codi ein Heneidiau i newydd-deb buchedd. Crea Galonnau glan ynom, o Nefol Dad, ac adnewyddda ysprydion union o'n mewn. Dyro i ni wr Edifeirwch am ein holl bechodau, ein camfyniadau, ein hesgeu-lusdra, ein cyfeiliorni a'n hanwybod; a Ffydd ddiffuant i gredu ynnot ti a'th Fab, ac addewidion hyfryd dy Efengyl. Par i ni'th geisio a'n holl egni, rho i ni galndau i seddwl am danat, eneidiau i'th gofie. Tall i'th adnabod, grym a gallu i lynu wrthyd y ddiyfgog, a'th garu'n ddiragrith byth hyd y diwedd. Gwna i ni yn awr ac yn dragwyd ofni d' Enw Sanctaidd, cynnal ni a'th hael yspryd, cadw ni rhag pob drygioni, a thywys ni at bob dioni, a rho i ni ras i gerdded ffydd dy ddeddfau a llwybrau dy orchymynion, heb droi ar y llaw ddehau, na gwyro ar y llaw a夫wy, fel y byddom ni yn gyfryw bobl sanctaidd etholedig ag y mynnyt ti i ni fod.

Gan

## Foren a Hwyr.

Gan ein bod ni'n gweled trw  
brofiad beunyddiol, a'r aml ddry-  
chau marwolaeth sydd ger ein  
bron yn waftad, nad yw dyddiau blynnyddoedd  
ein hymdaith yn y Dyffryn gwael hwn o dru-  
eni ac wylofa'n ond ychydig o rifedi a drwg  
eu helynt; nad ym ni oll ond dieithriaid a  
phereriniou yma ar y ddaiar, nad oes i ni yma  
Ddinas barhaus, ac nad yw pob Dŷn ond  
cwbl wagedd pan fo ar y goreu; Dyro i ni  
ras i brynnu a gwneuthur Defnydd daionus  
o'n hamser gwerthfawr na's gellir mo'i alw  
yn ol, i wneuthur ein Galwedigaeth a'n Hetho-  
ledigaeth yn sicr, cyn ein myned oddiyma  
ac na byddom mwyach; ac i dreulio amser ein  
hymdaith yn dy ofn di a'th wasanaeth, fel y  
byddom feirw yn dy ffafor di a'th nawdd, pa  
bryd, pa le, a pha fodd bynnag y gwelych di  
fod yn dda alw am danom ni. Gwna i ni fod  
(ni a erfyniwn arnat) bob amser yn gofus am  
danom ein hunain, feddwl am ein diwedd,  
ddeall a chydnabod nad yw ein Cyrph ond  
pridd-lestri breulyd, fod yn angenrhaid i'n  
pebyll Dairiel o'r adeilad hon ymddadtoedd na  
wyddom ni pa gynted, fod ein hanadl yn  
ein ffroenau, nad oes ond megis cam rhymgom  
ni ag Angau, ac nad yw ein holl odiidowgrwydd  
ond fel blodeuyn a wywa, chwa a ddisflanna  
a chyf god a gilia; a chan ein bod ni yn dy-  
nessau bob amser tu ag at Dŷ ein hîr gartref,  
yn prysuro yn ddjattal nes nes at drwgwydd-

*An brynnu'r  
Amser.*

## Gweddi i'w harfer mewn Teuluoedd,

oldeb, a rhifedi ein Dyddiau yn lleihau beu-  
nydd ; gwèl fod yn dda o'th dyner druga-  
reddau ddyfsgu i ni felly gyfrif ein Dyddiau,  
fel y dygom ein calon i ddoethineb, i weithio  
allan ein Iechydwriliaeth ein hunain trwy ofn  
dychryn, ac i fod fel morwynion call ag Olew  
yn ein Lampau, a'n cyfrif yn barod yn disgwyd  
wrthyt ti, o Iesu anwyl hyfryd Briodfae ein  
heneidiau.

*Am ystyried  
ein Diwedd.* A phan welych di fod yn dda,  
Arglwydd grafol, ymweled a ni  
a doluriau a heintiau ; ein gofwyd

a rhagrybuddion a dychrynedigaethau marw-  
olaeth, a'n hamgylchynu a thristwch ac ar-  
fwyd y Bedd : O Dduw ! Duw yspryd pot  
cnawd, yn ostyngedig yr attolygwn i ti o'th  
aneirif Drugareddau, er mwyn dy unig-ane-  
dig Fab Iesu Grist ein Harglwydd, er mwyn  
ei ddioddefaint ef a'i haeddedigaethau, nad  
ymbellha oddiwrthym yn amser ing a dirfawd  
angenocfid ; ac na fwrw ni ymaith oddi ger  
dy fron, pan ballo ein nerth : Eithr llefar  
heddwch wrth ein Heneidiau a'n Cyrph, a  
dywed wrthym, myfi yw eich iechydwriliaeth  
Llewyrcha lewyrch dy wyneb arnom, yn en-  
wedig y pryd hynny, pan som yn nessau a  
Frenin dychrynniadau, pyrth y bedd a gly-  
cyf god Angau. Selia i ni siccrwydd ein jechyd  
wriliaeth, maddeuant am ein holl bechodau  
tywallt yn ein calonnau gyflawn orfoledd  
llawenydd dy yspryd glan, llonydda ein cyd-  
wybodau

## Foreu a Hwyrr.

wybodau, trefha ein Ffîdd, esmwytha ein poenau, dangos dy nerth y a ein gwendid, a rho i ni amynedd a dioddefgarwch yn ein holl gystuddiau: A rhynged bodd i ti hefyd o' th radlawn ddaioni, pan som ar drangcedigaeth, ac yn canu yn iach i'r fuchedd farwol hon, dderbyn ein Heneidiau'r pryd hynny, (pan orchymynnir hwynt i ti) attad dy hun, i' th fynwes, a breichiau dy drugaredd, i gael eu coroni gyda thi yn dy Deyrnas dragwyddol; lle mae Eneidiau y ffyddloniaid a kunafant ynot ti, o Arglwydd, wedi eu rhyddhau oddiwrth faich y cnawd, yn gorphywys mewn pob digonolrwydd o anrhaethawl lawenydd a gwynfydedigrwydd byth heb ddiwedd.

Duw Tad yr hwn a'n cre-  
aist, Duw Fab yr hwn a'n *inghyllch Trang-*  
prynnais, Duw yspryd glan *cedigaeth.*  
yr hwn a'n sancteiddiaist, derbyn ni attad dy  
hun i'r anneddau uchod; y Gogoned lan feni-  
digaid Drindod, tri pherson ac un Duw, aw-  
dwr y bywyd a bery byth, trugarha wrthym,  
a derbyn ein Heneidiau, pan ymadawom a'n  
daiarol dŷ o'r babell hon; i'r tŷ a'r adeilad  
hwnnw, nid o waith llaw, tragicwyddol sy  
gennyt ti, o Dduw yn y Nefoedd fry, lle  
nad oes na thrangc na gorphen yn oes oefoedd.

Megis y gwelaist ti fod yn *Y Boreu.*  
dda, o Arglwydd galluoccaf,  
ein cadw ni o' th fawr drugaredd, rhag pob  
perygl ac enbydrwydd y nos aeth heibio,  
rhoddi

## Gweddi i'w harfer mewn Teuluoedd,

rhoddi esmwythder a llonyddwch i'n Cyrph, a'n cadw yn ddiangol hyd ddechreu'r dydd heddyw; felly yn olyngeiddiaf yr attolygwyr i ti, ein hamddiffyn ni heddyw ac yn dragwydd rhag pob niwed a phechod: Bendithia ein mynediad allan a'n dysfodiad i mewn, gwait ein dwylo a'n holl amcanion; by'd i'r hynol a wnelom, a ddywedom ac a fyfriom, foer anrhydedd a gogoniant i'th Enw sanctaidd cyffur a diddanwch i'n heneidiau ein hunain a llês a daioni i'th Eglwys. I lewyrched Hau y cyflawnder i gonglau tywyll ein calonnau fel y gwasgarer yr holl dywyllwch a'r caddug sydd yn llechu ynddynt, ac y rhodiom ninna fel plant anwyl i ti mewn gwîr oleuni a ne wydd-deb buchedd, yn ddiberygl tramcwydd y dydd hwn a holl ddyddiau ein bywyd. Dyr i ni y cyfryw gyfran weddol o gyfreidiau'r fuchedd hon, fel y bo i ni gael ein digonedd o'i bara beunyddiol; ac na bom yn faich, eithi yn hyttrach yn gynnorthwyol i eraill. Na a i lwyddiant ein llygru na'n chwyddo, nac i afluwyddiant ein gorthrechu na thorri ein calonnau: Par i ni ddysgu rhai gwersi o ddaion beunydd, ac oddiwrth bob peth: Rho orchymyn i'th Angylion am danom, i'n dwyn yn eu dwylo, a'n cadw yn ein holl ffyrdd rhag taro o honom un amser ein troed wrth garreg; achub ni rhag pob cyfeiliorni a gau lwybrau, a chyfeiria ein traed i ffordd tang neddyfi; fel y byddo ein Heneidiau a'n Cyrph yn

## Foreu a Hwyr.

yn bur ac yn ddifrycheulyd ger dy fron di yn oestad ; ac y byddom, pa bryd bynnag y de-lo dŷdd ein hymddattodiad ac amser ein hym-adawiad oddi yma, yn bobl gymmeradwy yn dy olwg di ; yn barod ac yn gyfaddas i fyned i mewn i letteua gyda thi yn dy Deyrnas dragwyddol, trwy haeddedigaethau a thru-gareddau dy un Mablesu Grifft ein Harglwydd.

Yn gymaint a rhyngu bodd *Brydnawn.* i ti, O garediccaf Dad, ordeinio o honot y dydd i ni wneuthur ein gorchwylion, a'r nôs i ni gymmeryd ein hesmwythder : O herwydd pa ham, gan ei bod hi'n awr gwedi myned yn nos arnom, a ninnau i fyned i'n gorphywysfa ; caniadha fod i ni felly, Arglywydd grafol, gymmeryd ein gorphywysde~~d~~ corphorol, fel y bo i'n Heneidiau wilied yn oestad am ddydd ymddangosiad ein Harglwydd Iesu Grifft i'n gwaredu o'r fuchedd farwol hon ; ac i'n troglwyddo i'r fuchedd anfarwol honno sy'nghadw gennyt ti i'r fawl a'th garant ac a'th ofnant. Gan hynny i'th ddwyo di a'th gadwedigaeth, yr ydym yn ein gorchymyn ein hunain, ein Cyrph a'n Heneidiau, a chwbl ôll sydd eiddom, y Nôs hon : Bydd o geidwad anwyl Israel, yr hwn nid wyt un amser yn huno nac yn cyfagu, yn gwilied ac yn gofalu trosom. Dyro, Nyni a attolygwn i ti, orchymyn i'th Angylion sanctaidd bendigedig i weriyllu o ddau tu ein tŷ a'n trigfa ; fel y byddom yn ddiogel tan gylgod

## *Gweddi i'w harfer mewn Tenluoedd,*

god dy adenyydd. Sancteiddia i ni ein gor phywysfa, rho i ni gwsg gymhedrol a chysurol ; na ad i ni huno ya yr Angau, nac i goeg freuddwydion, Dychymygion, na phrofedi gaethau'r Fall ein brawychu, ein blino na haflonyddu. Hefyd na ad i'n cwsg fod y ormod, nac yn anghymhedrol i gyflawni an nigonol Chwantau'r Cnawd ; eithr yn unig yn ddigonol i fodloni angenrheidiol chwan Natur ; fel y byddom ni yn gymmwysfach rodio yn gysurus ger dy fron di a'th folian yn nylediwyddau a gweithredoedd y dyddi foru ym mhob Duwiol ymarweddiaid a syberwyd, er gogoniant i ti, diddanwch i ni ei hunain, a byddiant i'n cymmydogion. Ac yn enwedig gwna ni yn barod erbyn y dyd mawr hwnnw na bo iddo nôs bŷth.

*Diolchgarwch.*

\* *Brydnawn,  
Aberth Prydnawnol.*

Derbyn, nyni a attolygw i ti, O Arglwydd Dad, Du Holl-alluog, ein rhwymedigo \* *Aberth Prydnawnol*, o foliam anrhydedd a diolchgarwch i'm dy holl aneirif ddaioni a't

drugareddau i ni, ac i bob Dyn, donniau bendithion, diddanwch ac ymwarediadau, roddais ac a barheais i ni o amser bwygilydd tu ag at y fuchedd hon a'r fuchedd rhag llaw Yr ydym yn clodfori dy dduwiol fawredd ar fod yn wiw gennyt cyn feiliaid y bŷd, yn e bodlonrwydd dy ewyllys, ein hethol a'n dewi ni i fod yn Etifeddion Iechydwriaeth, ac yn blaen

## Foreu a Hwyr.

blant i ti trwy fabwys a rhad : Am ein Creadigaeth yn ol dy ddelw dy hun, mewn cyf-iawnder a gwir fansteiddrwydd : Yn enwedi-gol am ein prynedigaeth trwy ein Harglwydd a'n Iachawdwr Iesu Grist : Am ein Galwedi-gaeth, ein Cyfiawnhad, ein Sansteiddiad, ein Cadwedi-gaeth gwastagol, a'n Gobaith siccar o gael ein gogoneddu gyd-a thi yn y fuchedd a ddaw. Yr ydym yn diolwch i ti am holl foddi-on gras a dedwyddwch, am dy Air, dy Gyssegr, a'th Sacramentau, dy Sabbathau, dy Bresennoldeb a llewyrch dy Wyneb-pryd, am yr amser i edifarhau, ac i wneuthur gweith-redoedd da. Yr ydym ni hefyd yn clodfori dy ogoneddus fawrhydi am yr holl Sainct a'r ffyddloniaid a fuant fyw a meirw yn dy ffydd di a'th ffafor ; gan attolygu i ti roddi i ninnau ras i ganlyn rhinweddolaf Esamplau eu duw-iolaf lan-fucheddau ; fel y gallom, yn ol ein hymadawiad a'r byd trallodus hwn, fod yn gydgyfrannogion gyd-a thi a hwynt yn dy ddidranc Deyrnas. Ac yr ydym ni hefyd yn ddiolchgar i ti, ac yn dy foliannu am bob bendithion tymhorol eraill ; megis Iechyd, Heddwch, Llwyddiant, ac Esmywythder ; ein Hymborth, ein Dillad, ein Cynhesrwydd a'n Cynhaliaeth, ynghyd a phob peth arall a'r a-welaist di o'th radlawn haelioni eu rhoi a'u caniad hau i ni. Ac yn awr beth a dalwn i ti, O Arglwydd Dduw, am dy holl ddaioni a'th drugareddau i ni yu nhir y rhai byw ; Phiol Iechyd-

## Gweddi i'w harfer mewn Teuluoedd,

Iechydwriaeth a gymmerwn, ac ar dy Enw Y  
di y galwn, i ti y talwn ein haddunedau beu-dda,  
nydd, ac i ti y rhoddwn, yn ol ein rhwym dy  
ediccaf ddyled, bob Mawl, Anrhydedd, Ufudd. Dey  
dod a Diolwchgarwch, o Genhedaeth i Gen. Rag  
hedlaeth byth.

Tros yr Eglwys yn  
gyffiedinol.

An nid ydym yn deisyf ac yn Gaf  
galw arnat, O Dduw, yn ac y  
unig trofom ein hunain; eithr fydd

hefyd tros dy holl Etholedigion bobl ym mhob lasa  
lle, a'th Eglwys Ian Catholic sy'n milwrio oll  
yma yn Gyfuddiedig ac yn Wasgaredig ar a de  
wyneb yr holi Ddaiar. Gwna ddaioni yn dy ei h  
wyllysgarwch i Sion, ac adeilada furiau Je-wa  
rusalem: Amddiffyn iddi Athrawiaeth bur, ac i  
Gweinidogaeth dy Sacramentau a Phrege-gwa  
thiad dy Air yn ddilwgr, fel na allo Pyth. Dy  
Uffern ei gorchfygu. Pura hi oddiwrth bob i d  
camgrefydd, ofer goelion ac anghydfod: Cadw fod  
hi rhag ei holl Elynion oddiamgylch, rhag i'r ein  
Baedd o'r Coed ei thurrio, a Bwysfil y Maes (ny  
ei Phori. O Dduw'r lluoedd, dychwel attolwg; sed  
edrych o'r Nefoedd a chenfydd, ac ymwel gos  
a'r Winwydden hon, a'r Winilan a blannodd dre  
dy ddeheulaw, ac a'r Planhigyn a gadarnhe  
aist i ti dy hun. Bydded dy law dros wr dy au  
ddeheulaw, a thros Fab Dŷn yr hwn a ga  
darnheist i ti dy hun. Ynfyda Gynghorion a  
Bwriadau Gelynion dy Eglwys, a diddymma Gal  
holl nerthoedd a drwg amcanion pawb a ga  
nt Sion.

Yn

## Foren a Hwyr.

Yn enwedig gwel fod yn  
eu-dda, O Arglwydd, edrych ar  
ym dy Eglwys a blennaisit yn y  
dd. Deyrnas hon, amgylchyna hi a chaerau dy  
en. Ragwelediad, ac amddiffyn hi rhag pob gwrth-  
wyneb ; gwna iddi fod, er gwaetha ei holl  
yn Gafeion a'i drwg Ewyllytwyr, yn degwch bro,  
yn ac yn llawenydd yr holl Ddaiar ; heddwch  
fyddo o fewn ei rhagfur, a ffyniant yn ei pha-  
nob lasau, a llwydded pawb a'i hoffant. Par i ni  
oll y rhai a anwyd ac a fedyddiwyd ynddi, ac  
a ddygwyd i fynu wrth ei bronau hi a llaeth  
ei hathrawiaeth iachus, fod yn uffud ac yn  
wasanaethgar iddi ; trwy rwymo ei briwiau  
ac iachau ei hyffig ; ac nid ei hanrheithio, ei  
gwatwar na'i diytyrru, rhag i Gigfrain y  
Dyffryn dynnu ein llygaid, a fyrthio o honom  
i dywyllwch a dallineb ; a rhag i'n hanghyd-  
fod beri diffoddi goleuni ein Itrael, a symmud  
i'n Canhwyllbren o'n plith. Anfon i'n mysg  
(nyni a attolygwn i ti o Dduw) am Amryfu-  
g; fodd Wirionedd, am Schism Undeb, am Ofer-  
wel goel Union addoliad, am Gymmysgedd Iawn-  
drefn, am Halogrwydd Dduwioldeb, am  
ymrafael Gyrrundeb, ac ambob gau Opiniwn-  
dy au union Farn ym mhob peth : Gan mai un  
Corph y fydd, un Gobaith, un ffydd ac un  
Bedydd ; bydded i ni oll o un Meddwl, un  
Galon, un Genau ac un Glin, gredu, garu,  
gyfaddef a'r addoli di, yr unig wir Dduw,  
mewn undeb yfryd a chwlwm tangneddyf ;  
fel

*Gweddi i'w harfer mewn Teuluoedd,*  
fel y bo i ni, yn ol diweddu y fuchedd boene  
dig hon, yn un a chyttun, gyd-a myrddiwn  
Sainct ac Angylion, ganu *Halelujah*, o fau  
cydleisiaawl i ti, yn oes oesoedd yn *Nheyrn*  
Nefoedd.

*Tros Ardderchoccaf  
Fawrhyd i Fren-  
bines.*

O Dduw yr hwn a wna  
thost Frenhinoedd yn Dad  
maethod, a Brenhinesau y  
Fammaethod i' th Eglwys

gwel fod yn dda, yn u fudd yr attolygwn i  
fendithio ei goruchel ardderchoccaf fawrhyd  
dy Wasanaethyddes di, ein grafusaf ddaionu  
**Arglwyddes ni**, ein rhinweddolaf Frenhine  
**Ann**; bendithia hi, a hir ddyddiau i dey  
nasu yn llwyddiannus arnom; bydded i hed  
wch a chariad, sancteiddrwydd a chyfawn  
der, gwirionedd a phob rhinweddau Cristi  
nogol, flaguro yn ei hamser: Sicrha hi y  
**Nheyrn-gadair ei Brenhiniaeth**, a' th nawdd  
a' th gadarn allu; bydd iddi yn Helm Iechy  
wriaeth, ac yn Dŵr cadarn rhag wyneb  
holl Elynion; gwisg hwynt a chywilydd  
gwradwydd, a blodeued ei Choron arni hi  
thau: Bydded ei heinioes yn rhwym gyd  
thi yn rhwymyn y bywyd. Gwasanaeth  
ei Deiliaid hi yn ffyddlon ac yn u fudd,  
gwasanaethed hitheu di mor ddyladwy ym  
ar y Ddaiar, fel y bo iddi yn ol hyn deyrna  
gyd-a thi yn dragwyddol yn y Nefoed  
uchod.

Bendith

## Foreu a Hwyr.

Bendithia hefyd gyd-a hi y  
Dwyfloges *Sophia*, a phob un  
arall o frenhinol Deulu Yme-  
rodraethol Goron y Deyrnas hon ; fel na  
phallo wr o'r frenhinol Hiliogaeth honno i ly-  
wodraethu Teyrn-wialen y Gwledydd hyn  
tra fyddo Haul a Lleuad.

Bendithia anrhydeddusaf ddir-  
gel Gyngor ei Mawrhydi a  
Doethineb, ei Phenfwyddogion  
a'i Barnwyr ag anlygredigaeth, ei Lluoedd  
a'i Rhyfelwyr a gwroldeb a galluogrwydd ;  
dos allan gyd-a hwynt i'w Rhyfeloedd, gorch-  
guddia eu pennau yn nýdd y Frwyder, rho-  
iddynt Fuddugoliaeth ar eu holl Elynion, a  
dwg hwynt adref mewn Gorfoedd ac Urrdas.

Yn enwedigol, bendithia  
(Arglwydd) ac ymwel a  
Llwyth *Lefi*, yr hwn sy'n gwafanaethu d'  
Allor yn waftad ; sef yr holl anrhydeddus  
Esgobion, Gweinidogion dy Gyssegredig air,  
a Bugeiliaid dy Braidd a'th Eglwys : Tywallt  
arnynt ddyfal wth dy fendith, fel y bont yn  
boenus ac yn wiliadwrus yn eu Gweinido-  
gaeth, yn Efamplau da yn eu buchedd a'u  
hymarweddriad, ac yr achubont eu Heneidiau  
eu hunain a'u Gwrandawyr. Gwna hwynt  
yn hýfi fynegi i'th Bobl eu camwedd, a'u pe-  
chodau i dý *Jacob*. Ac megis ag y gwelych di-  
fod yn dda, eu symmud oddiyma attat dy  
hun ; felly rhynged bodd it' gyfodi a donnio  
rhai

*Tros y Frenhi-  
nol Deulu.*

*Tros y Swydd-  
egion.*

*Gweddi i'w harfer mewn Teuluoedd,* Heol  
hēb  
gwaed  
Ddu  
hon,  
o bol  
seba,  
Brod  
ac a  
Arg  
Sion,  
maw  
*rhai eraill, cyflawn o Zēl a gwybodaeth,*  
*weini yn eu lle yn ddyladwy; fel na bo by*  
*dwyll yn, na diffyg ar dy Eglwys hyd dd*  
*wedd y bŷdd.*

*Tros yr Ygolion.* Bendithia hefyd bob Mām  
Ysgol a hadleuodd Addysg  
Duwiolder yn ein plith, i ddŵyn ein Ieueng  
ctid i fynu yn rhinweddol ac yn ddysgedig  
Ac yn bendifaddeu i'r perwyl hymny, gwe  
fod yn dda fendithio ein dwy Brif Ysgol, *Rhyd  
ychain a Chae-gramnt*; fel y bo i afonydd  
ddysg a gwybodaeth ddylifo allan o'r ffyn  
honnau hymny i ddyfrhau Conglau sychio  
y Deyrnas hon.

*Tros bawb yn cy-  
ffredin.* Arglwydd, cynnorthwyd  
Rheidus a'r Anghenog, hy  
ffordda'r Anwybodol a'r Ang  
hyfarwydd, dŵg adref y Cyfeiliornus, a  
Gwrthnyssig i'r iawn ffordd: Maddeu i'n hol  
Elynion a'n Caeleion a thro eu Calonnae, a rh  
i ni ac i'th holl Eglwys amlder o Heddwch a  
phob Dedwyddwch, fel y gallo'r Oen drigo  
gyd-a'r Blaidd, y Myn orwedd gyd-a'r Llew-  
pard, y Fuwch a'r Arth bori ynghyd, a  
Plentyn fugno chwarae wrth dwll yr Aip, ac  
estyn ei law ar ffau y Wiber; fel y byddo ein  
Meibion fel Plan-wydd yn tyfu yn eu hieu-  
engctid, a'n Merchaid fel Congl-faen-nadd  
wrth gyffelybrwydd Palas: A'n Celloedd yn  
llawn yn trefnu pob rhyw Luniaeth, a'n De-  
faid yn dŵyn miloedd, a myrddiwn yn ein

Y  
wn  
au,  
Fyd  
an  
au,  
Y  
wn  
Heolydd,

## Foreu a Hwyrr.

Heolydd, a'n Hychain yn gryfion i lalurio, heb na rhuthro i mewn, na myned allan, na gwaedd yn ein Heolydd. Bendithia hefyd, o Dduw, bob than ac aelod o'r Wladwriaeth hon, Fonedd a Chyffredin, o'r uchaf i'r isaf, o bob congl bigilydd o honi, o *Dan hyd Beer-seba*, gyd-a'n holl Geraint a'n Cyfeillion, ein Brodyr a'n Chwiorydd Cristianogol, a ofnant ac a alwant ar dy Enw sancteiddiol; cyfod, O Arglwydd! Y trwm-galon sydd yn galaru yn Sion, a dychwel Gystuddiau dy Blant i fod er mawr ddaioni a diddanwch iddynt.

Cofia a bendithia yr Eglwys adgyweiriedig y tu draw i'r Moroedd, Galw yn dy amser da nodedig dy hen Genedl dy hun, yr iuddewon gwafgaredig; agor eu llygaid i edrychar, ac i gredu yn yr hwn a wahanafant: A dŵg i mewn gyd-a hwynt gyflawnder y Cenhedloedd, a datcuddia belydr hyfryd goleuni dy Efengyl sanctaidd i'r rhai sydd yn eistedd etto mewn tywyllwch a chyf god Angau; gan dorri i lawr Deyrnas Satan ac Angrist, a Derchafu Teyrnas dy Fab trwy'r holl yd; fel y byddo un Eglwys, ac un Gorlan, an yr un Bugail mawr, ac Esgob ein Heneidau, Iesu Ghrist ein Harglwydd.

*Tros yr Eglwys adgyweiriedig, &c.*

Yr Holl-alluog Dduw yr Y Gorphen-glo.  
wna wyt arferol o roddi i

## *Gweddi i w harfer mewn Teuluoedd,*

ni fwy nag a archom neu a ryglyddom, clyw ni, ac atteb ni yn raslawn yn ein deisfyiadau hyn a'n herfynion, a phob peth arall a wyddost ti fod yn fuddiol, ac yn angenrheidiol i ni, yn well nag y medrwn ni eu gofyn na'u dymuno, ermwyn teilyngdod, haeddedigaethau a chyfryngdod dy unig anedig Fab Iesu Ghrist ein Harglwydd : Yn Enw bendigedig a Geiriau pa un, y clown ni i fynu ein Gweddiau amherffaith hyn, gan ddywedyd, fel y dylgodd efe ei hun i ni alw arnat, y ei Efengyl Sanctaidd.

## *Gweddi yr Aiglwydd.*

*Ein Tad yr hwn wyt yn y Nefoedd, sancteiddier dy Enw. Deued dy Deyrnas*

Byd dy ewyllys ar y ddaiar megis y mae yn y Nefoedd. Dyro i ni heddyw ein bara beu nyddiol. A maddeu i ni ein dyledion, fel maddeuwn ni i'n Dyled-wyr. Ac nac ar wain ni i Brofedigaeth ; Eithr gwaredu rhag Drwg : Canys eiddot ti yw'r Deyrnas a'r gallu, a'r gogoniant yn oes oefoedd. *Amen*

## *Y Fendith.*

*Tangneddyf Dduw yr hwn sydd uwchlaw pob deall,*

gatwo ein calonnau a'n meddyliau yngwybodaeth a chariad Duw a'i Fab Iesu Ghrist ein Harglwydd. A Bendith Dduw holl-alluog y Tad, y Mab, a'r Yspryd Glan, a fydd i'n plith, ac a drigo gyd-a ni yn waftad. *Amen*

*Gweddi*

om,  
dei-  
arall  
eid.  
go-  
dde-  
Fab-  
ndi-  
ein-  
lyd-  
Yn  
ddiolchgar i ti am danynt a phob trugareddau  
eraill, trwy Ghrist ein Harglwydd. Amén.

## Gweddi cyn Bwyd.

**B**Endithia, ni attolygwn i ti, o Arglwydd, y  
Creaduriaid hyn, a ordeiniaist i fod yn  
morth i ni : Gwna bwyt yn lluniaeth iachus i  
saethu ein Cyrph mewn bywyd a iechyd, a rho i  
mynnau ras i'w derbyn yn llariaidd ac yu ostyng-  
edig, megis o'th ddwylo di, ac i fod byth yn  
Yn ddiolchgar i ti am danynt a phob trugareddau  
eraill, trwy Ghrist ein Harglwydd. Amén.

## Diolwch ar ol Bwyd.

**M**Oliant awrhydedd a gogoniant a fyddo i  
ti o Arglwydd Dduw, am ddiwallu ein  
Cyrph y pryd presennol hyn mor ddigonol a'th  
ddirfawr haelioni : Rhynged bodd it' ni er-  
fyniwn arnat, felly ddiwallu ein Eneidian a'th  
ras a'th fendith, fel y bom, wedi diweddu'r  
fachedd hon, yn Gyfrannogion o'th wledd nefol,  
trwy Ghrist ein Harglwydd. Amén.

Duw a gatwo ei Eglwys, a'r Frenhines, a'r  
Deyrnas, a faddeuo i ni ein haml Becho-  
dau, ac a roddo i ni heddwch a llwydd-  
iant yng Nghrist ein Harglwydd, Amén.

Y

G

V

br

dd

me

ch

Ta

me

By

y

ma

dy

ar

hon

---

## Y Traethawd Cyntaf ynghylch Prynnu'r Amser.

---

Eph. 5. 16.

*Gan brynnu'r amser, oblegid y dyddian sy  
ddrwg.*

**Y**N nechreuad y Bennod hon y mae'r Apostol yn cynghori'r Cristianogion i sancteiddrwydd yn gyffredin, trwy osod ger eu bron hwynt esampl berffaith, *Byddwch ddilnwyr Duw fel Plant anwyl, a rhodiwch mewn cariad.* Mae'n rhaid i'r rhai a chwennychant gael y Nefoedd ganlyn eu Tad, ac fel brodyr *Gedeon*, fod o ddull meibion Brenin; y *Gorchymmyn* yw, *Byddwch sanctaidd, byddwch berffaith, fel y mae eich Tad nefol yn berffaith;* Yna y mae efe'n myned rhagddo i gymhell y ddyledswydd fawr hon yn fwy neilltuol ar bawb yn eu hamryw berthynasau, yr hon y mae efe'n annog trwy amryw Re-

B

symmau.

symmau. Ac yn y Testun fe dybygid ei fôd efe'n pennodi allan yr odfa i osod y rheini a phôb dyledswyddau Cristianogol eraill mewn ymarfer. *Gwelwch pa fodd y rhodioch yn ddiesgenlus; nid fel annoethion, ond fel doethion, gan brynnu'r amser.*

• *Agoriad y Geirian.*

Fe gymmerir amser mewn *Xesv Tempus; spatiū temporis; nūc est opportunitas.* dwy ystyriaeth : y mae ysbaid amser, ac y mae odfa amser : *Tempus longum, & Tempus commodum;* amser

hîr, ac amser cyfaddas : y mae gwahan rhwng amser ac odfa ; Amser yw parhâd neu ganlyniad cynnifer o funudau, oriau, ddyddiau neu flynyddoedd, ôl yn-ôl, o ddechreu oes gŵr hŷd ei diwedd, *Job 7. 1.*

• *Onid oes amser terfynedig i ddyn ar y ddaiar!* Odfa yw 'r amser a gymmhwyfwyd ac a gyfaddaswyd i wneuthur y gwaith neu i gorchwyl hwn neu 'r llall, *scf,* cydgyfarfod amser a moddion i beri 'r diben. Hwn a elwir pryd neu dymmhoreiddrwydd amser, pan yw amser, llanw, a gwynt yn cydgyfarfod ac yn rhedeg ynghyd, *Preg. 3. 1. 1 mae amser neu odfa i wneuthur pob peth:* Fe ddichon amser fod yn parhau pan ddarfyddo amser cyfaddas ; fe all hwylau amser fod yn uchel, pan fo awel amser cyfaddas wedi myn'd ar goll. Nid yw pob amser

yn amser gwanwyn, yn amser hau, yn amser ennill; nid oedd y Manna i'w gael ond y boreu. Tegwch amser yw odfa amser, *Preg. 3. 11. Efe a wnaeth bob pêh yn dêg yn ei amser*, y rhan hon o amser sy' raid i ni ei phrynnu. Prynnu sy'n dangos pris godidog a gwerthfawrogrwydd amser; cymmwynas i'w brisio yn fwy nag Aur *Ophir*. Y mae *Salomon* yn erchi i ni brynnu'r gwîr, *Dihar. 23. 23. Ein Harglwydd* cu a gynghorodd Eglwys resynol i brynnu gantho ef *Aur a dillad gwynnion*, *Daxc. 3. 18. Ac y mae St. Paul yn ein cyngor i ni i brynnu'r amser*, megis tlws o'r fath brîs ag sy raid ei brynnu er drytten a fyddo. Nid ydys yn arfer prynnu pethau gwael a falw, ond pethau gwerthfawr, megis Rhyddid dynion, eu Meddiannau, eu Bywyd, &c. Felly y mae yn rhaid prynnu ein hamser gwerthfawr. *Gan brynnu'r amser, oblegid y dyddian sy' ddrwg.*

Y mae'r geiriau yn cynnwys ymddynt ddwy ran gyffredin.

1. *Cyngor i ddyledswydd, Prynnwch yr amser.*
2. *T Rheswm am hynny, oblegid y dyddian sy ddrwg.*

Or geiriau y gallwn ni ddal sylw ar yr Athrawiaeth hon, yr hon a fydd defnydd sy Nhraethawd a ganlyn. B 2 Ath-

Athrawiaeth. Y mae ar y goreu o'r Saint, neu y rhai a brynnodd Duw eisiau prynnu'r amser: Yr Epistol hwn a sgrifennwyd ar Eglwys glodfawr iawn, oedd yn byw yn amserau puraf yr Efengyl, ym mysg yr rhai yr oedd Cristianogion rhagorol a godidog, se a'u galwyd hwy yn Saint a ffyddloniaid yng Hrist Iesu, Pen. I. I. ac yr rhai a etholodd Duw yng Hrist, cyn seiliad y byd, adn 4. ac yn rhai wedi gwir ddychwelyd a'u dwyn i gyflwr o fywyd. Hefyd hwy: ddysgasant y ddyledswydd o farwhad, u o'r gwersi calettaf yng Hrèd, Pen. 4. 22. Ac hefyd a felwyd byd ddydd prynnedigaeth, Pen. I. 13. 4. 30. Ac a gawfant ernes eu Hetifeddiaeth nefol: Ac etto mae'n rhaid iddynt hwy, y rhai a gyrhaeddaant cyn ucheled pethau, brynnu'r amser, yr u pèth a gymmhellir tan wahanredawl enwau, Preg. 9. 10. Fe'i gelwir yn weithio tra ydyw hi yn ddŷdd, Joan 9. 4. Wrth drin yr Athrawiaeth hon, mi ddangosaf chwî,

1. Pa bryd y gellir dywedyd fod amser i brynnu.
2. Pa amser sy raid ei brynnu.
3. Pa fod y mae'n rhaid prynnu'r amser.
4. Pa ham y mae'n rhaid prynnu'r amser.
5. Annogaethau a Hyfforddiadau i'w cynnorthwyo.

I. Pa bryd y mae amser i'w brynnu ?

Atreb. I. Pan yw amser a dyledswydd fel y ddau efill hynny, *Jacob* ac *Esan*, yn ymaifyd yn eu gilydd; neu mal dau gydwedd ferchog yn myned law-law; Pan yw dyledswydd yn dilyn amser, fel y mae'r cyfgod yn dilyn y corph, neu'r Llaw-forwyn ei Meistres.

Hyn yw llenwi i fynu amser a dyledswydd, ac ymaifyd mewn amser cysfaddas erbyn ei gudyn-blaen, neu yn iaith yr Ysgrythyr-lan, gweithio gwaith y dŷdd wrth liw dŷdd. Ac i'r diben hyn y mae'n rhaid chwennych amserau cysfaddas neu odfeydd, fel y mae'nt yn cynnyg achlyfur o wasanaeth ac o wneud ein dyledswydd. Hyn a allwn ni ganfod yn *Nafydd dduwiol*,

Pial. 122. I. *Llawenychais pan ddymedent wrthysf, awn i dy'r Arglwydd.* Pan oedd ffordd yn agored i addoli Duw mewn prydferthwch sancteiddrwydd, *Dafydd* a lawenychodd weled y gwir Addolwyr yn gwneuthur y goreu o'u hamser i fyned i'r Ddinas honno, enw'r hon oedd *Jehovah Shammah*, yr Arglwydd sydd yno, *Ezec. 48. 35.* Ac y mae'r Prophwyd *Zechariah* yn dwyn i mewn Sainct Duw yn llawenychu yn yr un pethau, *Zech. 8. 20, 21, 22.* *Awn gan fyned i weddio ger bron yr Arglwydd, ac i*

geisio Arglwydd y lluoedd yn Jerusalem ; minneu a af besyd. Yr oedd y Saint gynt yn arfer llawenychu pan ddelai'r Sabbath, o achos dyledswyddau sanctaidd a nefol y dŷdd hwnnw : amserau cyfaddas a dyledswyddau ydynt i'w cyffylltu ynghyd bob amser, Gal. 6. 10. Hyn yw byw yn ol ewyllys Duw, i Petr. 4. 2. a rhodio yn ddi-eisceulus, gan brynnu'r amser, Eph. 5. 15. 16.

2. Pan ydym yn wir-ofalus i gyflawni i fynu esgeulusdod o'r blaen a dwbl di-

*Quicquid etatis  
retro est, mors te-  
uet. Senecæ. E-  
pist.* wydrwydd, gan brynnu'r amser, yr ydym yn ynnill yn ól ein colled. Amser, yn ol yr ymodrodd hwn, a

dybygid ei fod wedi ei

ddal yn garcharor, ac mae'n rhaid i ni ei brynnu ef. Prynniadau a wneir trwy bwrcas ; prynnu pêth, yw ei brynnu ef a phris ; y pris a'r hwn yr ydym yn ei brynnu ef, yw llafur, poen, diwydrwydd ffyddlon a difrifol, a mwy o fywiogrwydd a gŵroldeb wrth ddilyn ein dyledswyddau. Pan wneir i fynu ac y cyflawnir yn y nefas, yr hyn o amser neu ddifrifoldeb a fu yn eisiau mewn un dŷdd neu ddyledswydd ; hon yw'r ffordd i wneuthur ymdal am drist-golledion ein heneidiau. *Canys digon i ni  
yr amser a aeth heibio o'r enioes i weithredu  
ewyllys y Cenhedloedd, i Petr. 4. 3. Gristi-  
anogion,*

anogion, ein pechodau a suant yn aml ac yn gryfion, eithr ein gwasanaeth yn ychydig ac yn wael, am hydny gofodwch y fer oreu ymlaen, na fyddwch fel y diog, yn gyffelyb i'r drws ar ei golyn, ond fel yr Haul yn y nefoedd, sy'n ymlawenhau i redeg ei yrfa.

*Llaw y dimyd a gyfoethoga, Dibar. 10. 4.*  
 Mi glywais sôn am un a fu'n garcharor mewn daiardŷ tywyll, yr hwn pan ddygid goleu atto tros ychydig amser i fwyta ei fwyd, a dynnai ei Fibl allan ac a ddarllenai Bennod, gan ddywedyd y cai efe gyfwrdd a'i enau yn y tywyllwch, ond nid allai ddarllen yn y tywyllwch. Rhefwm oedd hyn e'i fod e'n gwneud Cydwybod o brynnu ei amser. Garedigion, bod yn wiliadwrus, yn ddiwyd, ac yn boenedig yn gwneuthur y goreu yn ffyddlon o'ch holl amser, eich talentau, eich donniau a'ch grafusau, yw'r pêth a amcenir yma. Y gorchymlyn sy am ymdrech a diwydrwydd, *Luc. 13. 24.*  
*2 Petr. 1. 10.* Achan y diwyd yn ei ddyled-swydd y mae 'r addewid o Ogoniant, *Heb. 6. 11.* *Fr rhai trwy barbau yn gwneuthur da, a geisiant ogoniant, ac anrhydedd, ac an- llygredigaeth, a bywyd tragwyddol, Ruf. 2. 7.*

II. *Pa amser sy raid ei brynnu?*

*Atteb.* Pob amser.

Y mae Amser mor werthfawr, na ddylid colli dim o honaw. Mae'n rhaid i ni dreulio

holl amser ein bywyd naill ai ynglych ein heneidiau yngwafanaeth Duw, neu yngwaith ein galwedigaethau, neu ym mherthynas i hynny. - Yn enwedig.

1. *Amser Ieuengtid.*
2. *Amser Iechyd a nerth.*
3. *Amser Cyfudd.*
4. *Amser yr Efengyl.*
5. *Amser y Sabbath, neu ddydd yr Arglwydd yn enwedig sy raid ei brynnu.*

1. Mae'n rhaid prynnu *amser Ieuengtid*. Y mae'r Duw mawr yn sefyll yn fawr ar flaenoldeb, gael y cyntaf a'r goreu : Y ffrwyth addfed cyntaf, y cyntaf a agorol brû. O yna offryimmwch *Isaac* eich ieuengtid, gwanwyn a blodau eich oedran i Dduw, ac nac arhoswch hŷd y dŷdd drwg. Dechreuwch yn gyntaf ag ef o'r hwn y cawfoch eich bod, ewch ynglyd a gorchwyl mawr a gwaith eich eneidiau anwyl na byddam fŷth feirw, cyn ymfaglu o honoch yngofalon y bŷd hwn. Bwriedwch gyflwyno blaen-ffrwyth i'r Duw grasfisol a daion hwnnw, fy'n chwennych caely blaen-ffrwyth addfed. Ym moreu disglair eich bywyd cymherwch eich hunain a Brenin y Gogoniant, a byddwch yn briodal-ferch iddo ef, -cyn torri eich morwyndod, a'ch halog gan bechoda'r bŷd. Os heuir had neforas y boreu, y blodau hyfryd a pheraidd

yn tarddu o'r had hynny, a wahoddant yr Arglwydd Iesu i ddyfod i rodio i'w ardd, *Can. 5. 1.* Os mynnwch fod yn Demlau i'r yspryd Glan, gadewch i'r hwn a wnaeth y tj, fod yn bresswylwr cyntaf a phennaf ynddo, ac na adewch i'ch calonnau fod yn drigfannau i Ddreibigiau a Chythreuliaid, y rhai a fyddant i'ch dinystryo byth ac yn dragwyd.

Chwychwi langciau, a gwryfon, gwbyddwch, fod y Duw graifusol anfeidrol yn eftyn y Deyrn-wialen aur, ac yn eich gwa-hawdd i ddyfod atto ef. Y *Dasydd gwrid-goch*, y bachgen *Samuel*, a'r *Timothetus* ieuangely mae Duw yn alw, *1 Sam. 2. 11.* *1 Sam. 17. 42.* *1 Tim. 4. 12.* a pha gyntaf y deloch, goreu a fydd hynny. Dywedwch yna, yr awr hon; wele, Arglwydd, nyni'n dyfod; eiddo ti ydym, ac eiddo ti a fyddwn ni; tyred yn awr a chymmer yr eiddot dy hun; Duw a fydd bodlon i chwi ac a'ch cymmer. yn llawen, y mae ei freichiau ef a'i fonwes yn agored i'ch derbyn chwi, *Jer. 2. 2. 3.* *Cofiai di, caredigrwydd dy ieueng&lt;id, a serch dy ddyweddi, pan oedd y blaen-ffrwyth yn sansteiddwrwydd i'r Arglwydd.* Os mynnwch i Dduw edrych arnoch a bod yn dirion wrthych, offryminwch iddo o blaen-ffrwyth eich Desaid, *Gen. 4. 4.* sef, dyddiau eich ieueng&lt;id. Pe cynnygid cwmpeini o h&lt;en- ddyfodion.

ddynion gweinion, neu efryddion i fod yn wasanaeth-ddynion i'r Brenin, ni fynnai efe mo honynt, *1 Sam. 14. 52. Mal. 1. 8, 13, 14. Dafydd o'i ieuengestid*, a *Josiah* pan ydoedd yn fachgen, a ddechreusant geisio'r Arglwydd, *Psal. 71. 17. 2. Chron. 34. 3. Chwychwi rai ieuangc*, os derbyniwch had Gras ym moreu 'ch oes, fe wreiddia yn ddyfnach, ac a graffa'n wêll ar eich caionnau, ac a bair i chwi ddŵyn ffrwyth yn eich henaint. Y Brethyn a liwir yn wlan a geidw ei liw oreu, a'r llestr a geidw arogl y gwlybwr hynny hwyaf a'r hwn y tymherir ef gyntaf. O gan hynny wr ieuangc, *Cofia yn awr dy Greamdr yn nyddian dy ieuengestid*, *Preg. 12. 1. Dihar. 22. 6.*

2. Y mae yn rhaid gwneuthur y goreu *o amser iechyd a nerth*: Nid oes i chwi y rhai ydych yn awr yn gryfion ac yn heini dybied y byddwch felly yn oestad: Fe fydd yn rhaid i chwi cyn gystled ag eraill, feddwl am glefydion, afechyd a gwendid, y rhai a barant i chwi gadw eich tai, eich 'Stafelloedd a'ch gwlau: yn awr am hynny, tra yw eich nerth, iechyd eich *Cyrph a bywiog*-iwydd naturiol yn parhau, cofiwch am eich gwaith a'ch amser. Y dyledswyddau a'r anhawfdra mwyaf yn ffordd y Nefoedd a osodir allan wrth ymdrechu (*Luc. 13. 24. Ephes. 6. 12. 1 Cor. 9. 24, 25. 1 Tim. 6. 12.*)

ymastryd,

ymastryd, ymladd, a rhedeg, y rhai a ofynnant y goreu o'n hamser ni, a'r mwyaf o'n nerth. A all gŵr claf a gwan redeg cyn gynted ag y bo iddo ynnill, neu ymdrech ac ymladd fel y bo iddo orchfygu, bernwch chwi : y Brenin *Saul* a ddewisodd y glêw a'r nerthol i'w wasanaeth. Y Cawr neu'r cryf sy i redeg gyrfa, *Psalm 19. 5.* a'r ieuatingc sy raid iddynt orchfygu yr un drwg, i *Joan 2.14.* Pe bai gan wr orchwyl o bwys mawr, neu fatter bywyd ac angau a fai yn gofyn amser, nerth a diwydrwydd i'w wneuthur ef, ac a'i gadawai 'n ol nes bai mewn gŵth o-oedran, neu nes gorfyddai afiechyd neu wendid ef, fe fyddai pawb yn barod i ddywedyd ei fod efe wedi gwallgofi.

Pe byddai gan Gludwr ym mysg llawer o feirch cryfion nerthol, un march truan, cloff afiachus, a gofod o honaw y baich mwyaf ei bwys a'i werth ar y siad truan gwan hwnnw, ni a farnem naill ai ei fod e'n greulon, neu fod arno eisiau synwyr gŵr. Dyma'r modd y mae ein cyflwr nin-nau, y mae gorchwyl mawr ein heneidiau anfarwol yn gofyn amser, nerth a diwydrwydd, ac y mae'r cwbl yn ddigon bychan. Ac a osodwn ni holl bwys ein cyflwr tragedywyddol ar afiechyd a gwendid ychydig o ddyddiau cyn ein marwolaeth, na atto Duw, *Preg. 12. 3, 4.*

3. Y mae'n rhaid prynnu *amser cystudd*. am  
Gristianogion, yn *amser adfyd* y mae'n y  
rhaid ini ystyried, Preg. 7. 14. Amser blinder  
Jacob oedd hi, pan ddarsu i'r Apostol  
gynggori'r ffyddloniaid i brynnu'r amser:  
Y mae Duw yn llefaru trwy ei wialen, cyn ydy  
gytled a thrwy ei air, i bob un o'r ddau,

*Scola crucis, est  
Scola lucis. Luth.  
Psal. 94. 12.*

y mae'n rhaid i ni roi A  
clust. Y mae Duw wei- am  
thiau yn dysgu ei bobl, wy  
fel y dylgodd *Gedeon* wyr ne  
au

*Succoth, Lurn. 8. 16.* A drain yr anialwch  
ac a mieri. Bydded y cystudd o ba fath  
neu radd bynnag y fo, naill a'i ar ein per- am  
sonau, ein henwau, ein meddiannau, ein  
teuluoedd, ein Heglwys neu 'n Teyrnas,  
ie, ac o hir bara, mae'n rhaid i ni edrych  
arno megis oddiwrth Dduw, ac er daioni  
i ni. Canys y mae pob cystudd yn llefaru  
wrthym yn iaith *Ehwad* wrth *Eglon*, gair  
oddiwrth *Dáum* sydd gennyf attat ti; A  
Duw a wna gyfrif a ni am y gwial a olsodo  
efe arnom ni. Mi lefaraf fwy am hyn mew-  
lle arall.

4. Mae'n rhaid prynnu *amser yr Efengyl*.  
Amser yr Efengyl yw ein cynhauaf ylfryd-  
ol ni, ac y mae yn ynfydrwydd anferth  
gyfgru neu ddiogi y cynhauaf. Amser cy-  
faddas yn wir yw amser yr Efengyl, hynny  
yw, amser goleuni, amser ferchawgrwydd,  
amser

amser bywyd, amser rhydd-did. Yn awr y mae Uldcorn y Jubili yn canu, ac fe ellir cymmeryd i fynu a rhyddhau pob dyledion a gwystlon. Yma y mae rhydd-did i'r Carcharorion truein, ac agor yd y carchar i'r sawl ydynt yn rhwym. Amser cymmeradwy yw 'e yn awr, a dydd iechydwriaeth, 2 Cor. 6. 2.

Amser i gymmeradwyo, neu amser i gael ein cymmeradwyo, amser euraid a gogoneddus yn wîr. Wele, yn awr y mae ffordd lydan ac amlwg i'w Drugareddfa ef, y Cleddyf tanhyd a aeth ymaith, mur y gwahaniaeth a aeth i lawr, pob barrau a phyrth a dynwyd ymaith, Act o ryddhad a gyhoeddwyd, ac y mae cennad a ffordd rŷdd i bawb ddyfod a bod yn gadwedig ; y mae pardynau yn barod, Esa. 55. 6, 7.

Bechaduriaid, y mae'r Arglwydd Iesu eich anwylyd hygar, y Tangneddyfwr mawr, yn awr yn taer-ersynarnoch a'ngadw eich eneidiau truein, trwy wahawdd, curro, disgwyl ac addaw nawdd i chwi, Dihar. 1. 23. 9. 4, 5. Esa. 65. 2. Matth. 11. 28. Date. 3. 20. Can. 5. 2. Joan 6. 35. Y mae trylorau gras wedieu hagoryd, a'u cynnyg ar werth er brîs bychan, heb

*Tempus acceptum, neu tempus acceptabile.*  
Beza in loc.

*Quod offertur  
gratia ex gra-  
tia Dei est, qui  
sua constituit  
rebus omnibus  
momenta ut ob-  
latam occasionem  
arripiamus.*

erian

arian ac heb werth, *Esa.* 55. 1. *Datc.* 3. 18. Oddig  
brysiwch a dewch, pwrcefwch, prynnwcyff  
y perl mawr-bris sy wèll na Gemmau, yn  
chwi a gewch drysor yn y Nefoedd. Ffason Arg  
Duw, gwaed gwerthfawr, dillad gwynnion Y p  
Aur coeth, a bywyd tragywyddol eich; w  
eneidiau na byddant bŷth feirw a dal extrac  
gael: Ystyriwch hefyd, fod yr yspryd glangym  
yn awr yn galw, ac yn cynnyg ei ygmmorth a bil  
i gau'r fargen, ac i glymmu'r clwm prioda Gw  
rhwng Crist a'ch Eneidiau chwi, *Heb.* 3 edry  
Os collwch chwi'r cyfamser yma, chwi'r Sa  
ellwch fod bŷth heb gael y cyffelyb. Y maledi  
yr Yspryd a'r briodas-ferch yn dywedyd, *Tysfem*  
red, *Datc.* 22. 17.

5. *Amser y Sabbath neu ddydd yr Arglywydd*, sydd raid ei brynnu: Mae yn rhaid ddy  
ini gymmeryd gofal yn enwedig am sancteitac ei  
ddio'r dŷdd hwnnw, gan mai Sabbath yng  
yr Arglywydd ein Duw ydyw. Y mae'n yn  
rhaid treulio'r Dŷdd euraid hwn o'r bore ddy  
hŷd yr hŵyr yngwasanaeth ac addoliad ar y  
ein Harglywydd, naill ai mewn dyled-am  
fwyddau cyhoedd, neilltuol neu ddirgel, atdugy  
nid oes colli un rhan o honaw. Na chym'a'r h  
merwch ddim rhydd-did ar y Dydd hwnnwyr a  
i siarad ymadroddion ofer, coegion ac an- Y  
fuddiol, neu i chwarae neu farchogaeth yr A  
prynnu, gwerthu, neu weithio. Y mae'n  
pechod ofnadwy hwn (sy'n annog Duw i fyn  
ddigofaint),

8. Oddigofaint) o dorri 'r Sabbath, yn bechod  
wch cyffredin ; y mae cantoedd yn y wlad hon  
u, yn gwafanaethu'r Cythraul ar ddŷdd yr  
afor. Arglwydd yn fwy nag ar un diwrnod arall.  
ion. Y pryd hynny y mae dynion yn cael amser  
eich; waftanaethu 'r Diafol, ac i fodloni eu  
ll ectrachwantau, ac i fyned i'r Dafarn, neu i  
glan gymmeryd difyrrwch mewn chwaryddiaeth  
ortha bibiaeth. O na byddai i Swyddogion,  
oda Gweinidogion, Pennau-teuluoedd a Rhieni,  
. 3. edrych at hynny, *Neb.* 13. 17. Arglwydd  
hwyl Sabbath a orchymynnodd i ti, a' th fâb  
maeth ferch, a' th wasanaeth-ddynion a phaerb  
Tyfenn dy byrth sancteiddio'r dydd hwnnw.

Fe elwir y Sabbath yn gymmanfa fanc-  
rglaid, *Levit.* 23. 2. ac y mae Arglwydd y  
nai dŷdd hwnnw yn Dduw sanctaidd, cyflawn,  
teim ac eiddigus anfeidrol. Galwyd y Sabbath  
oath gynt yn *Regina dierum*, Frenhines y dyddiau,  
ae' yn y Testament newydd fe'i gelwir yn  
preddydd yr Arglwydd, *DATE.* 1. 10. yn ddŷdd  
liadar yr hwn yr ydym yn cadw coffadwriaeth  
led-am y drugaredd fwyaf, sef, am ogo neddus  
, a ddyfodiad ein Harglwydd a groeshoeliwyd,  
ym-a'r hwn y darfu i'r Cristianogion puraf yn  
anwyr amserau puraf ei gadw yn ofalus.

Yn y prif amserau yr oedd cadw dŷdd  
eth yr Arglwydd yn ddifrifol ac yn gaeth yn  
ae' prawf neu nôd o Gristianogrwydd. Pan  
w yfynnwyd y Cwestiwn, *Servâstî Domini-  
cum?*

cum? a gedwaiſt ti ddydd yr Arglwydd? Yr ateb a roddwyd, *Christianus sum, intermittere non possum*. Cristion wŷf nid allaf beidio. Ymadrodd Disinydd enwog oedd, dywedyd, y barnai efe am grefydd gwr yn ol y parch a'r goſal a fai ganddo gadw dŷdd yr Arglwydd. Christianogion y mae'n rhaid i chwi gadw Gorphywysfa eich Arglwydd, a chyflawni dyledswyddau sanctaidd ei addoliad ef yn ofalus, yn barchedig ac yn ysprydol, *Ioan. 4. 24.* Os meddyliwch bŷth gael cadw Sabbath tragedyddol gyd-a Duw mewn gogonian byddwch ofalus am y ddyledswydd hon. Iw chadarnhau hi ystyriwch,

1. Mor gaerh y mae'r Yspryd glan yn eis goſod hi arnom ni, ac i ba ddiben y mae hi: *Cofa y dydd Sabbath i'w sancteiddio ef* Exod. 20. 8. Y dŷdd bendigedig hwn am Gymmundeboedd a Duw, sydd i'r agfyfyrio arno cyn y delo ef; am hynny y prydnau oflaen y Sabbath, gorhennwch eich hol orchwylion angenrheidiol, fel na bo gennych ddim i'w wneuthur ond y gwaith a berthyno i'r dŷdd hwnnw. Byddwch fel gwada'r prophwyd *Dafydd*, Psalm 112. 5. *Hywodraethu eich achosion wrth farn, yn enwedig eich achosion ysprydol.* Pe disgwili eich gael cymdeithas rhwng gyfaill angheddus, a fynnech chwi eich cael mewni

gwedol

gwedd anrhefnus; neu yn ysgubo ac yn  
glanhau eich tai ar y dýdd hwnnw, a'r  
cwbl yn annosparthus? Ar ddýdd yr Ar-  
glwydd chwi a ddylech ddisgwyl o ddisrif  
am ddynessiad a phresennoldeb Brenin y  
Gogoniant, am hynny gwnewch bob pêth  
yn barod i'w groefawu ef.

2. Cofiwch Addaf-eiriau godidog, ac  
Enwau 'r dýdd bendiged hwn, fe a'i gel-  
wir yn ddydd uchel, yn ddydd sanctaidd,  
yn sanct yr Arglwydd, yn ogoneddus, Esay.  
58. 13. Am hynny prynnwch ef, na chollwch  
ddim Sabbathau ond hynny.

3. Ystyriwch fendithion ac Enaid-fudd-  
iant y dýdd hwnnw, os cedwir ef yn  
iawn. Diwrnod Marchnad eich Arglwydd  
ydyw, ar yr hwn y cewch chwi'r Olew  
gwerthfawr, y mae mŵn-gloddiau Aur,  
a thryforau Gras wedi eu hagoryd ar y  
dýdd hwnnw. Y mae ammheuthun-fwyd  
ysprydol i'ch eneidiau newynog, at y rhai  
y'ch gwahoddir gan Grist ar y dýdd hwnnw  
Es. 55. 1. Y mae'r Yspryd glan yn anadlu  
ac yn chwythu y dýdd hwnnw, trwy ddir-  
gel a hyfryd awelau'r hwn y mae'r Sainct  
yn efgyn tu-a'r nêf. Y mae'r Duw mawr  
yn dyfod i wared, ac eneidiau grafol yn  
mynd i fynu 'r dýdd hwnnw, Date. 1. 10.  
Ac y mae gan y rhai dispaddedig a gad-  
want Sabbathau Duw addewid am enw yn  
ei

ei dŷ ef yn dragwydd, *Esa.* 56. 4, 5. M  
allwn 'chwannegu 'r bygythion tost, a bar  
nedigaethau hynodol Duw ar halogwyr  
Sabbath, neu ddŷdd yr **Arglwydd**.  
gŵr a gafwyd yn cynnytta ar y dŷdd Sab  
bath trwy orchymmyn digyfrwng oddiwr  
Dduw a labyddiwyd fel y bu efe farw  
*Num. 15. 32, 34, 35, 36.*

III. Pa fod y mae'n rhaid prynnu  
Amser?

Atteb. 1. *Trwy gymmeryd a gwneuthur  
goreu o bob amser cyfaddas tu-agat og  
neddu Duw.*

2. *Trwy ddal gasel ar yr amser presennol  
a'r dydd gras yn awr er mwyn sefydlu  
ficerhau eich cyflwr dragwyddol.*

3. *Trwy wneuthur y goreu o bresennol foda  
ion gras, er mwyn cynnyddu o honod  
yn fuan mewn gras.*

4. *Trwy wneuthur pob daioni ag alloch  
eraill tra y galloch.*

5. *Trwy ymdrechu am gadw i fynu gym  
mundeb dianwadal a Duw mewn dyled  
swyddau sanctaidd.*

6. *Trwy wneuthur y goreu o bob rhaglun  
iaeth a chroes oddi Allan tuag at fuddian  
ysprydol oddifewn.*

7. *Trwy fwrw i fynu eich cyfrifon beunydd  
fel y gwneoloch union gyfrif a Duw.*

8. *Trwy*

8. Trwy ymdrechu am drefnu gmaith pob diwrnod fel y perthynai i'ch dydd di-weddaf; fel y galloch fod, wedi gorphen eich gmaith, yn gymmwys i adel y byd hwn.

1. Trwy gymmeryd a gwneuthur y goren o bob odfa tu-ag at ogoneddu Duw: Cristianogion anwyl, hwn yw gorchwyl eich Tad, a'r neges mawr er mwyn yr hwn y'ch ganwyd i'r bŷd.

Fe'ch ganwyd, ac a'ch ganwyd o newydd, i wasanaethu er mwyn budd i'r Duw sanctaidd a bendigedig yn y bŷd; hwn yw'r diben, ~~gogoneddus~~ er mwyn yr hwn y dylech dreulio eich nerth a'ch amser, a'ch gosod eich hunain allan hŷd yr eithaf. Nid oes i chwi esgeulufo 'r hyn yw prif ddiben eich bywyd, sef, tanu a gofod allan Ogoniant Duw yn y byd; pethau eraill ydynt yn is o lawer, ac yn rhaid iddynt fod yn wasanaethgar i hwn. Canys meddwl ac amcan gwafanaethu er elw i'ch Arglwydd, yw'r hwn sy raid i chwi fod bob amser yn ei yrru ym mlaen yn y byd drygionus hwn. Y mae Duw yn difgwyl hynny. *Na fydded it' ddumiau eraill ger sy mron i,* Exod. 20. 3. Fe fyn Duw ei dderchafu

*Tempus non potest Deo consecrari, nisi redemptum. Calv. in loc.*

chafu yn y galon ac yn ein buchedd hefyd  
 Ger bron yr holl bobl i'm gogoneddir med  
 yr Arglwydd, *Levit.* 10. 3. Fe s yn  
 Creawdr mawr mewn rhyw ffordd ne  
 gilydd ogoniant oddiwrth ei holl greadur  
 iaid. *Yr Arglwydd a wnaeth bob peth er*  
*fwyn ei hun,* *Dihar.* 16. 4. Y Bŷd i fod y  
 ddanghosiad gweledig a rhyfeddol o'i ogon  
 iant godidog ef, felly fel mai'r pêth sy ddy  
 ledus iddo ydyw, *Psal* 29, 1, 2. & 96.  
*Rhoddwch i'r Arglwydd ogoniant ei enn*  
 Rhodio gŷd-a Duw yn ein holl yrfa, a  
 amcanu ei ogoniant ef yw'r prif nod o  
 bod ni'n Sainct diragrith. Hwn yw'r ma  
 gwyn yn y nod a ddylem ni annelu atto,  
 pêth a ddylem ei ymlid yn lew, yn galon  
 nog, ac a'n holl egni. Pa un bynnag  
 wnelom ai gweddio, neu bregeihu, ne  
 ddarllain, neu wrando, neu gadw Sabbo  
 thau, neu ymddiddan, cynggori neu ar  
 gyhoeddi, neu brynnu, gwerthu, aredig  
 hau, bwyta, yfed, na wneler hynny e  
 mwyn y Bŷd, neu foddhau'r cnawd : f  
 ddylai fod gennyn y cyfryw barch mawr  
 Dduw, a'r cyfryw ddymuniadau nerthol,  
 a serch gwrefog tu-ag atto ef, fel mai bodd  
 hau, moli a mawrygu Duw, a fyddai ein  
 hamcan pennaf yn ein holl ffordd.

Gristianegion, fe'ch dewiwyd allan o  
 bŷd i fod yn dyltio i Dduw, Os nid ym  
 ddangoswch

ddangoswch chwi tros Dauw, ei anrhydedd  
 ef a'i elw, ni ymddengys neb : *Pawb* (medd  
 yr Apostol sanctaidd) *sy yn ceisio yr ciddyd*  
*eu hunain*, Phil. 2. 21. eithr y mae yn rhaid  
 i chwi ymwadu, a'ch cadw'ch hunain yn  
 isel, oblegid bod hunan-gariad yn llwyr  
 writhwyneb i anrhydedd eich Duw gogo-  
 neddus. Y mae'r annuwolion yn hŷf ac  
 yn lew mewn ffordd pechod, i gynnal i  
 synu hawl Tywyfog y tywyliwch, ac oni  
 syddwch chwi mor fywiog ac mor brysur  
 ar ran eich *Arglwydd*? Y Merthyron a  
 syddent feirw yn hytrach na dianrhydeddu  
 Duw, y rhai yn llosgi gan Zêl i **ogoniant**  
 Duw, a'i gogoneddent ef hŷd yn oed yn  
 y tan. Duw a'ch gogoneddodd chwi, *Esay*.  
 43. 4. Trwy eich gwneuthur yn Frenhin-  
 oedd ac yn Offeiriad, ac 'i grifennu eich hen-  
 wau ym mysg y rhai cyntaf-anedig a'r y  
 sy'n i grifennedig yn y Nefoedd. Y mae  
 genyach chwi le yn ei galon ef, ac enw yn  
 ei dŷ ef, yr ydych chwi yn llestri o barch,  
 ac a gewch eich perchi, *fel y byddech yn*  
*ogoniant ei ras ef*; Eich tad tragicwyddol  
 a'ch nododd chwi, ac a osododdei argraff a'i  
 sel arnoch, ac a osododd wyddor o fywyd  
 ynoch, fel y carech ef, a byw iddo ef. Y  
 gwr a wrthododd gynnal i synu enw ei  
 frawd a fu farw, *Deut.* 25. 9. a boerwyd  
 yn ei wyneb yngwydd y Gynulleidfa.

Eithr

Eithr gwarth a dir myg tragicwyddol a fych  
 ar wynebau y rhai hynny a'r ni safant  
 fynu er mwyn anrhydedd y Duw sanctaid  
 Dan. 12. 2. Gristianogion, y pechod sy  
 dodi 'r dianrhydedd ar Enw Duw, o hech  
 wydd pa achos na oddefwch iddo fod yno  
 Enei  
 eich hunain, a rhagflaenwch ef hŷd ag aym  
 och yn eraill. Prynnwch eich amser,  
 phrynnwch ogoniant Duw, y mae ei  
 dyddiau yn ddrwg, ac nid oes gennych on  
 ychydig ddyddiau i'r gwaith hwn, gwnnewgwn  
 ef, ac fe ymarddel Duw a chwi, ac a'ach  
 derchafa i Deyrnas.

Garedigion yn yr Arglwydd, er ei a my  
 bod yn anghyttuno mewn pethau eraill mae  
 cyttunwch yn hyn i ogoneddu Duw ar  
 ddaiar, fel y galloch yn un-fryd, ac o un gigaet  
 nau ogoneddu Duw, Rhuf. 15. 6. Gân waed bed  
 bob un a'r y sy'n dduwiol gŷd-a Dafydduna  
 sanctaidd, Psalm 34. 3. Mawrygwch Hwn  
 Arglwydd gyd-a mi; a chyd-dderchafn sy  
 enw ef, 1 Cor. 10. 32. Joan 14. Ephes.  
 6. Cynnifer ag ydynt berffaith a syniant by  
 Phil. 3. 15.

2. Trwy ddal gafael ar yr amser presenn  
 neu'r dydd gras sy'n awr, er mwyn sefydlu a'ch  
 sicrhau ein cyflwr tragicwyddol, neu drag  
 wyddoldeb gwynsydedig. Y pethau a berth  
 nant i'ch Eneidiau yw'r rhai mwyaf; ie,  
 yd  
 bwys anfeidrol, a phethau tragicwyddolde

fyddylid edrych attynt oflaen dim arall.  
 an Od ych yn bwriadu gwneud daioni i'ch  
 aid Eneidiau, mae'n rhaid i chwi yn gyntaf  
 sy geisio Teyrnas Dduw, *Matth. 6. 33.* a  
 hechhipio Teyrnas Nefoedd trwy drais,  
 no *Matt. 11. 12.* Ni thal dim i chwi pan fyddoch  
 g aym mron meirw ddywedyd, *Marw a*  
*r, wneuwys o farwolaeth yr union, neu Arglwydd*  
*ei trugarha wrthyf, Numb. 23. 10. Matth.*  
 25. 11. A gwybydd Bechadur, fod yn rhaid  
 ewi gwneuthur y peth yn dy ddydd hwn, bell-  
 aach neu beidiaw, *Luc. 19. 42.* Tra fo  
 drws Gras yn agored, cyn tynnu'r Bont,  
 eidi myned ymaith o drugared, *Esa. 55. 6.*  
 mae'n rhaid gwneuthur hyn.

1. Trwy gyttuno a phrefennol alwedi-  
 n gyaeth yr Efengyl, trwy ymgysylltu yn ddi-  
 aed bed ag Iesu Crist, a thrwy eich rhoddi eich  
 afy hunain i fynu yn liwyr ac yn gwbl iddo ef.  
 Hwn yw'r un peth angenrheidiol hwnnw  
 sy raid ei wneuthur ar frys, dodi eich Enei-  
 diau yn ddiogel a pharottoi iddynt dded-  
 wyddyd tragicwyddol. Ac am hynny na  
 oedwch neu ohirio mo honaw er mwyn y  
 Bŷd, eich gorchwyl mawr chwi ydyw,  
 a'ch cynnorthwya neu a'ch llygra yn dra-  
 gywydd. Yr hwn sydd yn credu a fydd cad-  
 wedig, eithr yr hwn nid yw yn credu a ddamn-  
 wyd eusys, *Joan 3. 18. Joan 8. 24. Joan*  
 12. Oni chroesawch chwi yn awr yr Argl-  
 wydd

wydd Iesu ar ammodau mawrion a gogon  
 neddus yr Efengyl, se'ch demnir cyn sicre  
 a phe baech eufys yn Uffern ym mysg  
 Cythreuliaid, 2 Thes. 1. 8, 9. Heb. 2.  
 18. Chwychwi y fawl sy ag eisiau Crist a  
 noch, a dderbyniwch chwi ef? gan ddyw  
 dyd a'ch Eneidiau, Tyred i mewn ti fel  
 digedig yr Arglwydd, dyre Frenin y go  
 goniant, Psal. 24. 7. Eiddot ti yw'r deyrna  
 cymmer yr Orseddfaingc, eistedd yn  
 Cerbyd pennaf, cymmer i fynu dy letty  
 ein calonau ni yn dragywydd, ac  
 adewch i'r Plentyn marw orwedd yn lle  
 Plentyn byw; a bŷd marw, a thrachwan  
 tau damnedig, ke y dylai eich Arglwyd  
 letteua: O ddŷdd bendigedig ac awr dded  
 wydd, yn yr hon y cyfersydd Etifedd  
 Nef, a Phechaduriaid truein, ac a briodann  
 Dyma gymmar i chwi! a ymwrthodw  
 chwi a phawb eraill, Pechod, y Diafol,  
 Chymdeithion cnawdol, ac ymgyfylltu  
 Thywysog y bywyd? lleferwch y gair,  
 thyna ddiwedd o'r gwaith, agorwch y dda  
 ac efe a ddaw i mewn yn ddiai, ac  
 drig gyd-a chwi yn dragywydd. Yr hy  
 oll a rodde y Tad iddo ef, a ddaw at  
 ef, a'r hwn a ddél ni's bwr' efe allan ddim  
 Joan 6. 37. Danc. 3. 20. Esay. 26. 13. & 4  
 5. 2 Cor. 8. 5. Acts 16. 30.

2. Trwy edifarhau yn ddioed. Hwn yw'r ail waith mawr yn yr hwn y mae 'n rhaid i chwi frysio; Canys hŷd oni wneles hyn, yr ydych mewn perygl bob awr o syrthio i llffern. Cofiwch yr 'Stori dost am y wraig, yr hon, pan oedd ei thy yn llosgi, y llosgwyd ei phlentyn, tra fu hi yn achub peth o'i dodrefn. Bechaduriaid, y mae eich perygl yn fawr, y mae eich amserau cysfaddas yn ehedeg, ehedwch chwithau cyn gynted. Gadewch i mi lefaru wrthych fel y llefarodd yr Angel wrth Lot, Gen. 19. 16, 17. Pan oedd efe mewn perygl o gael ei llosgi, *diango am dy enioes, na saf rhag dy ddifetha.* Ni ellir sicrhau bywyd ac iechydwriaeth eich Eneidiau hēb hyn, *Act. 11. 18. 2 Cor. 7. 10. Luc. 13. 3.* Am hynny ymdrechwch am adnabod Plâ eich calonnau, i Bren. 8. 23. a branerwch i chwi franar, Jer. 4. 3, Hauwch mewn dagrau, ac ewch yngŷd ar gwaith yr awr hon, cyn darfod y dydd heddyw, cyn diweddu'r bregeth hon; rhag y dywedir am danoch chwi, fel y dywedwyd am y wraig honno *Jezebel*, Date. 2. 21. *Mi a roddais iddi amser i edifarhau am ei godineb, ac nid edifarbaodd hi; ac feily i ddigofaint yr Arglywydd ddyfed allan fel tân, a llosgi fel na byddo diffoddydd,* Jer. 4. 4.

3. Trwy wneuthur yn orchwyl mawr i



chwi

chwi siccrhau hawl yng Hrist, ynnill eich eglurder am y Nefoedd yn loyw ac yn eglur. Gristianogion, hŷd oni ynniiloch wylion ac arwyddion cariad Duw i'ch eneidiau, hŷd oni byddoch yn siccr am wirionedd eich ffŷdd, a phurdeb eich edifeirwch, a thrwy hyn o faddeuant pechod, ac o'ch gafael yn yr Arglwydd Iesu, ni ellwch chwi gael ond ychydig ddiddanwch yn eich Eneidiau, neu hysder tu-ag at Dduw. Am hynny gweithiwch allan eich Iechydwriaeth a'ch holl egni, *Phil. 2. 12.* *Gwnewch eich Galwedigaeth a'ch Etholedigaeth yn siccr,* *2 Petr. 1. 10.* Fel y galloch ar fail ddiogel ddywedyd mal y dywedodd yr Eglwys *Galar. 3. 24.* *Tr Arglwydd yw sy rhan i medd sy enaid, am hynny y gobeithiaf ynddo, ti yw ein Tad ni,* *Efay. 63. 16.* Neu fel y dywedodd Job sanctaidd yn ei ddygn gyfludd, *Job 19. 25.* *Myf i a wñ fod sy mbryn-wr y, fyw; eiddo ti ydwyf, cadw fi,* *Psal. 119. 94.* *Tn ddiai dy was di ydwyf fi,* *Psal. 116. 16.* *Fy anwylyd sydd eiddo fi, a minneu yn eiddo fy anwylyd,* *Can. 2. 16.* Gristianogion, fel ellir cyrrhaeddyd y Ffydd ddiogel hon, gweddiwch am dani, a chanlynwch yn lew ar ei hól hi, fel i'ch felier i fynu hŷd ddŷdd prynnedigaeth, fel y trefnir i chwelly fynediad i mewn i dragwyddo Deyrnas ein Harglwydd a'n Hachubwr le

su Ghrist, 2 *Petr.* 1. 10, 11. Ac O mor dda  
 y darfu iddynt hwy byrnnu eu hamser  
 gwerthfawr, y rhai a siccrhaesant eu He-  
 neidiau na byddant feirw yn dragwyd.  
 Gwybyddwch hyn, fod siccrwyd yn gofyn  
 diwydrwydd a dyfal-bar a; am hynny mae'n  
 rhaid i chwi fod yn ddianwadol yn arfer y  
 moddion, a dal gafael ar bob amser cy-  
 faddas ac odfa i fwynhau 'r Efengyl. Hyn y  
 mae ein Harglwydd yn ei ganmol ym *Mat.* 11,  
 gan alw ei gwaith hi yn gwrando'n ddy. Fal  
 ar bregethiad y gair, yn ddevis y rhan-  
 dda, *Luc.* 10. 42. Yno y cewch chwi brofi  
 afonydd Grisia, a gweled mwn-gladd  
 aur Athrawiaeth iachus, a Ffynonnau Ie-  
 chydwriaeth. Dyma le rhyfeddodau Yspryd-  
 dol, lle y mae'r meirw wedi eu cyfodi, y  
 Gwahangleifion wedi eu glanhau, llygaid  
 y Deillion wedi eu hagoryd, a'r Cythreul-  
 iaid wedi eu bwrw allan; Ordinhadau'r  
 Efengyl ydyw'r Rhodfeydd euraid lle mae  
 Brenin y Gogoniant yn rhodio: Y Gwlau  
 yn y rhai yr ennillir eneidiau anfarwol i  
 Dduw, ac yn y rhai y mae'r calonnau dryll-  
 iog yn eisgor hŷd oni Ffurfier Crist yn-  
 ddynt. Trwy'r Pibellau euraid hyn y ty-  
 welltir Dwfr y bywyd ar eneidiau sychedig  
 hiraethlon, er mwyn llonni eu hysprydion.  
 Yma y mae'r Athrawiaeth wedi ei phre-  
 gethu, a geiriau trwy ba rai y byddwch

gadwedig, *Aels* 10. Yma y cafas Mam Crist ef gan mai'r lle ydyw, yn yr hwn y mae'r Priod-fab a'r Brïodas-ferch yn ymgyfarfod ac yn ymhyfrydu yngŷd. Na ymwr thodwch a'r Cynnulleidfaedd arbennig cofiwch beth a gollodd *Thomas* trwy fod yn absennol pan ddaeth Crist. O deuwch a bŷst Pyrth Doethineb, ac a Phiterau gweigion gosodwch eich hunain tan Bistyllau'r Cyssegr. Ar y Dyfroedd hyn y mae'r Angel yn ym symmud, ac Eneidiau a iacheir Hon yw'r ysgol lle y dysgir holl blant Duw gan Dduw, ac a'i hathrawiaethir i Deyrnas Nefoedd.

3. *Trwy wneuthur y goreu o bresennol fodion Grâs, er mwyn cynyddu o honoch yn fu mewn Grâs.* Fel y bo i'r had Mwstard felly fod fyned yn bren mawr, *Mattb.* 13. 32. Fe i'ch gyffelybir trefn Cristion i yrfa, Rhodfa, a Gristoleuni'r boreu. *1 Cor. 9. 24. Ruf. 8. 1.* ac am hynny mae yn rhaid i chwi fyned rhagoch, a bod yn teithio ym mlaen tra fod byw. Fe ddylai'r rhai sy'n credu fod mor chwannog i ras, ag y mae dynion y bŷd i elw; o waith y tal un gronyn o ras fwy m thŷ yn llawn o Aur, ie, y mae'n well m Gemmau. Fe i'ch cyffelybir chwi i sŵr, a byw phrennau Frwythlawn, a blannwyd ar lai afonydd dyfroedd, ac chwi a ddylech ddis- gleirio a llewyrchu yn y nos dywyll hon 4.18 halogrwy.

halogrwydd Uffernol, byw yn ddifrycheu-  
lyd, ac argyhoeddi'r Genhedlaeth wyrog  
drofaus hon. Prennau'r Arglwydd a ddylent  
fod yn llawn sughn, *Ps. 104. 16.* Wedi eu him-  
pio yn y wir Olew-wydden, a than beraidd  
wlith y Nefoedd, chwi a ddylech flodeuo  
ynghynteddoedd yr Arglwydd, a Ffrwytho  
etto yn eich henaint, *Ps. 92. 12, 13, 14.*  
Gristnogion, cedwch eich Lampau 'n llosgi, ac  
ewch rhagoch yn eich Fordd, fel yr elo  
*Dafydd Gras* gryfach gryfach. Na wnewch  
ddim aros, eithr ymdrechwrch am gael a  
chadw'r blaen, fel yr ennilloch y Gamp.  
Fe ofynnir i'r Cawr hwyaf dyfu mewn  
Gras, cyn gyfledd a'r Cor byrraf mewn  
Gras. Fe ddywed rhai am y Crocodil, ei  
fod ein tyfu tra fo byw; a phan beidio a  
Fe thyfu, fe baid a byw. Pa nifer sydd o  
Gristianogion truein yn ymlusgo, y rhai  
braidd y Cadwant Enaid a bywyd ynghyd,  
gan fod yn debyg i'r Drws ar ei golyn,  
*Dihar. 26. 14.* a pha ham, ond o waith eu  
bod wedi dyfod i'w heithaf, a thros ben  
tyfu, cyn gynted ag y tarddant uwch-law'r  
Ddaiar. Lle y bo gwirionedd Gras, yno y  
budd cynnyg am nerth Gras; a lle y mae  
bywyd, yno y mae tyfiad, *1 Petr. 2. 2.*  
*Llwybr y cyflawn* sydd fel y geleuni, yr hwn a  
lewyrcha fwy-fwy hyd ganol-dydd, *Dihar.*  
*4. 18.* Garedigion, codwch a byddwch, ar  
C 3 waith,

waith, cyrchwch at y nôd, *Chwanegmoch at eich Ffydd rinwedd, ac at rinwedd wybodaeth, ac at wybodaeth gymmedrolder, ac at gymmedrolder ammynedd, ac at ammynedd dduw isoldeb*; fel na b'och na segur na diffrwyth yngwybodaeth ein Harglywydd Iesu Christ, 2 Pet. 1. 5, 6, 7, 8. *Am hynny, byddwch siccer, a diymmod, a helaeithion yngwaith yr Arglwydd yr oestadol, 1 Cor. 15. 58. Ac os gwnnewch hyn, nid ysgogir chwi yn dragwydd, Psal. 15. 5.*

4. *Trwy wneuthur pob daioni ag allom i eraill, tra fogenym amser cyfaddas. Am hynny tra'r ydym yn cael amser cyfaddas, gwnawn dda i bawb, Gal. 6. 10. Wrth hyn yr ydym yn canlyn y nod hwnnw o ddaioni Duw, Psal. 119. 68. Da ydwyt, a daionw. Boddhaed pob un o honom ei gymmydog, yn yr hyn sy dda iddo er adeiladaeth, Rh. 15. 2. Y pedair ffordd hon y mae'n rhaid ini wneuthur daioni i eraill.*

Yn gyntaf, Mae'n rhaid i chwi wneuthur hyn yn enwedig yn eich Teuluoedd, i'r fawd ydynt yn fwy digyfrwng tan eich gofal, ac am y rhai y bydd yn rhaid i chwi roi cyfrif ar fylder i Farnwr ofnadwy y byw a'r meirw. Os daeth Crist i'ch calonnau, gosodwch grefydd i fynu yn eich tai yn ddi-oed. Os ydych yn wir rasol, byddwch yn dda i bawb, gan geisio lleffad llaweroedd fel

fel y byddoedd chwi gadwedig, *I Cor. 10. 33.*  
 Garedigion, os mynnwch beidio bod yn eu-  
 og o waed eneidiau, a llofruddiaeth eneid-  
 iau, bwriedwch, osod i fynu addoliad Duw  
 yn eich Teuluoedd, a rhodded gwaith Teu-  
 luaidd le ac ymostynged i addoliad Teulu-  
 aid. Gwnewch eich goreu er dysgu eich  
 Plant a'ch Gwasanaeth-ddynion i adnabod,  
 ufuddhau a gwasanaethu 'r Arglwydd,  
 yr hwn sy wobrwywr i'r rhai a i ceisiant ef  
 yn ddyfal. Os Plant *Abraham* ffyddlon  
 ydych, gwnewch fel y gwnaeth yntef, a  
 rhodiwch yn ei Iwybrau ef, *Joan 8. 39.* Y  
 Duw sanctaidd chwiliwr y calonnau, a  
 Dystiolaethodd am *Abraham*, *Gen. 18. 19.*  
*Mi a'i hadwaen ef, y gorchymwyn efe i'w*  
*blant, ac i'w dylwyth ar ei ol, gadw o honyn*  
*florudd yr Arglwydd.* Ymddiried mawr yw  
 cael gofal a gorchymwyn Eneidiau; o  
 herwydd pa ham na adewch i'ch plant a'ch  
 gwasanaeth-ddynion syw fel y mynnont,  
 eithr gorchymwynwch iddynt ymadael a  
 ffodd pechod, yr rhai a'i dygant yn ddiama'i  
 i llffern. Ona chymmerai Rhieni a Phennau  
 teuluoedd i fynu fwriad Joshua sanctaidd,  
*Jos. 24, 15.* *Ond mysi, mi a'm tylwyth a wa-*  
*sanaethwn yr Arglwydd.* Eithr yn y gwrthwy-  
 neb, fe dybygid fod llaweroedd, mal pe  
 baent wedi gyrru Duw a'r ymarfer o  
 Dduwioldeb ymaith o'u tai; mal pe bai

Rhieni a Phlant, Meistriaid a Gwasanaeth-  
ddynion yn bwriadu gwasanaethu'r Diafol  
a myn'd i Uffern. *Ioan* 8. 44. Esgelus  
dyledswyddau teuluaid sy bechod o snadyw  
a gwaeddfawr, a'r hwn (fel y dywedodd  
Gweinidog Duwiol) a ddidoa 'r tŷ, ac a  
bair i Dduw lawio melldithion ar y Ford.  
Darllenwch a chrynnwch rhag ofn rhêg a  
meildith y prophwyd, *Jer.* 10. 25. *Tymallt*  
*dy lid ar y Cenhedloedd y rhai ni' th adnabuam*,  
*ac ar y teuluoedd ni alwasant ar dy enw.* P.  
fawl un o Wŷr hêb weddio sy'n rhoi ach.  
lysur i'w Gwragedd ddywedyd wrthynt  
fel y dywedodd *Sephora wrth ei Gŵr*, *Exod.*  
4. 25. *Tr wyt ti yn briod gwaedlyd i mi.*  
Eich Gwragedd, eich Plant, a'ch Gwasan-  
aethdynion, a gwynant hynny yn dôst, ac  
a waeddant, naill ai yn fyw neu yn feirw.  
O na fuasem ni erioed hêb briodi 'r cyfryw  
wŷr, ein geni o'r cyfryw Rieni, ein rhwymo  
i'r cyfryw Feistriaid, nad oeddynt yn edrych  
am wasanaethu Duw, nac yn gofalu am  
Eneidiau. Os Cristianogion mewn gwir-  
ionedd ydych, cadwer i fynu yn eich tai  
drefn waithadol o ddarllen y Gair, Catechi-  
fo a Gweddio; canys pan wnelo Angau  
ysgar rhyn goch chwi a'ch Ceraint, fe fydd  
yn ddrwg gan eich calonnau, na ddarfu i  
chwi wneuthur dim yn rhagor i gynnorth-  
wyo daioni eu heneidiau gwerthfawr, *Acti-*  
*10. 2, 30.*

Yn ail, Trwy gymmeryd pob aghlyfur, pa le bynnag y b'och, neu y deloch; i gynnorthwyo troedigaeth pechaduriaid colledig. Os profafoch fod yr Arglwydd yn dirion, ac iddo 'ch dwyn allan o'r Pair haisarn, fel pentewynion o'r gynneudan, pa le, pa le y mae 'ch tosturi a'ch trugaredd tu-ag at Eneidiau mewn enbydrwydd? A fedrwch chwi ymfcdloni bod yn dedwydd, *Jude 22.* a myn'd i'r Nef, yn vniig, a pheidio gwneuthur eich goreu tryw eich gweddiau, eich cynghorion a'ch Esamplau, er perswadio a thynnu eraill i'r ffordd sy'n arwain i'r Nef? Y mae dynion drwg yn brysur tros y Cythraul, y ihai fel malwod, ydynt yn gadael eu llŷs ar eu hol, pa le bynnag y delont, ac ydynt yn arloes gwenwyn pechod, y naill i'r llall, ac felly yn cynnorthwyo eu damnedigaeth. Pa liaws a welwch chwi yn ymdrybaeddu yn eu gwaed, ac yn prysfuro am y cyntaf i Uffern, cyflwr diobaith a gresynus y cyfryw rai a ddylai eich cyffroi chwi i dosiurio, a pheri i chwi lesaru gair mewn pryd er Iechydwr iaeth iddynt. Eich Arglwydd anwyl, yr hwn a ddylech chwi ei ganlyn, a gerddodd o emrych, gan wneuthur daioni, *Acts 10. 38.* Efe a wnaeth y goreu o'i amser i droi pechadures nodedig; (*Joan 4*) er ei fod e'n ddeffygiol ac yn fychedig, ni ofalodd am

gael y bwyd, o waith fod yn well ganddo  
 gael yr odfa i ddwŷn ei henaid allan o rwyd  
 Satan, a'i hachub hi. Pan alloch, wrth  
 eich byrddau, neu wrth brynnu a gwerthu,  
 neu deithio, gael achlysur i son am Dduw,  
 a phethau a berthynant i Dduw, a gadel  
 pêth dwysbigiad ar y Cwmpeini. gwnewch  
 hynny. Mal hyn *Philip* gan gwympo i mewn  
 at yr Eunuch tra yr oedd 'e'n marchogaeth  
 ar ei ffordd tu ag adref o *Jerusalem*, a  
 nessaodd atto, ac a fu yn Offeryn i achub  
 Enaid yr hwn na welodd efe mo hono er-  
 ioed o'r blaen, *Acts* 8. A thrwy'r yma-  
 drodd nefol a ddiferodd o enau Mr. *Carter*,  
 Bugail *Brainford* yn *Suffolk*, y trowyd  
 Gwraig-fonheddig tra yr oedd hi yn  
 disgwyl arno yn ei Staffell yn twymno ei  
 Wely ef. Gair wedi ei lefaru mewn am-  
 fer, a ddichon trwy fendith Dduw gadw  
 Enaid; a'n dyled ni yw cynnyg hynny.  
 Mr. *Ignatius Jordan* o *Exeter*, oedd dda  
 rnyfeddol y ffordd hon; yr hwn a ai o Dŷ  
 i Dŷ i ddwŷn ar gôf i'w gymmydogion y  
 pethau a berthynent i'w heneidiau. Nid  
 oedd oñi nachywilydd ar *Dda ydd sanctaidd*  
 lefaru am Dduw o flaen Brenhinoedd, *Psal.*  
 119. 46. a mynegi yr hyn a wnaeth Duw  
 i'w enaid ef, *Psal.* 66. 16. ac, eb-  
 efe, *Dysgaf dy ffyrdd i rai anmir*, a phecha-  
 dnriaid

duriaid a droir attat, Psal. 51. 13. Canys bydd i'r hwn a drodd bechadur oddiwrth gyfeiliorni ei ffordd, gadw enaid rhag angau, a chuddio lliaws o bechodau, Jago 5. 20. Pan fo'ch Cymmydogion un amser yn gleifion, a than law Dduw, cymmerwch yr achlysur honno i ymweled a hwynt, i ddŵyn Angau a Barn ar gôf iddynt, a pheri iddynt ddeall angenrheidrwydd Ffŷdd ac Edifeirwch, hêb y rhai ni all bod dim gobaith am y Nefoedd. Y mae'n Ddiha-reb gan rai, ddywedyd, *Fod yn rhaid taro'r baichern tra fo'n dwymn.* Ar eu claf-wlau, pan fo Angau'n edrych yn gethin yn wynebau dynion, fe dybygid eu bod yn ddifrifol, ac yn gymmwys i dderbyn argraff Cyngor ffyddion i'w heneidiau. At yr-hwn cyffyltwch weddi brudd; canys *gweiddi'r Ffŷdd*, (medd yr Apostol) a iachâ'r claf, Jago 5. 15. ac a ddichon iachau'r enaid.

Yn drydydd, Trwy annog a chalonni *ein Cyd-frodyr* yn y ffordd i'r Nefoedd. Mae'n rhaid i ni gynghori *ein gilydd bob dŷdd*, tra y gelmir hi *heddym*, Heb. 3. 13. At ymennog bawb ei gilydd i gariad a gweithredoedd da; a hynny yn fwy, o gymaint a'n bod yn gweled y dŷdd yn nessau, Heb. 10. 24, 25. Y mae gan ddynion drwg a Phlant y Fall eu tyred gyd-a ni; ac ydynt yn ymennog bawb ei gilydd yn y ffordd i Uffern; ac oni ddylai.

Saint

Saint adciladu eu gilydd yn eu fan teiddiafant, ffydd, Ruf. 14. 19. 15. 2. Ephes. 4. 29. 1 Cor. 14. 25. Jude 20. Y rhai oedd yn ofni 'r i o m Arglwydd alefarasant bob un wrth ei gymmy. o wa dog, Mal. 3. 16. Cristianogion a ddylent se a dreulio 'r amser hwnnw mewn ymddiddan y by ion difrifol a buddiol, a'r y mae eraill yn Ni a dreulio ac yn ei ei wastraffu mewn ymddi. Yr A ddanion ofer a llygredig. Dywedwch gyd Mat a'r gŵr oedd wrth fod calon Duw ei hun wrth Dwrch, gwrandewch, yrhai oll a ofnwch Dduw; holl a mynegaf yr hyn a wnaeth efe i m henaid, 25. 1 Psal. 66. 16. Yr hyn a welsoch ac a glyw- foch, sy raid i chwi fynegi i'w gilydd, deb i Joan 1. 3. Byddwch wrth hyn yn cyn- northwyo eich gilydd ymlaen tua'r Nef- oedd, ac yn diddanu y naill y llall trwy y diddanwch a'r hwn i'n diddenir ni ein hu- nain gan Dduw, 1 Cor. 1. 4. Dithen pan i'ch droer, cadarnha dy frod yr, Luc. 22. 32

Yn 4. Mae'n rhaid i ni wneuthur dai- oni i eraill, trwy gyfrannu i'w diffygion hwynt a'u hangenrheidiau oddiellan, ac wrth wneuthur hyn, dryffori i ni dryfforau yn y Nef, cyn y pallo ein tryfforau ar y ddaiar, a cholli o honom y ddau, Matth. 6. 20. 19. 21. Hyn yw anrhydeddu yr Arglwydd a'ch cyfoeth, Dihar. 3. 9. Hyn yw gwneuthur cyfeillion o'r Mamon anghyflawn, a gwneuthur i chwi byrsau, y rhai ni beneidd- iaun,

diuant, a thryffor yn y Nefoedd, yr hwa ni  
 Cor. 3. 16. 9. 12. 33. Nid oes anghof-  
 i'r mo'r ddyledswydd hon, (Heb. 13. 16.)  
 my. o waith mai hau had yw hi, 2 Cor. 9. 6. ac  
 entfe a dýf, ac a ddŵg grop neu gynhauaf yn  
 an-y byd hwn neu'r byd arall, Preg. 11. 1, 6.  
 y. Ni anghofia Duw nio honaw, Heb. 6. 10.  
 ldi. Yr Arglwydd Iesu a'i gwobrwyd yn sicr,  
 gyd Matth. 25. 40. *Da, was da a ffyddlon, oddi-*  
 wrth Grist ar ol hyn, a dal y pwyth am  
 holl waith gweithred-wyr da yma, Matth.  
 25. 21.

5. Trwy ymdrechu am gadw i synu gymmun-  
 deb dianwadal â Duw ym mhob dyledswyddau  
 yn sanctaidd. Gristianogion, chwi ellwch golli  
 amser hŷd yn oed yngwafanaeth Duw, oni  
 byddwch yn ofalus ynddo i ymddiddan ag  
 ef. Gochelwch yspryd ysgafn mewn gorch-  
 wylion pruddaidd. Y mae Duw yn edrych  
 ar y galon, ac yno fwyaf. Y mae rhyw  
 ymbarottoad difrifol yn angenrheidiol cyn  
 nessau o honoch i âwydd y Duw goruwch-  
 afa sancteiddiol. Joseph a'i heilliodd ei hun  
 cyn dyfod o honaw i âwydd Pharao. Gen. 41.  
 14. Aed eich eneidiau nefol-anedig ym  
 mhob dyledswydd, gýd-a'r Ddyweddi glaf  
 o gariad, allan i gyfarfod a'ch Arglwydd;  
 ac nac ynhoffwch mewn dim arall. Nid  
 Delw'r gŵr, ond prefennoldeb y gŵr, a  
 fodlona'r wîr-ferchog Ddyweddi hiraeth-  
 llop.

lon. Golwg wynfydedig yw gweledeneirw v  
 iau yn tynnu tu ag at Dduw, yn dylg Bw  
 gën ac yn hiraethu am yr Arglwydd Iesu arc  
 Grist, *Psalm 42. 1, 2.* O ymdrechwch a gogo  
 gael y fath agwedd o galon, ac achwynw Duw  
 rhag y spryd cyfng a chûl. Na chyflawnw a fyd  
 ddylediwyddau er mwyn Dyledswyddau hyn  
 felly i wneuthur Dyledswyddau yn Ddibach  
 dyledswyddau: ond megis y cyfrwng trwy y bu  
 hwn y gall eich eneidiau nessau at Dduw Hany  
 a chyfarfod ag ef. Wyneb-pryd a phrif 6.  
 fennoldeb Duw mewn dyledswydd, y iuth  
 gwir feusydd pentrefol Gogoniant, ie, gw i Dd  
 borth y Nefoedd, *Gen. 28. 17.* Bydd yw  
 hyn yn eich meddyliau, ac yn wir fwriad cany  
 eich calonnau, a disgwiliwch ef yn da at D  
 bob gwaith ag y neffaoch at Dduw. Glymthau  
 eich eneidian wrth Dduw a dywedwch, Vac y  
 peth a ddeisyfias i gan yr Arglwydd, hym chyl  
 a geisiaf; sef caffael trigo yn nhŷ'r Arglwyd Rhuf  
 holl ddyddian fy mywyd, *Psal. 63. 8. 27.* ac ac  
 84. 2. Nid yw Dyledswyddau ond y Cyfed;  
 tedd neffaf allan yn unig, ond rhith, plisgy wran  
 a chelain Crefydd; megis Pibellau he Mic.  
 Ddwfr, Bronnau heb laeth, Hwylau he Ani  
 Wynt, neu Gorff heb Enaid, nad oes dim y C  
 bywyd ynddo. Ymae cynydd eich Gras a' ddy  
 fansteiddrwydd yn ymddibynnau ar eis Aar  
 cydnabyddiaeth a'ch cymmundebe a Duw ffrw  
 Gras. Bod *Moses* ar y mynydd a barod Yn

eneirw wyneb ddisgleirio ; a bod y Brenin ar  
dylg Bwrdd a barodd i *Nardus yr Eglwys* roi  
d i arogl, *Can. 1. 12.* Prefennoldeb y Duw  
ch a gogoneddus ar y Sabbath, prefennoldeb  
Duw mewn Gwedi, neu yn y Sacrament,  
a fydd i'ch Eneidiau fel mer a brasder, a'r  
ddi hyn a bair i'ch dwylo ddiferu gan Fyrrh,  
dib a'ch byfseidd gan Fyrrh yn diferu. Mal hyn  
rwg y bu ar y Ddyweddi, pan eftynnodd ei  
Hanwylyd ei law drwy'r twll, *Can. 5. 4, 5.*  
6. *Trwy wneuthur y goreu o bob Rhaglun-*  
*gwaith, bob diddanwcb, bob Croes er Gogoniant*  
*Dduw, a llef sad ysprydol i ni 'n hunain.* Nid  
yw Duw yn gwneuthur dim yn ofer ;  
canys y mae fe'n edrych yn neilltuol tu-ag  
dusat Ddaioni ei Bobl yn ei holl Oruchwiliae-  
lymthau : Y mae efe yn amseru, ac yn mesur ;  
vac yn trefnu pob Rhagluniaeth dywyll a  
chytuddiol er llef sad i'w Eglwys, *Jer. 24. 5.*  
*Rhuf. 8. 24. Heb. 12. 11, 12.* Y mae cerydd  
ac addysg Duw yn gyffredin yn cydgerdd-  
ed ; o herwydd hynny y mae'n rhaid i ni  
wrando y Wialen, a Phwy a'i hordeiniodd,  
*Mic. 6. 9.* Y mae lleferydd gan y Wialen ;  
Anifeiliaid a allant glywed y Wialen, ond  
y Credadyn sy'n gwrando y Wialen. Fe  
ddylai Gwialen Duw beri i ni fel Gwialen  
eic *Aaron*, flaguro, flodeuo, a dwyn heddychol  
ffrwyth Cyflawnder, *Numb. 17. 8. Heb. 9. 4.*  
In awr o's mynnwch chwi fod yn well trwy  
gyfuddiau,

gystuddiau, gwnewch eich goreu er gwne  
thur tri phêth.

1. Deall amcan neu seddwl Duw y cof y  
ddynt, am ba bechodau a wnae: hpwyd, ne y  
Ddyledswyddau a esgeuluswyd, yr anfon yn G  
wyd hwynt: Cennadau Duw yw cytuddiau jo yr  
ac ni ddylem ni bŷth fod yn llonydd ne fawr  
gwypom eu neges, *Job* 10. 2.

2. Canfod llaw Dduw yn yr holl Gyfudd  
iau hynny. Felly y-gwnaeth *Dafydd*, *Psal*  
39. 10. A *Job* dduwiol, *Job* 1. 21. *Hof*. 6.

3. Ymdrechu am ateb dibennion Du  
yn eich caledi a'ch trallodion, fel i'ch gwne  
ler yn oſt yngeliddiach, yn sancteiddiach, a  
yn nefolach nag o'r blaen: fel y canfyddom  
ac y deallom, mai da oedd ini gael ein cy  
studdio. Y mae gennym gymmaint rhesw  
i fyn'd at Dduw i geisio bendith ar ein Gw  
alen feunyddiol, ac ar ein Bara beunyddio

7. Mae'n rhaid prynnu'r *Amser trwy fyr*  
i fynu eich cyfrifon beunydd, ac felly gwne  
thur union gyfrif a Duw, a pheidio myn'd ym  
mhellach yn ei ddyled ef. Hyn a fydd  
ffordd i gael cydnabyddiaeth, i ynnil madd  
euant, cyn eich galw a pheri i chwi ro  
cyfrif. Dyledswyddau dirgel, os gwne  
hwy 'n dda, yw'r dyledswyddau melysaf  
ac etto a esgeuluswyd yn dost gan y Sain  
eu hunain, Chwi a ddylech ymneilltuo bo  
nos, a threulio ychydig amler mewn bu

nan-ymholiad ; a phan eisteddoch yn unig, ymddiddenwch a'ch calonnau, a gelwch i'ch ymofnwyd y pethau a aeth heibio ac a'wnaethoch yn Gen. 24. 63. I Isaac fyned allan i fyfyr-iau ym mlyn yr hŵyr ; Dyledswydd werth-fawr, ond a arferir yn anfynych. Cristia-nogion a ddylent, dreulio cymaint ag allont hepcor o'u hamser mewn gweddiau byrion a myfyrdod sanctaidd. Ac O mor anhawdd yw esgyn i'r Mynydd hwn o Fy-fyrdod Nefol ! Y mae'n hawdd iawn ac yn hyfryd gennym feddwl am y bŷd, Mwyn-h, a fiant Pechod, Cyfeillion, Golud, a thrybestod bydol ; Eithr myfyrio ar Dduw, y Nefoedd, Tragywyddoldeb, annigonolrwydd ac ofredd y Creadur, chwerwder Pechod, sicr-wydd Marwolaeth a Barn, (gwir ymysga-roedd Crefydd) sydd anhawdd iawn. Cyn gorwedd o honoch yn eich gwylau y nos, gelwch eich hunain i gyfrif trwy'r fath gwestiwnau a'r rhai'n.

1. Mi fum byw lawer o flynyddoedd yn y bŷd ; Beth a wneuthum i yn fy holl ddydiau ? A attebais i ddiben sy mod yma ?
2. A fu arnaf sanctaidd arswyd Duw ynghanol sy ngorchwylion bydol y dydd hwn ? Pa feddyliau a fu gennyf am Farwolaeth a Barn ? Pa le y bu fy nghalon i ?
3. Pa fodd y cyflawnais i ddyledswyddau

y dydd heddyw? Pa rai oedd Pechodau  
dýdd heddyw, trugareddau'r dýdd heddyw  
fel y gallwyf ofyn nawdd am y naill, a be-  
dithio Duw am y llall?

4. Pa Gynnorthwy a Chymmundebyn  
gefais i a Duw'r Dýdd hwn, yn nyledsw  
ddau ei addoliad ef? Oni bu Duw a'm  
naid i yn ddieithr i'w gilydd y dýdd hed-  
yw, a llawer o Ddyddiau ynghyd?

5. Beth a wneuthum neu a leferais i  
Dduw a'i ogoniant y dýdd heddyw  
mysg fy Nheulu, neu'n rhyw le arall?  
ymddygais i megis Plentyn i Dduw y dýdd  
Heddyw? Hyn yw gwneuthur Crefydd  
yn orchwyl i ni, neu rodio yn ofn yr Arwydd  
trwy'r Dýdd.

8. Gwnewch y goreu o'ch hamser trwy  
drecbu am dresnu gwaith pob diwrnod fel  
perthynai i'ch dydd diwedaaf. Diben  
dyledswydd, a'r rhefwm mawr am brynnu  
Amser sy'n tefyll yn hyn, sef, fel y bydd  
cyminwys i farw a sefyll ger bron Du  
Am hynny y mae'n rhaid i ni ogoneddu  
Duv fanctaidd anfeidrol, a'i wneuthur  
Gyfaill ini. O achos hyn y mae'n rhaid  
ni sicrhau ein heneidiau, a myned ar  
at Iesu Ghrif, a thyfu mewn Gras, gwne-  
thur daioni i eraill, ein galw ein hunain  
gyfrif, ac eglurhau ein Titl i'r Nefoed  
fel y bo'n holl waith wedi ei orphen tra  
hū

i'n ddydd, ac na bo dim yn ol heb ei  
neuthur, galwed Angau pan y mynno.

IV. Pa ham y mae'n rhaid prynnu? Amser?

Y Rhesymmau pa ham y mae'n rhaid i ni  
brynnu ein hamser gwerthfawr, ydynt,

1. Oblegid y dyddiau sy ddrwg.

2. O waith mai rhan i'w hystyried ydyw  
o'n doethineb Cristianogol.

Rheswm 1. Oblegid y Dyddiau sy ddrwg.

Dyma Reswm yr Apostol i gadarnhau 'r  
ddyledswydd. Y mae Amser gwerthfawr a  
Dyddiau drwg yn cydreddeg; am hynny  
mae'n rhaid peidio colli un rhan o amser  
Abychan. Mi egluraf hyn i chwi mewn  
ychedig o bethau yn neilltuol.

1. Y mae Efran gau Athrawiaeth, neu  
Opiniwnau Cythreulig, Cablaidd a Damnedig  
yn amlhau. Pa fodd y mae Gweision y Dia-  
sol yn ceisio tynnu ymaith a dadseilio hŷd  
yn oed Seiliau a Gwyddorion y Ffŷdd  
Gristianogol? Yr hen Heresiau damnedig  
hynny a gondemnwyd ac a ddiwreiddiwyd  
gynt allan o Eglwys Dduw, ydys yn eu der-  
byn yn awyddus ac yn eu llyngcu i wared  
gan fwy nag ychedig, 2 Tim. 3. 1. & 4. 3.

2 Pet. 1. 12. Chwychwi gan hynny; anwylyd,  
a chwi yn gwybod y pethau hyn o'r blaen,  
ymgedwch rhag eich arwain ymaith trwy  
amrysfusedd yr annwylol, a chwympo o honoch  
oddiwrth

oddiwrth eich sicerydd eich hun, 2 Petr. 17. 2 Tim. 1. 13.

2. Bucheddau diras dynion a'u pechoda  
aruthbraf sy'n gwneuthur y dyddian yn ddi-  
yn eostad. Pa ffieidd-dra melldigedig yd-  
yn ei wneuthur ar orsedd y bŷd drygiom-  
hwn ! Y mae anwiredd yn amlhau, drygi-  
mewn braint a bri, a Chrefydd tan anglo-  
Y mae llawer yn cassau grym Duwiold-  
Ond nid oes arnynt gywilydd wisgo L-  
frau'r Diafol. Oni allwn ni achwyn gŷ-  
a'r prophwyd, a dywedyd, megis y d-  
wedodd, Hos. 4. 1, 2, 3. Nid oes gwirionea-  
na thrugaredd, na gwybodaeth o Dduw yn  
wlad : trwy dyngu, a dywedyd celwydd,  
lladd celain, a lladratta, a thorri priodas,  
maent yn torri allan, a gwaed yn cyffwrdd  
gwaed, am hynny y galara y wlad. Ac me-  
gis y dywedodd, Esay. 39. 12. 15. Can-  
amlhaodd ein camweddau ger dy fron, a th-  
siolaethodd ein pechodaun i'n herblyn ; a gwa-  
ionedd sydd yn pallu, a'r hwn sydd yn cil-  
oddiwrth ddrygioni, a'i gwna ei hun yn y  
pail. Ac Amos 5. 10, 12, 13. Cas ganddy-  
a geryddo yn y port, — amser drwg yn.

3. Y mae llawer yn wrthnyfig, ac y  
ymadael a'r ffydd. Pa fodd y cwympod-  
y Cedyrn ? Y mae hyn megis dryg-hain  
yn ymdanu ar hŷd y wlad, Matth. 24. 12.  
O herwydd yr amlha anwiredd, fe cera caria-  
llawer

llawer, Jer. 2. 12, 13. 2 Tim. 1. 15. Datc.

2. 4. 4. Ond yw Duw yn cychio, ac yn bygwth  
symmud ein Canhwyllbren, a'n gadel mewn  
ydywyllwch? *Datc. 2. 5. Amos 8. 9, 10, 11.*  
5. Pa fodd y mae Tylwyth Duw, a Chy-  
feillion Crist, wedi eu rhannu, a'u hail-  
glo rannu oddiwrth eu gilydd? *Moab ac Am-*  
*mon, Herod a Philat*, a fedrant uno yn er-  
byn Crist a'i hawl, pan yw praidd bychan  
Crist yn sefyll o hirbell i'w gilydd, i *Cor.*  
3. 3, 4. A phan yw pethau yn digwydd fel  
yn y mae'r dyddiau yn ddrwg, ac y mae  
arnom eisiau prynnu ein hamser.

Rheswm 2. *Prynnu'r Amser a'n gwna nîn*  
*mir ddoethion. Gwelwch pa fodd y rhodioch yn*  
*ddiesceulus; nid fel annoethion, ond fel doe-*  
*bion; Gan brynnu'r Amser, Ephes. 5. 15, 16.*  
Calon y Doeth (medd *Salomon Preg. 8. 5.*)  
edwŷn amser, a barn. Gweithio tra yw  
ni yn ddŷdd, a gwneuthur llawer o waith  
mewn ychydig o amser, a genmyl ddoe-  
thineb y fawl a'i gwnelo. Pa ddysg bynnag,  
Braint a doniau a fo gan Ddynion, nid ydynt  
yn ddoethion, oni phrynnant yr Amser.  
Gwŷr *Issachar* oeddynt mewn pareh mawr  
gyd-a *Dafydd*, o waith y medrent ddeall yr  
amseroedd i wybod beth a ddylai *Israel ei*  
neuthur, i *Chron. 12. 32.* Y mae'r Duw  
twbl-ddoeth, yn llaw 'r hwn y mae ein  
hamserau,

hamserau, yn achwyn fod yr Iuddewo'r Ll  
yn ynsydion, heb gadw'r amser, *Jer. 8. 8.* ac felly y mae ein Harglwydd Iesu  
achwyn ar y Pharisaeid, *Matt. 16. 2, 3.* Angred  
hynny fe elwir prynnu'r Amser yn rhod yn d  
mewn doethineb, fel y mae'r Apostol yn a  
amlygu, *Col. 4. 5.*

### R CYMHWYSIAD.

**D**efnydd. I. **Y**N gyntaf, Os rhaid prynnu  
amser, ni a allwn farm  
mai diai yna fod tragedywyddoldeb. Bydd  
i holl Wastraffwyr ainsfer fwrw am hynny  
Y mae mor siccr a dim ag fy'n y býd hwn  
fod býd arall. Chwi ellwch anturio eisoes  
bywyd, eich Eneidiau a'r cwbl ar wirioned  
hynny. Pa ham y gwafgai'r gwynfyded  
Apostol *Paul* mor galed ar y rhai oedd yn  
yn credu am brynnu'r Amser, ond er  
eu llwyddiant tragedywyddol ? Bydd  
siccr o hyn, a chredwch y pêth mor ddiog  
a phe bai'r ddu Dragywyddoldeb yn  
yn ymgynnyrcholi o flaen eich llyga  
corporol, a chwithau'n gweled y Cythred  
iaid a'r Gwrthodedigion yn eu Cadwyn  
Twyllwch, ac yn eu clywed yn llefain  
yn yfgrechain yn y flaminau tan tragedy  
ddol hynny : ac hefyd yn gweled *Abraham*  
*Isaac a Jacob*, a'r holl Sainct a ymadawfa

ewyr bŷd hwn, ar yr Orseddfaingc, yn canu  
 8. Can Moses a'r Oen. Dyma 'r pêth y mae'r  
 su y boreu a'r gwaethaf o ddynion naill ai'n ei  
 . A gredu neu'n ei ofni. O na bai iddo weithio  
 hawd yn ddwys ac yn barhaus ar eich calonnau  
 yn chwi oll!

2. Rhagorfraint werthfawr iawn yw od-  
 fa Amser. Cael awel o amser cyfaddas i'n  
 Trosglwyddo ni i Ogoniant, neu'r sflag  
 wen ar y pared, yn ein gwahodd ni at  
 ynni eingwaith, i geisio allan i ni nawdd cyn ei  
 arni myned hi yn rhy hwyr. Tryffor cyfoethog  
 yw Amser nas gellir ei  
 ynni brifio, ac etto Tryffor dar-  
 hwyr fodedig ydyw. Y mae am-  
 eisfer (Rhedegwr Duw) yn

*Punctum est quod  
12. *Psal. 39. 4.* Cyfrif y bobl oedd pechod *Dafydd*, eithr cyfrif ei ddyddiau oedd Ddyledswydd. Y mae yn bêth cyffredin gan ddynion rifo eu Defaid, eu Da, eu Tai eu Tiroedd, eu Masnach a'u Harian, ond rhiso ein Dyddiau sy fath o rif ddieithr am esgeulufo hyn pa faint sy'n ol o gyfrifon rhyngom ni a phen Meistr ein hamser i Ghristianogion, rhennwch eich amser yn rhannau, ac vstyriwch pa leied y mae Duw yn ei gael, pa faint o amser a dreuliwyd y eich Mebyd a'ch Mabolaeth, cyn y gwydded beth oedd rhefwin; pa faint ym yn ei dreulio yn ein Galwedigaethau a'n Gorchwylion ynghylch y býd? Pa faint wrth fwytt ac yfed, ac mewn ymddiddanion anfuddiol? Heb-law hyn ei gýd, yr ydys yn creulio hanner ein hamser neu ragor wrth gyfagu. Felly fel nad ym yn treulio ond ychydig iawn o honaw, yngwafanaeth Duw a gwaith a berthyn i'n heneidiau anfarwol: Am hynny y mae hi'n fwy na phrýd i ni a brynnu ef.

Hyfforddiad 5. *Cynbeliwr ofn sanctaids yn oesf ad ar eich calonnau rhag dyfod o honon i ddiwedd yr Amser*, cyn gorphen eich gwair. Byddwch fyw bob amser trwy ddisgwch eich newidiad mawr. *Prynnwch, gwerthwch ymddiddenwch, darlennwch, gwediwrch gwrandewch a gwnewch y cwbl fel rhai y*

*meini*

meirw, ac yn myned i dderbyn taledig-  
aeth llawenydd neu wae anorphennol. Ghri-  
ffianogion, os mynnwch weithio tra yw  
hi'n ddydd; os mynnwch ogoneddu Duw  
ary ddaiar; os mynnwch sicrhau a chadw'n  
dragwyddol eich Eneidiau anfarwol; os  
mynnwch sefyll yn gysurus ger bron yr  
Arglwydd Iesu, wrth ei orseddfaingc ofna-  
dwy ef; os ni fynnwch fod yn ysglyfaeth i  
Dywyfog y tywyilwch; os ni fynnwch  
dreulio eich dyddiau heb obair: Cyfodwch  
am hynny, a gwnewch eich gwaith, a'r  
Arglwydd a fo gyd-a chwi.

---

## Yr ail Traethawd ynghylch ystyried ein Diwedd.

---

Deut. 32. 29.

Ob na baent ddoethion, na ddeallent byn, nad  
yfyrrient eu diwedd!

**M**ae'n weddus i ni bob amser daro ar  
y cyfryw Destunau a'n hyfforddiant  
ison am Fyd arall, yn enwedig yn amser  
Clefydion mawrion, Heintiau a Marwoldeb,  
pan yw miloedd o Eneidiau ddŷdd a nos  
yn

yn myned yn lluoedd i Dragwyddoldeb 2.  
 fel yr oeddynt yn myned gynt o'r Pieu h  
 echryslon a fu yn *Llundaun* yn y flwyddys, 6.  
 1665. O herwydd pa achos fe ddarfu i m  
 ddewis y Testun difrifol a chalon-ddeffron  
 hwn, fel y gellid deffroi Eneidiau cyfngadu Er bo  
 a diofal i feddwl yn ddwys am y Bŷd nodos  
 ddaw. Yr holl Bennod hon a elwir *Cadafas*  
*Moses*, ei Gan-Alarch ef, neu y Gan tiddi  
 flaen ei farwolaeth ef, y geiriau a lefarod iaid,  
 y Gwas rhagorol hwnnw a ffyddlon i Ddu hyn y  
 wrth farw; ac os yw'r geiriau a lefar 1.  
 Gŵr wrth farw i ddal sylw arnynt, pa fannid o  
 mwy geiriau *Moses* wrth farw? Y *Mose* 2.  
 hwn pan oedd efe'n barod i fyned i'r Bŷd horol  
 arall, a gyfansoddodd y Gan odidog hon dim  
 o'r hon y mae'r Testun yn rhan; ac y maeant,  
 geiriau un a fo'n marw yn bwylwg, ac ydoda  
 barottaf i weithio arnom ni.

Mae y Gan hon mewn rhan yn Adroddol, addiash  
Fygithiol, gwrddi  
Addewidiad, gwybod  
y

*Tn y rhan Adroddol y cawn ni,*

1. Adroddiad o fawredd anfeidrol iha  
 phriodoliaethau gogoneddusaf Duw Israele  
 wedi eu dŵyn i mewn gýd-a Diafпадче i  
 ffrôus a deffrois, *Gwrandoewch y Nefoed* 10  
 a *Nefaraf*; a chlywed y *Ddaiar* euriau hon  
 ngenau. adn. 1.

2. N

2. Ni gawn Adroddiad o'u llygredigaeth, r Pieu hanniolchgarwch a'u gwrthryfel, adn. 5, 6. Y Genhedlaeth wyrog a throfaus, a ym- i m hyrodd yn ei erbyn trwy eu bai; ai hyn a ffrobwlwch i'r Arglwydd, bobl ynsfyd ac angall? Er bod ffafor Duw ai drugareddau yn hy- syd nodol iawn tu-ag attynt, etto hwy a'i gwrth- r Caedasant ef, a dieithr Dduwiau y gyrrasant Gan riddigedd arno, ac a aberthasant i Gythreul- arodd iad, nid i Dduw, adn. 16, 17. O achos yr hyn bygythiodd efe.

1. Guddio ei wyneb oddiwrthynt, na'r hyn a fai nidoes dim chwerwach i'r Enaid, adn. 20.

2. Ddwyn amryw Farnedigaethau Tym- r Bydol trymion arnynt; na'r rhai nid oes hon dim flinach i'r Corph. Casglaf ddrygan ar- ymnynt, treuliaf fy saethau arnynt; llosgedig ac ydant gan newyn, ac wedi eu bwyta gan mis poeth, a chwerw ddinistr; y cleddyf ddi Allan a dychrynn oddifewn a ddifetha y biol. gariuanc, a'r wyryf besyd, y plentyn suggo- wbyd a'r gwr briglwyd; canys tan a gynneu- yd yn sy nig, ac a lysg hyd Uffern isod. Ac

adn. 27. Y mae Duw yn rhoi y rhefwm irol i ham na ddisfodai efe hwynt yn gwbl a llagmeuthur llwyr ddiwedd o honynt; Oni ad ym' ofni dig y gelyn, rhag i w gwrthwy- foed ymddwyn yn adieithr, a rhag dywedyd iau fo honynt, ein llaw uchel ni, ac nid yr Argl- ydd a wnaeth hyn oll.

Ac yn awr fe dybygid mai Cymhwysiad o'r cwbl yw geiriau'r Testun, *Oh na ystyrient eu diwedd!*

Chwi ellwch edrych ar y Geiriau hy megis ar glawdd wedi ei fwrw i sylw oddiar yr hwn y gallai Pobl Israel gaufon y pethau a ddeuai, a chael golwg ar y hyn a ddigwyddai iddynt yn eu diwedd. *Oh na baent ddoethion!* Bod yn ddoethion osodir yn erbyn yr hurtrwydd hwnnw a sonir am dano yn adn. 28. *Cenedl heb Gymor oedd ynt hwy, canys yr oedd arnynt ei iau iawn ymarfer Rheiwm, a'r Ddoethine honno sydd oddiuchod i ddal fulw ar, a i wneuthur y goreu o rasusol Ragluniaethan a'r pethau a gyfrannodd Duw iddynt.*

*Nad ystyrient :* Gweithred sefydlog o deall neu'r meddwl yw ystyried, er mwyn ymarfer; canys fe gyffylltir gwneuthur ystyried yn fynych ynglyd, *Barn. 18. 14. Gan hynny ystyriwch yn awr beth a wnelod Heb. 10. 24. Cyd-ystyriwn baib ei gilydd i ymannog i gariad a gweithredoedd da.* Un peth a adroddir mewn amryw o ffyrdd yn yr Ysgrythyr Lan, megis gwilio ar ben atgoфio, gwybod, ac i un ystyried neu gydnabod yn ei galon, cosio pethau, ac i ymddiddan a'i galon, *Psal. 77. 5, 6.*

*Eu diwedd.* Wrth yr hyn y mae'r thaid i ni ddeall nid yu unig y Barnedig a

thau ofnadwy ac anghyfanneddol hynny a'u goddiweddent hwy yn y bŷd hwn, eithr cofo pethau mawrion y Bŷd arall; megis hefyd Henaint, Marwolaeth, y Bêdd, Tra-gwyddoldeb; Marwolaeth a'i Rhag-gen-nadon ei Chydymdeithion a'i Chanlynwyr.

Y mae'r Geiriau yn cynnwys ynddynt ddymuniad neu ddeifyiad gynhyrfiol, *Oh na baent ddoethion!* Ym mha rai ystyriwch,  
 1. *Yr hwn sydd yn dymuno, sef, Y Duw mawr a gogoneddus.*

2. *Y peth a ddymunir, a hwnnw yw Doe-thineb Dduwiol, Tlws yn wir a'r y fy werthfawroccach na Gemmaw.*

3. *Y rhai y mae Duw fel byn yn dymuno nostynt, sef tros Israel, Pobl agos at yr Arglwydd, ac etto Pobl anifeiliaidd, an-nyriol ac anghall. Oh na baent ddoethion!*

4. *Beth yw'r Ddoethineb hon, neu ym mha ieb y mae hi'n sefyll, sef, yn ystyried eu diwedd.*

Yr Athrawiaethau i ddal fulw arnynt oddiwrth y Geiriau, yw y rhai hyn.

Athrawiaeth 1. *Fod Duw yn dymuno o ddifrif ac yn hiraethu am ddaioni Pobl.*

Athrawiaeth 2. *Fod Pobl anystyriol yn bwl ynsyd ac anghall.*

Athrawiaeth 3. *Fod eisiau ystyried o ddifrif ddigwyddedig nid yn unig i'r Halogedig, i'r hefyd i'r rhai sy'n proffesi Duw a Duw-ioldeb.*

*ioldeb.* Yr Israëliaid oedd unig Eglwys Dafydd Dduw y pryd hynny yn y Bîd, ac eto in *Psal.* oedd ynt hwy yn ddoethion i ddeall ac wedd ystyried eu diwedd.

Ni thrinaf mo'r rhai'n ar wahan, eithri *Sam.* a lefaraf am brîf amcan ac ergyd y geiriadyn, yn yr un Athrawiaeth hon.

Athrawiaeth. *Mai dyled swydd a phêth pwydd i gawn ydym ystyried ein diwedd.* Ob! Ac y baent ddoethion! nad ystyrient, hynny *pan i* nad ystyrient yn ymarferol, a byw *baolstu* amser mewn crediniaeth am y Bîd arall cywir fel y bo iddynt felly orphen eu holl wan. *My* tra yw hi yn ddŷdd. Fe dybygid fod *hybeth i* yn rhan fawr o feddwl Yspryd Duw yn diwedd *ddwy* Testun hwn.

Garedigion anwyl; pa beth bynnag *glur* ddiango allan o'ch meddyliau, ni ddyled i. yn un modd ollwng mo hyn yn anghof; *dra-* ddylai hyn fod yn Gydymmaith i chwi *oneedd* fe dylai gydgodi, gydorwedd a chydrodio *naer* *S* chwi pa le bynnag yr eloch neu y byddod *volet* Hyn a ddymunodd *Moses* ei hun, y gwaith a'n gwerthfawr hwnnw ac enwog i Dduw, gan farw weled y fath farwoldeb ofnadwy yn y dafydd Anialwch, a chynnifer o achrif *ddrych* honi digofaint Duw, gan ddywedyd, *Psal.* *gwydd*; 12. *Dysg i ni felly gyfrif ein dyddianu, fel uno y dygom ein calon i ddoethineb.* Ac megis *rachet* dymunodd *Moses* hyn, felly hefyd y gwnaeth fawr *Dafydd*

W Dafydd sanctaidd, yr hwn a ddywedodd,  
 Psal. 39. 4. Arglwydd pâr i mi wybod fy ni-  
 ac medd, a pheth yw mesur fy nyddiau, fel y  
 gwypnyf o ba oedran y byddaf fi. Ac y mae  
 Salomon ddoeth yn dywedyd mai gwêll yw  
 eiriau, Preg. 7. 2. Gwell yw myned i dŷ galar  
 na myned i dy gwledd : canys hynny yw di-  
 pnyedd pob dyn, a'r byw a'i gesyd at ei galon.  
 Ac y mae'n argoel fod dynion yn feirw,  
 an nad ydynt mewn tŷ Galar yn tyneru i  
 bosturio, ac i ystyried yn ddyfuddwys eu  
 arall cyfwr cŵynfannus a marwol eu hunain.  
 Myfi a ddeuaf bellach i ddangos i chwi  
 sy raid i ni ystyried, oblegid ein di-  
 ynedd : Ac oh na bae i hynny weithio'n  
 dŵys ar bawb a ddarlleno'r gwirioneeddau  
 naglur hyn !

1. Ystyriwch o ddifrif a chredwch, *Fod*  
*of; dra-diamai y bydd diwedd.* Canys gwir-  
 chwirionedd disiomedig yw pa bêth bynnag y  
*radio na'r Sgrythyr-lan yn ei ddywedyd am Far-*  
*ddodololaeth, y Bedd, y Nefoedd ac Uffern.*  
*gwaith rhaid i chwi ystyried fôd pob Dŷn*  
*farwol, fod yn rhaid iddo farw, a my-*  
*yn y di'r Bŷd arall; a bod ynghorff pob un*  
*rychus honoch Enaid anfarwol a beru'n dragy-*  
*al. gwydd; ac y bydd i'r Cyrph hyn wedi iddynt*  
*, fel uno yn llwch y ddaiar gael byw a chyfodi*  
*negisiau rhefn; bŷdd adgyfodiad y meirw, i'r*  
*wnaeth fawnion ac i'r anghyfawnion : ac yn*  
*Dafydd niwedd*

niwedd y bŷd fe osodir i fynu orsedd barn  
 ger bron yr hon y gwneir i'r holl fŷd sefyd  
 A chyn gynted ag yr èl y ffùn allan o  
 geneuau, fe ddychwel yr ylfryd at Dduwa  
 rhoes ef, naill ai at Gyfiawnder Duw,  
 at Drugaredd Duw : I le llawenydd, ne  
 le poen.

Ein trosedd, ein cyflwr naturiol, gynted  
 deddf osodedig y Nefoedd a'n dygodd  
 anghenrhaid i farw, pa le bynnag y glynn  
 Wiber hon, hi a ladd yn siccr, os nid  
 ddirybudd : Gefeillion yw pechod a  
 wolaeth ; pechod yw'r llofrudd mawr  
 gollwng marwolaeth i'r bŷd ; *Canys y  
 ei thy hi yn gwyro at Angau, a'i llwybran  
 y meirw, Dihar. 2. 18.* *In y dydd y  
 di o honaw, gan farw y byddi farw, Gen. 2. 17.*  
 Hynny yw, ti a ddeui yn farwol. Gynted  
 ag y pechoda Adda, efe (a ninn  
 ynddo ef) a ddaeth yn ddarostyngedig  
 yn ddigwyddedig i farwolaeth : Pechod  
 Pennadur dewr a deyrnafodd o  
 hŷd Moses : Y mae Drwg-weithredwr  
 di ei fwrw wrth y Bar, yn farw mewn  
 fraith, er cael o honaw ei oedi tros amser  
 Y mae'r Corph (medd yr Apostol) yn  
 oherwydd pechod : Mae rhai yn meirw  
 y Groth, rhai yn eu mebyd, rhai yn  
 leuengëtid, a'r rhai sy'n byw hwyaf,  
 fyddant seirw o'r diwedd : nid yw Angau

un amser yn clwyfo dŷn ond a'i arfau ei  
 bun ; y mae fe bob amser yn cael pechod  
 ynom ni, a cholyn *Angau yw pechod*. A  
 pha le bynnag y cyfarfyddoch ag ef, neu y  
 gweloch ef, chwi ellwch ddywedyd am da-  
 no, fel y dywedodd *Ahab wrth y Prophwyd*  
*Elias, a gefaist ti fi, o fy ngelyn?* Angau a  
 phob angau yw ffrwyth pechod, angau  
 rymhorol, angau ysprydol, ac angau tra-  
 gywyddol. *Yr enaid a becho, hwnnw a*  
*fydd marw*, Ezec. 18. 20. *Cyflod pechod yw*  
*newolaeth*, Rhuf. 6. 23. Y mae'n cyflwr  
 naturiol yn ein rhoi ni i fynu i fod yn  
 gymmwys i gael ein dattod ; nid yw ein  
 Cnawd yn gnawd o garreg, neu o brês ;  
 ond pridd gwael a darfodedig, i'r hwn,  
 megis i'n canol-bwynt, y mae'n rhaid i ni  
 Gathchwelyd, Gen. 3. 19. *Pridd wyt ti, ac i'r*  
*pridd y dychweli*, Preg. 3. 20. Y mae y cwbl  
 edig i muned i'r un lle ; pob un sydd o'r pridd,  
 a phob un a dry i'r pridd eilwaith, Heb. 9. 27.  
*Adas Gofodwyd i ddynion farw unwaith*. Job. 14. 5.  
 Gen fod ei ddyddiau ef wedi eu rhag-derfynu,  
 nifedi ei fisoeedd ef gyd-a thi, a gosod o honot  
 derfynau fel nad el trostyni. Nid all un da-  
 man neu astalch ymddifsyn yn erbyn Bren-  
 my Dychrynniadau yma ; Angau cyflawn  
 (y gwaithdawr mawr) ni nebydd wyne-  
 bau ; ac am hynny ni all nêb gael myned  
 Angau rhŷdd. Pe gallafai ffyddlondeb gael

rhyddhad rhag Angau yna *Moses* a allasai  
 gael ei esgusodi; pe gallasai tegwch ddiango  
 yn rhŷdd rhagddo, yna fe ddiangasai *Ab-  
 salom*; pe gallasai cryfder fyned yn rhŷdd  
 oddiwrtho, yna fe aethai *Samson* yn rhŷdd;  
 pe gallasai purdeb a duwioldeb waredu  
 rhagddo, yna fe waredsid *Dafydd*; pe gall-  
 asai cyfrwydra dyccio yn ei erbyn, ym  
 fe aethai *Achitophel* yn rhŷdd; pe gallasai  
 mawredigrwydd ymgadw rhagddo, yna  
 fe ymgadwasai *Alexander*; pe gallasai g-  
 lud achub rhagddo, yna fe achubsid *Crasus*;  
 pe gallasai doethineb fod yn rhŷdd oddiwr-  
 tho, yna rhŷdd a fuasai *Salomon*; eithr y  
 un diwedd sy'n digwydd iddynt oll; fa  
 pan ddell yr awr dynghedfennol na's gelli  
 rhoddi dim pridwerth, ni ddichon un ge-  
 fyddyd na gwybodaeth ein cadw ni yma  
 Garedigion, pe coelid yr Athrawiaeth hon  
 am y Byd arall, hi a graffai'n fwy ar ein  
 Calonnau; pe meddyliem o ddifrif am y  
 cyflwr hwnnw a ddaw o dalu'r pwyt, fa  
 ol ein Ffŷdd, yn yr hwn gyflwr y bŷâd y  
 rhaid i ni fyw neu farw, sefyll neu gwymo  
 yn dragywydd, hi a weithiai'n fwy ar ein  
 bucheddau.

2. Ystyriwch, y palla pob pêl a'r y sif  
 y byd yma i chwi ar eich diwedd, ac y cym-  
 rant en cennad oddiwrthych tros byth. Eich  
 holl ddoniau naturiol, meddiannau oddi-  
 fudd i

allan, rhannau, gwaedogaeth, genedigaeth, dygiad i fynu, tynwyr, cyfoeth, coronau, teyrnafoedd, perlau, adamant, tai, tiroedd, gwragedd, plant, cyfeillion; pan el y ffün o'ch genau, fe fydd y rhai'n eugŷd wedi ymadaw, *Dihar.* 27. 24. *Cyfoeth ni phery hyth; ac a bery coron o genhedlaeth i genhedlaeth?* Mae'n ddiamai y machluda Haul tanbaid pob gogoniant oddiallan, yr hyn a wyddoch wrth eich prawf eich hun, ac eglurder yr Sgrythyr yn ddigon da. *Golud a gymmer adenydd, ac a cheda ymaith,* *Dihar.* 23. 5: *Y mae dull y byd hwn yn myned heibio,* *i Cor. 7. 31. Ni ddygasom ni ddim i'r byd,* ac eglur yw na allwn ddiwyn dim allan chwaith, *i Tim. 6. 7.* Pe bae ddŷn yn berchen ar gymaint o'r Bŷd hwn ag oedd *Salomon* Brenin mawr *Jerusalem*, yr hwn oedd ganddo Adeiliadau mawrion harddwychion, *Gwin-lannoedd hyfryd ffrwythlon*, Gerddi Perllannau, a Phrennau o bob math o ffrwyth, dewis Weision a Morwynion, yn berchen llawer o wartheg a defaid, pentyrtau o arian ac aur, tryffor Pennaf brenhinoedd, Cantorion a Chantoresau, pob thyw offer cerdd, a pha beth bynnag a ddeifyfai ei lygaid; etto pan edrychai o ddifrif ar bôb pêth, fe ddywedai gŷd-a *Salomon*, *gwagedd yw cwbl*, ac nad oes fuddiddŷn o'i holl lafur a gymmer efe dan

yr Haul, a hyn a barodd i'r Gŵr Doeth  
gassau hyd yn oed einioes, *Preg.* 2. 17.

Y mae Melldith ar y Creadur er Cwymp  
Addaf, yr hon sy'n awr yn twyllo, yn bli-  
no ac yn amharu, ac fe ellir cyffelybu pâr  
cyffur a diddanwch oddiallan i lu *Phara*  
yn awr yn fyw, ac yn y man wedi boddi  
ac yn farw ar fin y Môr: ac er y meddy-  
iech y parhaent yn dragywydd, *Psal.* 49. 11.  
Hwy a wnant a chwi fel Mûl *Absalom*, y  
hon a'i gadawodd ef pan oedd gyfngi  
arno. Pa drueni galarus sy'n dilyn Golau  
bydol, wrth eu hynnill, eu cadw ac ym-  
dael a hwynt? y maent yn faglau a drain  
yn blaau a Scorpionau i lawer; Y mae  
yn eu gwanu a llawer o ofidiau, *1 Tim.* 6. 10.

Etto yma y Dynion yn ymdrafferthu  
yn curu eu ymennyddiau, yn deffygio  
cyrph, yn blino eu hysprydion, yn tom  
eu cwig, yn astonyddu eu meddyliau, y  
arteithio eu cydwybodau, yn bwrw eu hu-  
nain i lawr ac yn ymfoddi mewn gofalon  
yn gofod eu heneidiau mewn perygl, he-  
freuddwydio am ddim ond hîrbara: a pha-  
wnelont y cwbl, y maent fel y Sidan-br  
yn marw yn eu gwaith: ie, y mae llawer  
Gŵr yn byw ar ôl ei ddedwyddwch ei hun  
yr hwn a ddifethir cyn y difethir ef;  
gwaethaf o drueni yw ini fyw yn hwy  
n dedwyddwch ein hunain: am hynny  
adewch

adewch i Olud chwyddo 'ch calonnau, a  
pheri i chwi falchio, yr hyn sy'n rhy gy-  
ffredin.

Heddyw y mae'r bydol-ddyn goludog  
yn canu gorphywysdra i'w enaid a dwyll-  
wyd yn doft, gan dybied fod ganddo dda  
lawer wedi eu rhoi i w cadw; y nos honno  
y gosynnwyd ei enaid oddiwrtho. *Haman*  
fydd heddyw yn ail Wr yn y Deyrnas,  
eithr a gollodd y cwbl yn ebrwydd, a'i  
hoedl hefyd. Yn awr y mae *Nabuchodono-*  
~~for~~ yn rhodio yn ei Lys Brenhinol mawr-  
wych ym *Mabilon*, gan ymfalchio yn ei  
wagrodres oddiallan; eithr a'r gair etto yn  
ei enau ef, syrthiodd llêf o'r Nefoedd yn  
dywedyd, *wrthyt ti*, *Frenin Nabuchodono-*  
~~for~~, *y dywedir, aeth y Frenhiniaeth oddiwr-*  
~~tho~~, Dan. 4 29, 30, 31.

*Jerusalem* y leni yw Tywysfoges y Talei-  
thau, y flwyddyn nesaf tan D. yrnged, a'r  
rhai oeddyn yn byw yn foethus a ddifeth-  
wyd, ac a gofleidiafant y Tomennyydd,  
*Gadar.* 1. 1, & 4. 5. Ddoe y gellasid cyfrif  
a *Job* wrth filoedd, ac y foru y mae efe  
wedi colli'r cwbl a'i adael yn noeth. Ac  
y w ein hoes ninnau heb Esampl alarus  
ac ofnadwy, *Llundain* Enwog, yr hon ar  
dydd yr Arglwydd oedd yn tefyll, a dydd  
*Merchur* wedi ei llosgi'n ulw, ac yn grug o  
udw, a miloedd o'i *Thrigolion* heb na

thy nac annedd ganddynt ; am hynny os cyrnydda Golud, na roddwch eich calon arno, *Psal. 62. 10.* Y mae yn anwadal, ni ail ddigoni, ni wna lês, fe ddifethir, a hynny yn dragwyd. O gan hynny gofelwch am y Tlylau gwerthfawr, anwyl a thragywyddol hynny, a osodwyd i'w cadw yn eich Cyrph gwael, darfodedig a breulyd, a dderfydd am danynt cyn y bo hir ! *Canu pa lessad a fydd i ddyn os ynnill efe yr holl Fyd, a cholli ei enaid ei hun, Matth. 16. 24.* *Mar. 8. 36. Luc. 9. 25.*

3. Ystyriwch, Mor ebrwyd yr a holl fwyntiant prefennol pechod ymaith, ac ni ad ddim ond colyn. Fe wna Henaint, Gwen-did a Chlefydion newidiad mawr yn yr holl ddŷn oddiallan, megis o ran tegwch, nerth, grym naturiol, bywiogrwydd fynhwyrau, a'r cwbl trwy ba rai y gallai dyn gymmeryd dim hyfrydwch yn y Byd, neu yn ei Dra-chwantau. Pan ddel Afiechyd, Henaint a Chymhyrcynrwydd, rhag-gennadwr Mar-wolaeth, fe wna gyfnewid rhyfedd yn yr wyneb-pryd teccaf : Harddwch Corphord a Thegwch a lygrir yn ebrwyd, ni wywi Clefyd mo honaw yn unig, eithr hefyd a hanffuria ef. Chwychwi y fawl sy gennych gydweddoldeb corph, llygaid gwreichion llyd, tegwch pryd a gwedd, hawddgarwch lliwiau o wyn a chôch, gyd ag unionedion,

a buander corph, a golwg furiol ; pan ddelo henaint, fe ardd rychau dyfnion yn yr wnebau tēg hynny ; ac etto y mae llawer (heb wybed oddiwrth eu heneidiau budr, a'u calonau aflen) yn feilchion o ran eu hwynnebau teg, a'u cyrph prydferth ; yn gymaint a'u bod yn ymdrythyllu o achos hynny, ac i osod allan eu tegwch a gwynni eu crwyn (heb ymfodloni i gywrein-waith eu Creawdr) a chwanegant liwio, clyttio, powdrio, crychu, plethu, gwallt-celfyddgar, a pheth ni's gwnant ? Gwybyddwch, na wywa henaint mo'ch tegwch yn unig (yr hwn nid yw ddim dyfnach na'r croen) eichr a wanha 'ch nerth oddiellan, grym naturiol, bywiogrwydd synhwyrau, a'r cwbl trwy ba rai y gallech gael dim hyfrydwch bydol.

Henaint yw *dyddiau blin Salomon*, pan dywyllir yr Haul, y Lleuad, y Sêr a'r goleuni, y crynno ceidwaid y Tŷ, y crymmo y gwyr cryfion, ac y metho y rhai sydd yn malu, ac y tywyllo y rhai sydd yn edrych drwy Fenestri, ac y gostyngir i lawr holl ferched cerdd, ac yr artwydant yn y ffordd ; pan fo'r holl ddyn oddiellan wedi amharu, hynny yw, pan fo y llygaid yn bwl ac yn dywyll, y clustiau yn drwm eu clywed, y dannedd yn bydron, y gorchfanau yn noethion, y pen yn foel, yr anadl yn llygredig,

y dwylo a'r traed yn ddirym ac yn crynnu. Dyddiau blin yn ddiai, yn y rhai ni chewchwi ddim. diddanwch oddiwrth eich chwaryddiaeth o'r blaen, canys fe fydd Ceiliog-rhedyn yn faich, a chwant yn palli. *Preg. 12. 5.* Eithr ni wywa tegwch Gras a nhariadau mwyaf Tegwch naturiol; canys Gras yw'r Clew yn y Lamp nad yw darfod un amser, ond yn llewyrchu fwy. *Merch y Erenin sydd oll yn egoneddu ofewn, Psal. 45. 13.* Duwieldeb yr hon Delw Duw, a rydd lewyrch a'r y sy'n hyfryd iawn i ngolwg Duw a Dŷn. *Ti ydwyd dêg, fy anwylyd, ac nid oes ynot fychwyn, Can. 4. 7.*

Chwychwi bechaduriaid ! Y rhai 'ychyd awr-hon yn profi melyswedd pechod ymlawenhau i wneuthur drwg, yn treulio 'ch amser mewn cyfeddach a meddwdol, mewn cydorwedd ac anlladrwydd, yn gowedd ar wlau Ifori, ac yn ymestyn ar eich glythau, ac yn bwytta'r wyn o'r praid, a'r lloio ganol y cwt, y rhai a ddatcenwod gyd-a llais y Nabl, a yfwch wîn mewn Phiolau, nid ymosidiwch am ddryllio Joseph ac ydych yn pellhau y dîdd drwg; gwyl byddwch y llysg tan pechod, ac nad y eich tammeidiau melus ond tros funud achiwi gewch dalu yn ddiud am y tammeid iau melus a'r dainteithion hyfryd hynny.

Gwrandewi

Gwrandewch hyn bellach, chwychwi y fawl ydych yn ymroddi i ddigrifwch, yn eich pelgi eich hunain trwy wneuthur drwg; nid yw ond amser byr, a chwi a welwch, ac a ddywedwch, fod eich holl ddfyrrwch, eich gobaith a'ch llawenydd wedi myned ymaith a darfod, ac na chewch býth mo'u gweled na'u profi mwy, yn unig cnoesa cydwybod, bustl, euogrwydd a cholyn a erys. Ni wyddoch chwi y rhai sy dda gennych y Gyfeddach Uffernol hon o bechod. (y dyfroedd lledrad sydd felus, a'r bara cudd sydd beraidd) mai meirw yw y rhai sydd yno, a bod ei gwahoddwyr hi yn nyfuder llffern, *Dihar.* 9. 17, 18. Gwenwyn melus yw pechod, hyfryd wrth ei wneuthur, eithr chwerw yn y diwedd: *Canys yr Enaid a becho, hwnnw a fydd marw,* Ezek. 18. 20. ac a arbedwch chwi ef, a'i atal o fewn tafod eich genau? Ei gau dan eich tafod, hýd onid elo'n sustl Aspiaid o'ch mewn chwi, *Job* 20. 12, 13, 14. Ystyriwch hefyd, fod eich pechodau dirgel, a wnaethpwyd yn y tywyllwch, mewn conglan, wedi eu cuddio a'u cadw'n gél, yn adnabyddus i Dduw.

Y mae y Duw sanctaidd anfeidrol, chwiliwr y calonnau yn eu cofio, *Hof.* 7. 2. Yn eu gwilio, yn eu felio, *Job* 14. 16, 17. Ymaent ar lawr ym mysg ei dryforau ef,

Deut. 32. 34. a hwy a'ch goddiweddant chwi, Num. 32. 23. ac (oni wir edifar-hewch yn ddifrifol am danynt a chael maddeuant) hwy a orweddant gŷd-a chwi yn y bêdd, ac a'ch dilynant i'r bŷd arall, ac a gyfarfyddant a chwi wrth far ofnadwy Duw, ac a ddatcuddir yngolwg yr holl fŷd; Drwg a erlid y pechadur: Y Drwg hyn, a'r chwerwedd yma, (a fagwyd yn y groth, ni chladdwyd yn y bedd, ac ni ddiffoddwyd yn Uffern) a ymlid y pechadur i Uffern Bechaduriaid, hyn sydd ddiammheuaf, ni ymedy pechodau hêb edifarhau am danynt bŷth a chwi, eithr a orweddant ac a gyfodant gŷd-a chwi; Eich esgyrn sy'n llawn o bechodau eich ieuengctid, y rhai a orweddant gŷd-a chwi yn y pridd, Job 20. 11. Drwg gydymmaith gwely yw pechod, a gwaeth Cydymmaith bedd, ac os huna efe gŷd-a chwi, fe ddeffru gyd-a chwi pan gano't Udcorn aethlyd, Cyfodwch Feirw a dewch i farn. Y mae gan y rhai damnedig yn Uffern eu holl bechodau o ddau tu iddynt; yr hyn oedd yr achos o'u taflu i Uffern, fydd eu Cymdeithion tragicwyddol yno; ac a gymmerwch chwi'r Gwiberod a'r Scorpionau hyn yn eich monwefau, y rhai a fyddant yn oetiad yn cnoi eich calonnau? Gwybyddwch hyn, y machluda eich Haul redegog o bob digifwch pechadurus ac anllad yn eigion

Mor

Mor ofnadwy o ofid diddiwedd; diesmwyth-  
der ac anfeddygymiaethol.

4. Ystyriwch, *Ma'n unig yr byn sydd tragywyddol a wna i chwi lessad pan ddeloch isawr.* Sef, pan ddeloch at y Gagendor mawr, a gwthio o honoch allan i ddyfn for anfeidrol Tragywyddoldeb, nad oes iddo na therfynau, na cheulannau na gwaelod.

Garedigion anwyl ! A ydych chwi yn canfod dim a'r y sy a Thragywyddoldeb yn agravfedig arno ? Y mae amryw wrthddrychiadau, o bersonau a phethau, a'r ydynt yn ymgynnyrcholi i'ch golwg chwi. Deraffewch eich llygaid tu-a'r Nefoedd faith i addurnwyd ac a brydferthwyd a Haul gogoneddus, Lloer a Sêr tanbaid, y rhai lydd yno er rhai miloedd o flynyddoedd, gwelwch a yw Tragywyddoldeb yno ? Nac ydyw, hwy a gawiant eu dechreuad, ac y mae'n rhaid iddynt gael eu diwedd, *Gen. 1. Heb. 1. 10, 11.* Tydi yn y Dechreuad, *Argywydd, a sylfaenaiſt y ddaiar, a gwaith dy ddwylo di yw y Nefoedd : Hiryst-hwy a ddarhyddant, ond tydi sydd yn parhau : A hwynt- my oll fel dilledyn a beneiddiant.* Y mae y Dydd yn dyfod yn yr hwn y troir yr Haul yn dynwylwch, a'r Lloer yn waed, a'r Ser a synh o'r Nef, a nerthoedd y Nefoedd a llygdwir, a'r Desnyddian gan wir wres a doddant,

doddant, a'r Ddaiar a'r gwaith a fyddo ynddi  
a losgir, Matth. 24. 29. 2 Petr. 3. 10.

Hefyd, edrychwch ar eich Ceraint agos  
ac anwyl, er mwyn y rhai yr ydych yn cym-  
meryd cymmaint o boen, gofal a blinder;  
Edrychwch ar *Abraham* eich *Tad*, ac ar  
*Sara* a'ch esgorodd (fel y dywed y Prophwyd  
mewn achos arall) ar eich *Gwŷr*, *Gwragedd*,  
*Plant*, *Rhieni*, *Cyfeillion*, *Cymmydogion*,  
*Swyddogion*, *Gweinidogion*; a ydyw y  
rhain yn dragwywyd? Nac ydynt, llawer o  
honynt a aethant i wared eusys i'r *Glyn*  
*tywyll*, ac ni ddychwelant mwy. Neu  
edrychwch ar yr *Arwŷr* godidog hynny,  
*Alexander*, *Cæsar*, *Pompei*, a ph'le y maent  
hwy? Oni orchfygwyd hwy eu gŷd  
gan Frenin Dychrynniadau, ac a ddaliwyd  
yng'harchar y Bêdd, er ys llawer cant  
o flynyddoedd? Edrychwch ar eich *Arian*  
a'ch *Aur*, eich *Perlau* a'ch *Tlysau*, eich  
*Per-aro glau* a'ch blychau gwerthfawr, eich  
*Adeiliadau* têg a'ch *Llysoedd Brenhinol*, a  
ydyw y rhai'n tros lŷth? Nac ydynt, pethau  
llygredig ydynt, ac ni allant waredu yn  
nŷdd digofaint yr Arglwydd. Lleoedd  
anghyfannedd yw *Llysoedd Brenhinoedd*,  
yn barod i fyned yn garneddau: Coronau  
a symmudir o ben i ben; *Teyrn-wial*  
ydynt yn myned o'r naill llaw i'r llall; ac  
y mae i *Deynnafoedd* eu codiad, ac y mae  
iddynt

ddynt eu cwymmp hefyd : ac a werthwch  
 chwi eich eneidiau gwerthfawr am hen  
 erpiau a ffylach ddarfodedig, y rhai ydynt  
 yw'r yn fwy mewn disgwiliad nag mewn  
 mwyniant ? Ystyriwch cyn lleied a dal  
 hynny, am yr hyn yr ydych yn myned  
 mewn enbydrwydd erchyll o golli 'r Nef-  
 edd.

Eithr yr awr hon (os rhai yn credu  
 ydych) derchefwch eich polygon tua'r  
 trynnau tragicwyddol, a gosodwch lygad  
 yr Eryr o ffydd oddifewn i'r Llen, yno y  
 me'r Hèn Ddihenydd ; Duw eich Tad, y  
 aioni pennaf, a'r dedwyddwch mwyaf :  
 Yno y mae Crist eich Prynwr hygar, Ty-  
 wysog Gogoniant, a Thŷ nid o waith Llaw,  
 tragicwyddol yn y Nefoedd ; ac ar ffasor  
 Duw, cariad a chyflawnder Crist, chwi  
 dwch ganfod Tragicywyddoldeb.

Drachefn, trowch eich polygon i mewn  
 atdirgel ddŷn y galon, a ydyw had Duw  
 yno, neu nod ei Ddelw ef, a'r Duwiol  
 Amian ? 1 Joan 3. 9. 2 Petr. 1. 4. A oes  
 yno Wyddor nerthol o fywiol Ras yn  
 tarddu ? Joan 4. 14. Ar y pêth hyn y  
 gellwch ddarllain Tragicywyddoldeb ; Gras  
 yw Etifedd Gogoniant, pob defnyn o'r  
 hwn sy'n rhedeg i'r Mor mawr, ac ni all  
 dim arall fod yn gyfaill i chwi ; Canys y pe-  
 than a welir, sy tros amser, ond y pethau ni  
 welir sy dragwyddol, 2 Cor. 4. 18. 5. Y-

5. Ystyriwch, *tu-ag at ba un o'r dda* A  
*Dragwyddoldeb yr ydych chwi yn myned* h  
*Mi fynnwn i chwi ystyried yn ddyfnedwys* ch a  
*ac yn ddifrifol, fod un lle i'r Defaid, a* dfr  
*un arall i'r Geifr; un lle i'r Cyflawnion* y  
*ac un arall i'r Anghyflawnion; un lle i* haid  
*Duwolion, ac un arall i'r Annwolion* fid y  
*un lle i'r Byw, ac un arall i'r Meirw; Dyd  
 tragwyddol, neu Nos dragwyddol; Hy- wyo  
 frydwch tragediwyddol, neu Boenau tragedi- wnae  
 wyddol; Gwynfydedigrwydd tragediwyddol, neu Losgfeydd tragediwyddol; Bywyd tragediwyddol, neu Angau tragediwyddol; Nef- Cor.  
 oedd dragwyddol, neu Uffern dragwyddol. eled  
 dyc  
 ch ll  
 Ym  
 Ghrist,  
 edda  
 gy  
 na  
 ewi*

Bellach bechaduriaid, arhoswch yma ac  
 ystyriwch, i ba un o'r dda le hyn yr ydych  
 chwi yn perthyn? A oes gennych chwi  
 ddim sicrwydd am Dragwyddoldeb Go-  
 goneddus a Gwynfydedig? Mai 'r Nefoedd,  
 ac nid Uffern, a fydd eich lle a'ch cyfran;  
 Er mwyn dangos hyn, ystyriwch, ac at-  
 tebwch yr ymofynion hyn.

A ddarfū i chwi gredu yn ddiffuant, edi-  
 farhau, a dychwelyd at Dduw trwy rwygo  
 eich calonnau, a rhoi i fynu eich holl Eneid-  
 iau iddo ef? A ydyw eich calonnau we-  
 di eu dwyn yn ferchog ac yn egniol allan  
 at Iesu Ghrist, fel nas bodlonir mo honoch  
 heb undeb a chyffordddeb ag ef? Ai Iesu  
 Ghrist yw anwylyd a chariad eich Eneidiau?

A

A ddarsu i chwi (gan fod yn deimladwy  
hyn a wnaethoch yn ei erbyn ef, ac  
anheilyngdod o honaw ef) trwy ddwfn  
dfrisol ostyng-eiddrwydd, osod fail dda  
y Nefoedd a dedwyddwch ? Mae'n  
hau cyn y galloch fedi, a'r rhai  
yddyn hau mewn dagrau a fedant mewn gor-  
edd, Psal. 126. 5.

A anwyd chwi am y Nefoedd, neu a  
nwyd chwi yn ôl y Cnawd yn unig ? Os  
wnaed chwi trwy waith diogel Troë-  
tra-  
figeth yn Greaduriaid newyddion yn wîr,  
Cor. 5. 17. da yw, sefwch a rhyfeddwch  
led trugaredd ryfeddol ; onid è, ofnchwch  
dychrynnwch, canys os methwch yma,  
ch llwyr ddifethir yn dragywydd.

Ymmhellach, a gýd-gyfodafoch gýd-a  
rist, neu a ydych yn feirw mewn cam-  
eddau a phechoda? Ephes. 2. 1. A ydych  
gyfrannogion o'r Adgyfodiad cyntaf,  
ma ydych yn eich beddau yn pydru a  
newi yn eich pechoda, wedi diddarbodi ?  
ydych yn wîr ar ddarfod a phechod, ac  
phob pechod ? Neu a ydych yn ymhyfry-  
mewn anghyfiawnder ? A ydych yn fe-  
llam Dduwioldeb yn ei bywyd a'i grym ?  
a oes un pechod yn cael cennad i deyr-  
su yn eich calonnau a'ch ffyrdd ? A ydyw  
echod a phob pechod yn edrych yn frwnt,  
teimlo'n drwm, yn blaen' chwerw, ac  
hêb

hēb fod yn Eulyn yn y galon i gadw Crist  
allan o'i orsedd-faingc ? A oes un pechoda  
dirgel yn byw oddi fewn yn erbyn Cyd-  
wybod ? A ydych yn gweddio ac yn dy-  
muno byw mewn ofn, ac megis tan olwg  
Duw, gan wneud Cydwybod o bechoda  
dirgel, ac o ddyledswyddau dirgel, trwy  
edrych yn bur tu-ag at ogoniant Duw  
a'ch daioni eich hunain ? A ydyw Duw  
chwiliwr y calonnau yn eich cael yn eich  
ftaselloedd ar eich gliniau, foreu a hwy  
yn tywallt eich eneidiau ger ei fron ei  
Pob duwiol a weddia, *Psal. 32. 6.*

A groeshoeliwyd chwi i'r Bŷd, neu  
yw'ch Eneidiau yn glynu wrth y llŵch ? a  
oes gennych Dryffor yn y Nefoedd, neu  
Dryfforau yn y maes yn unig ? A brynsoch  
chwi'r Perl ? Neu a ydych yn ymfodlwm  
a graian ? Pwy yw eich Cymdeithion,  
Cenfaint foch y Cythraul, ai praidd Crist  
A ydych yn gyfeillion i foch a chŵn aflan  
y Bŷd o annuwolion, ai i Golomennod ac  
ŵyn Crist ? Pa nod sy arnoch, nod y De-  
faid ? (*sef, sancteiddrwydd, Goflyngeidd-  
rwydd a Diniweidrwydd*) ai nod y Geifr  
(*sef, Trachwant, Balchder ac Afendid?*)  
Pwy sy'n cadw'r Orseddfaingc, Brenu  
n y Sainct, ai Duw'r Byd hwn ? A ydyw  
eich calonnau a'ch bucheddau yn llefaru  
*Nef, Nef, Nef, ai Uffern, Uffern, Uffern*  
Nid yw Uffern ddiin yn amgenach lle i  
Cythraul.

Cythraul, nag yw calon yr annuwiol. **A**  
 ellwch chwi edrych i fynu a dywedyd,  
 Ein Tad yr hwn wyt yn y Nefoedd, neu yn-  
 nm, ai rhaid fydd i chwi edrych i wared a  
 dywedyd, *Ein Tad yr hwn wyt yn Uffern?*  
 Pawedd y gellwch gymmeryd cyffur mewn  
 dim ag fy'n y Bŷd hwn, a chwithau yn de-  
 byg i fod yn druenus anrhaethol a thragy-  
 wyddol yn y Bŷd arall? Pe tebygid fod  
 gennych gymmaint o Olud, Coegrodres a  
 Gogoniant y Bŷd hwn, ag a fu gan un  
 dyn a'r a fu fyw erioed ar wyneb y ddaiar;  
 ne gallich ddywedyd, eiddo fi yw'r Goron  
 hon, y Deyrnas hon, y Wlad hon; mi pi-  
 wr Aur hyn, yr Arian hyn, neu y March-  
 nadty hwn, y da hyn, y Faenor hon, yr Ha-  
 lod hon, y Maesydd hyn, yr Anifeiliaid  
 hyn, y Diadellau hyn, yr ŷd hwn, y  
 Mŵn-gladd hwn, y Perlau hyn, y Tly-  
 tau hyn; beth a dalai'r cwbl i chwi, os  
 Diafol a biau eich Eneidiau? Yn awr ym  
 mha gyflwr y mae eich Eneidiau gwerth-  
 hwr? **A** ydynt yn ddiogel? **A** wnaethoch  
 chwi wr barottoad erbyn Marwolaeth a  
 Barn, neu adel y cwbl heb ei wneuthur?  
 Ai Llestri parch ydych, a rag-barottowyd i  
 Gogoniant, ai ynteu Llestri digofaint, wedi  
 eu cymhwyso i golledigaeth? *Rhuf. 9. 22,*  
 23. Llefared Cydwybod, ymddiddenwch  
 a chalon, *Psal. 4. 4.* Ystyriwch eich ffyrdd,  
*Hag. 1. 5.* Ceisiwch a chwiliwch eich ffyrdd,  
*Galar.*

*Galar. 3. 40.* Holwch eich hunain, profwch am a  
chwychwi eich hunain, a ydych yn y ffydd lefar o  
*2 Cor. 13. 5.* Beth bynnag a hauoch hynnad Y  
hefyd a fedwch yn siccer, *Gal. 6. 7, 8.* a lle  
syrthio y pren, yno y bydd efe, *Preg. 11. 3* gwy  
Os tu-a'r dehau y syrth, tu-a'r Dehau er a  
bydd efe; Os tu-ar gogledd y syrth, tu-a'hoedl  
gogledd y bydd efe. Os byddwch fy  
a marw tu-a'r Nefoedd, y Nefoedd a fy  
eich lle a'ch cartref: Eithr os byddwch chwi  
fyw a marw tu ag Uffern, Uffern a fydd diwed  
eich lle a'ch cartref. Canys yn ôl yr hy  
a wneloch yn y Bŷd hwn, y bydd eich ban  
yn y Bŷd a ddaw, *2 Cor. 5. 10.* Ac onid  
yw yn athrist ac yn erchyll coelio fod  
gennych Eneidiau gwerthfawr na byddant ar  
bŷth feirw, ac na wyddoch pa un ai cadwe.  
dig ai damnedig a fyddant, pa un ai sefyd  
ai syrthio a wnant, byw ai marw bŷth ac yn  
dragwydd? Ac etto dyma gyflwr miloedd  
a myrddiwn o bobl a'r y sy'n byw yn  
awr yn y bŷd, y rhai sy'n myned ar bed-  
waicarn i Uffern, ac yn tybied a gobeithio  
eu bod ar yr union ffordd i'r Nefoedd,  
*Dihar. 16. 25.*

6. Ystyriwch, *Pa nesed ydych at eich tri-*  
*gias a'ch annedd dragwyddol?* Yr ydych  
chwi oll yn myned i wared gŷd-a ffrwd yr  
amser i'r Mor mawr o Dragwyddoldeb,  
ac a ddewch yno yn ebrwydd. Nid oes

fwel gam a gerddoch, anadl a gymeroch, air a  
ydd lefaroch, na munud o amser a dreulioch,  
ynn nad yw'n nessau at Dragwyddoldeb. Y  
lle tywod aur hyn syn rhedeg rhwng dau Dra-  
gywyddoldeb, a dderfydd yn fuan, gyrsa  
au er a redir yn glau. O pa ddiddim yw'n  
u-a boedl ni ! *sef*, dyrnsedd, breuddwyd, gwynt,  
fysgod, tarth, rhedegwr, cynt na rhedegwr  
fyd ac yn darfod heb obaith, *Job 7. 6.* Yr ydych  
dwc chwi oll yn myned i dŷ eich hir gartref  
fyd diweddaf, i dŷ Tragywyddoldeb : Y mae  
pob Dŷn yn myned i Dŷ ei hir gartref,  
*Reg. 12. 5.* Pa fodd y mae fe'n, myned ?  
I mae fe'n myned yn fuan iawn, bob am-  
ser rhagddo, ddŷdd a nos, pan fo yn cysgu  
tar ddeffro, yn gweithio neu yn segur, y  
mae'r rhedegwr hwn yn prysuro, nid yw  
amser a llanw yn aros. Drachefn, y mae  
en myned yn anheimladwy ; Nid yw  
Dŷn yn deall pa fodd y mae ei amser  
gwerthfawr yn ffoi oddiwrtho ; Y mae'r  
cysgod ar y Ddial yn myned o un awr neu  
igur i'r llall, o godiad - Haul hŷd ei fach-  
lud ef, er nad ydys yn craffu ar ei chwim-  
mwth fynediad ef : Felly y mae dŷn yn  
myned o febyd i faboed, o faboed i ieueng-  
ctid, o ieuengctid i ganol-oedran, ac felly  
i henaint a'r bedd, ac nid ym ni yn dal  
ond ychydig neu ddim sylw ar hynny,  
Drachefn y mae fe'n myned yn ddiattal  
ni

ni all na dynion nac Angylion, Meddygini wedi iaeth na Meddygon ei gadw yma ; nid o ach haws cadw mo honaw, nag attal holl hymned, natur, neu rwyistro Cyfammod Duw o fuen ddŷdd a nos. Ni waeth i Ddŷn geisio atta ymlyn yr Haul rhag codi, y Mor rhag llenw neu'r Gwynt rhag chwythu, na cheisio cadw i chw dyn rhag marw, a myned i'r lle rhag-ter. sy tu fynedig i bob dyn byw. Er doe'r ydym Angani, Job 8. 9. Nid oedd ond megis doe, pan oeddym ni yngroth diddim, ac heb fod ydych ac ni bydd ond megis y foru, ac ni a ddi-flannwn, ac a fyddwn mal (o ran a berthyn o hŷd i'r Bŷd hwn) pe na buasem er ioed. Fe'i malurir yn gynt na gwifyn, Job 4. 19. ac mewn moment y diliwynnwn i'r bedd, ac newy ni ddown i fynu mwyach. Ie, ein Delwan a'n I luniau a arhosant yn newyddion ac ymddiogel, pan fom ni wedi myned i wa-red i farrau'r Pŵll, ac yn gorphywys yng hŷd yn y pridd, ac fe fydd hŷd yn nod ein Cwn a'n Meirch yn fyw, pan fom ni a feirw, ac yn fwyd i bryfaid.

Y Myfyrdod calon-gyfrôus hwn a weithiodd yn fawr iawn ar *Xerxes* gynt Brenhin *Persia*, yr hwn wedi bwrw golwg ar ei Lu mawr aneirif, a wylodd wrth feddwa na byddai un dŷn o honynt yn fyw ym mhen can mlhynedd. Bechaduriaid y mae'n r! aid i chwi edrych tu hwnt i'r bedd, canys wedi

gin wedi Marwolaeth y bydd Barn, *Heb. 9. 27.*  
 niau O achos hynny ynteu synnwch wrth ystyr-  
 hymied, eich bod chwi oll heddyw yn sefyll o  
 wchen drws Tragywyddoldeb, naill ai ar  
 atta ymyl bywyd, neu ymyl angau, ar gyffin-  
 enw mwr Nefoedd, neu safn Uffern, ac fe wneir  
 adwchwi cyn y bo hir, wybod a gweled beth  
 ter. sy tu hwnt i'r Mûr; cyn gynted ag y cau o  
 dyn Angau eich Llygaid, chwi gewch weled a  
 , pa gwybod beth a fyddwch yn dragywydd. Os  
 fod ydych yn awr yn annychweledig, ac heb  
 ddi-Dduw yn y Bîd, yr ydych ym mron dyfod  
 rhynhîd golwg i'r Llyn fydd yn llosgi o Dan  
 Fe'i Brwinstan; ond os Sainct ydych, yr  
 9. ydych ym mron mewn golwg i *Jerusalem*  
 d, ac newydd; Os pechaduriaid annuwiol, yr  
 lwan ydych ym mron o hîd clywed fwn erchyll  
 ac ymneini melinau digofaint, a thrwst cadwy-  
 wa- m tanllyd Carcharorion Uffern, udfeydd  
 yng- yfidus, a rhuad erchyll Ysprydion mewn  
 nod Carchar, yn gweiddi ar eu gilydd, *O pa*  
 i ni- *ng, pa ddrwg anfeidrol, a pheth chwerw,*  
 wei- *chwerw tost yw pechod, yr hyn nad ystyriem*  
 Bren- *na chredem nes ein dyfa i'r lle truenus*  
 on o boenau. Yno y gellwch glywed yr  
 vg anghredadyn melldigedig mewn poenau  
 ddwi gweiddi ar ei Dduw a ddigiodd efe,  
 v ym Crait a wrthododd efe, a'r pechod o Ang-  
 nae'n mediniaeth a laddodd ei enaid ef, gan  
 canys dywedyd ynglyf syngdra ei Yspryd. *Pe*  
 wedi *bua fwn*

buafwn i fodlon i'r feddyginiaceth, ni fuas  
 i ddim yn y trueni galarus yma, bu Arglwyd  
 y Gogoniant wrth y drws, mi a'i clywais  
 curo'n hir, ond ni's gollyngton ef i mewn,  
 hynny y cauwyd safn Uffern arnaf yn  
 oesoedd. Yno y clywir y Tyngwŷr, Ce  
 wyddwŷr a'r Cablwŷr, a rwygafant ac  
 ddrylliafant Enw Cyssegredig eu Creawd  
 ac a dyngafant i waed a gweliau eu Prynn  
 a gynnygwyd iddynt, a thafodau poethion  
 a fychion yn cwynofain ddarfod iddynt  
 ioed gymmeryd Enw y Duw Sanctaidd  
 anfeidrol yn ofer.

Yno y mae'r Proffesswŷr rhagrithiol  
 chalon-ffuantus, y Pechaduriaid yn Sion y  
 gweiddi ac yn dymuno, naill ai na  
 thent ddim lliw o gariad i Ghrist a Sain  
 eiddrwydd yn un modd, neu iddynt  
 garu ef mewn purdeb a gwirionedd,  
 uwch law pawb, fel y gallasant ddiangc rh  
 y llosgfeydd tragicwyddol.

Yno y clywir y Meddwyn digywilydd  
 afreolus anifeiliaidd, tehyg i fochn a fod  
 haodd ei lygaid a'i fol, a'i gwppaneid  
 hyfryd, o Wîn gwreichionllyd, ynglŷn  
 a'i Gymdeithion melldigedig, yn dymun  
 yn chwerwedd ei Enaid, O na buafwn i  
 cymmedrol a difeddw, fel y gallasant  
 gael bod heb brofi gwin digofaint Duw,  
 hwn sydd goch, ac yn llawn cymysg, gwa  
 lodig

edion yr hwn sy raid i mi en hyfed yn dragyd,  
ydd, Psal. 75. 8. Efay. 5. 22.

Yno y clywir y Godinebwyr a'r Godinebwyr  
wagedd aflan bryntion, a ddarfu iddynt ym-  
bogi yn eu hanlladrwydd Uffernol, yr hwn  
troeddynt yn amcanu ei fodloni, yn dymu-  
o, Ona buasem sôbr, divair ac onest, ac na bu-  
sai'n illygaid anllad trachwantus yn bur ddeill-  
on, ac nad adnabuasem na gweled er ioed  
yngwyr na gwraig, fel na buasai raid i ni  
diaddef dialedd tan tragywyddol, Jud adn. 7.

Yno y clywir y rhai drygionus Didduw  
mhwynol a ffiidd, a watworasant ac a  
maethant wawd o gredu fod Duw a barn  
ddyfod ac a lesarasant yn eu balchder a  
yndynrwydd eu calonnau, brysied a phry-  
red ei orchwyl, fel y gwelom ; canys  
wnaethom ammod ag Angau, ac ag Uffern  
wnaethom gyngrair, yn rhuo ac yn  
waeddi. Oh na buasem yn gwrando, yn  
odu, ac yn ofni 'r peth a rag-synegwyd  
Weinidogion oblegid y lle tywyll ac erchyll  
cyn ei bod bi'n rhy hwyr !

Yno y clywir y Bydol-ddyn a'r Ddaiar-  
nghys truenus, a wnaeth y Ddaiar yn Ne-  
edd iddo, Aur yn Dduw, ac yn ddaioni  
nnaf iddo, yn llefaru yn chwerwder 'ei  
alon, Ona buaswn heb weled er ioed yn holl  
yddian fy enioes ddim Aur nac Arian ;  
y gallaswn gael gwell cyfran, neu na  
buaswn

buaswn fel Lazarus yn cardotta sy mara  
fel na ddaethwn i'r lle poenus hwn.

Yno y clywir yr arlwydus, yr ofnog, llwfr wadwr y ffydd, a'r gwrthnysig o galon, yr hwn rhag ofn ychydig o galed oddiallan, a ymadawodd a'r Gwyddorion a brofessodd efe, ac a drodd ei gefn a Ghrist, a'i Braidd bychan erlidiedig, dymuno, naill ai na buasai efe er yn adnabod ffordd Cyflawnder, neu iddyr fod yn ffyddlon hŷd Angau.

Bechaduriaid diofal, y rhai ydych y cymmeryd eich twyllo'n doit, y syriw nad ydych ddim ym mhell oddiwrth y Gwylfa gendor erchyll hwn, lle mae lliaws o eneidiau yn galaru ac yn wylo ddŷdd a nos ac y mae'n ddiamai, pe bae udfeydd ysgrechain ofnadwy a hyll yr ysprydion Uffernol hynny yn swnio yn eich clustiadau orphywysech ddim yn eich Gwlau na'i Tai.

Fe fu gweiddi tost a brawychus fodwyd yr hen fyd gŷnt, pan lotgwyd Sodoma a Gomorrha, weled y Cymyliyn ddim yn ddifymmwth yn bwrw tan a brwnt tan ar eu pennau a'u tai, a Gwŷr, Gwngedd a Phlant yn llosgî ynghŷd: ond oedd hyn ond pigiad chwannen mewn ffelybrwydd i'r lle hwnnw, lle mae wylo fain a rhingcian dannedd bŷth ac yn oesoedd

oefoedd. Cofiwch hyn bawb o honoch a'r y sy'n gollwng Duw yn anghof, fod dŷdd eich trychineb yn agos, a'r hyn a barottöwyd i chwi yn prysuro, *Deut. 32. 35.*

Ond os gweision yr Arglwydd ydych, gwir Sainct a Galarwyr yn Sion, derch-efwch eich pennau a'ch calonnau, canys yr ydych yn perthyn i le arall, a gwêll Gwlâd, *I synydd Sion, ac i Ddinas y Duw byw, iddyw Jerusalêm nefol, ac at fyrddiwn o Angylion, i gymmanfa a chynnulleidfa y rhai cyntaf-madig, y rhai a sgrifennwyd yn y Nefoedd, ac at Dduri Barnwr pawb, ac at ysprydoedd y gysfawn y rhai a berfffeithiwyd, ac at Iesu Cyfngwr y Testament newydd, a gwaed y taeulliad, yr hwn sydd yn dywedyd pethau gweli'r eiddo Abel, Heb. 12. 22, 23, 24.* A gwybyddwch eich bod ym miron dyfod o yd clywed y Caniadau nefol hynny, Gorlledd Tragywyddol a Haleluiau'r Sainct, it Angylion gogoneiddus yn Nhŷ eich Tad, *Lle y cewch ddigonolrwydd llawenydd digrifnach yn dragywydd, Psal. 16. 11.*

7. Ystyriwch, Mor ddifymmwth, mor ingerddol, neu mor ddirybudd y gall eich diwedd fod. Am hynny na thybied neu addywed nêb, y cant feirw yn eu Nŷth, neu addo iddynt eu hunain amser i ymbaroedd trwy hir fywyd, neu glefyd-nŷch, megis Darfodedigaeth neu'r cyffelyb. Be-

chaduriaid diofn a diofal ! ni wyddoch chwi  
 beth a ddichon ddigwydd mewn noswaith  
 neu awr ; y gŵr goludog yn yr Efengyl  
 tra 'r ydoedd efe'n breuddwydio am lawer  
 o ddyddiau, a ddaliwyd gan genad ofnadwy  
 a ddaeth i'w ladd ef ; *O ynfyd, y nos hon*  
*gofynnant dy enaid oddiwrthit, Luc. 12. 20*  
**Nid** byw mae'r hwn ni wyr pa le, pa bry  
 neu pa fod y bydd efe marw ; rhai a  
 thant yn iach i'w Gwlau, ac a fuant feirw  
 y noson honno ; eraill a syrthiasant yn feirw  
**oddiar** eu Ceffylau ; rhai a fuant feirw  
 wrth eu Byrddau, tra 'r oedd y bwy  
 yn eu geneuau ; eraill a fuant feirw yn  
 llawn nerth, a hwy yn esmwyth, ac  
 heddychol yn gwbl, a'u bronau yn llawn  
 llæth, a'u hesgyrn yn iraidd gan fer ; eraill  
 a fuant feirw mewn chwerwder enaid,  
 ni fwyttasant mewn hyfrydwch. Hwyl  
 orweddant ynghyd yn y pridd, a'r prysedd  
 a'u gorchguddia hwynt, pan ddygir hwn  
 i'r bedd ac yr arhosont yn y pentwr. Gan  
 digion, y mae llawer o Esamplau ofnadwy  
 yng air Duw a'm ddyfodiad trist a  
 symmwth y Gennad ddidrugaredd hon,  
 gau, y rhai sy 'n sefyll megis cynnifer  
**For-nodau** i'ch rhybuddio rhag i Angau  
 ddyfod mewn awr na b'och yn disgwil  
 dano ; a'ch cael heb ymbarottoi. *Belsazar*  
 Brenin y *Caldeaid* yn ei lawenydd mwyaf

pan nad oedd efe'n meddwl am Angau, a welodd ysgrifen law ar y pared yn ofnadyw iawn, ac a laddwyd y noson honno, *Pan nad efe'n gwledda ac yn yfed gwin, ac yn molianu y duwiau o aur ac o arian*: *Tr awr honno byssedd llaw dŷn a ddaethant allan, ac a grifennasant ar gyfer y canhwyllbren, ar galchriad pared llys y brenin; a gweleodd y brenin ddarn y llaw a sgrifennodd; yna y newidiad llaw'r brenin, a'i feddylian a'i cyffroisant* ef, *fel y dattododd rhwymau ei twynau ef, ac eu rodd ei liniau cf y naill wrth y llall*, Dan.

3, 4, 5. 6. a'r 30. Angau yw Brenin Dymyrrniadau, a dychryn Brenhinoedd. *Hecciah ddaionus a gaes rybudd disymmwth* Angau, *Esay. 38. 1, &c.* Hynny a barodd iddo droi ei wyneb at y pared, weddio ac ylo ag wylofain mawr, a thrydar megis Garan, a griddfan megis Colommen, yn werwedd ei enaid, o waith ei fod efe i ffined i byrth y bedd, ac i'r pwll, lle nid o baith. Lladd pob cyntaf-anedig yn Aipht ar hanner nos, a barodd weiddiwr, *Exod. 12. 29, 30. Corah a'i holl Gynnulleidfa annuwiola lyngcwyd ynghabol eu Gwrthryfel, Numb. 16. 30, 31. Hwyddisgynnasant yn fyw i Uffern, a holl Israel* foesant wrth eu gwaedd bwynt.

Fe fu farw yn ddifymmwth o wŷr Bethunes ddeng-wr a thrugain, a deng mil a

deugain o wŷr, am iddynt edrych yn Arcl  
yr Arglwydd, i Sam. 6. 19. Ac y mae Duw  
lawer gwaith yn cymmeryd oddiwrthym  
ddymuniant ein llygaid a dyrnod, fel y  
cymmerodd efe wraig Ezeziel, Eze. 24. 16  
plant Job a fuant feirw yn eu gwledd. Isb  
Jeth a darawyd ac a fu farw yn ei gwraig  
*Ananias a Sapphira* gwr a gwraig a fuant  
feirw o fewn tair awi neu bedair at eu gŵr  
lydd, Act. 5. 5, 10. Y mae Duw y Barnwr cyf-  
ion lawer gwaith yn saethu'r annuwolion  
saeth ddisymmwth, ac y maent yn mein  
yn y weithred o bechod, Psal. 64. 7. Pa-  
font ynghylch llenwi eu boliau, y mae'r Ar-  
glwydd yn tywallt llid ei ddigllonedd a  
nynt, fel y tywalltodd efe ar etholedigion  
Israël, Psal. 78. 30, 31. Y mae Duw lawer  
gwaith yn anfon allan ei Angel dinistrio  
i gyflawni angerdd ei lid, yr hwn a  
waith erchyll mewn ychydig amser; can-  
mewn un noswaith yngwerys y'r Af-  
faid, Angel yr Arglwydd a darawodd gwn  
a phedwar ugain a phump o filoedd, y rhwng  
y boreu drannoeth oedd ynt oll yn gels-  
neddau mei i won, E/ay 37. 36. Mor fyr  
mor anfisicr yw ein bywyd, yn ddarostyng  
edig bôb moment i ddyrnod Angau, a  
briwsionyn lleiaf neu wybedyn a allwn  
thur diben o honom ni, fel y gwnaeth  
lawer. Ac megis y dichon ein diwedd

yn ddisymmwth, felly hefyd y gall-ef fod  
 yn angerddol; gall clefyd marwol orefgyn  
 pen a chalon, ac y mae dynion truein wrth  
 fairw lawer gwaith mor gyfng arnynt ac  
 mor orphwyllog, fel na allant feddwl am  
 ddim ond eu doluriau poenfawr, ac heb-  
 allel dywedyd dim wrth Dduw na dŷn o-  
 blegid eu heneidiau! O mor syn ac mor an-  
 heimladwy y mae llawer enaid yn myned  
 eug i'r Byd arall! Mal *Nabal* neu mal gŵr  
 mewn Hun-glwyf, neu megis cynnifer o  
 gyffion neu feini, ac heb ddeffroi pes deffront  
 yn han Uffern. Y gŵr galudog a fu farw,  
 yn Uffern efe a gododd ei olyg; yr oedd  
 isfarwolaeth cyntaf a'r ail yn dra dirybudd.  
 Sefwch y machwi'r holl Bechaduriaid calon-  
 aled, a rhyfeddwch weled Trugaredd digy-  
 lyb, ac Amynedd anfeidroly Duw mawr,  
 a'r Brenin Dychrynniadau cyhyd! Ni  
 naeth Duw mor dirion a miloedd o Be-  
 chaduriaid a aethant o'r blaen i Farn, ac a  
 ddisgynnasant i'r Pwll mewn moment, fel  
 y cyttia'r Pla ofnadwy a fu ddiweddaraf yn  
 Llundain, o achos yr hwn yr aeth llawer-  
 mil o eneidiau i Dragwyddoldeb. O nac  
 anghofied Llundain na'r Deyrnas hon mo-  
 styng, a Barnedigaethau brawychus eraill  
 agrochwaeddodd ein pechodau am danynt,  
 hag dyfod gwaeth nag un o honynt eto  
 am ni. Anghofio ein diwedd sy bechod

marwol a gyffru Dduw i ddigofaint, ac a  
bair i farn brysuro. *Ei haslendid sydd yn*  
*si godreu, nid yw hi yn meddwl am ei diwedd;*  
*an hynny y syrthiodd hi yn rhysef, heb nis*  
*yn ei chyffuro, Galar. 1. 9.*

**8 Ystyriwch, T** bydd eich Eneidiau paa  
ddel Angau i daro'r dyrnod wedi eu sefydly,  
fe fydd eich Tragywyddoldeb wedi ei fwrw sa  
nas newidir byth bythoedd: Y pryd hynny y  
bydd eich Eneidiau anfarwol yn myned i  
Iechydwriaeth neu i Ddamnedigaeth, i Ff  
wyd tragwyddol neu Angau tragwyddol,  
i Nefoedd dragwyddol neu Uffern dragy-  
wyddol. Chwychwi ddynion llwfr athrill  
gwybyddwch a chofiwch tra fo amser  
gennych, cyn y torrer edafedd aur eich  
hoedl, os ceir chwi ond ymhen awr ar ol  
Marwolaeth heb Grist, Ffydd, Edifeirwch  
a Sancteiddrwydd, fe dderfydd am danoch  
yn dragwydd. Wedi Angau mae pob  
moddion a gobaith yn pallu, *nid oes na*  
*gwaith, na dychymmyg, na gwybodaeth, na*  
*doethineb yn y bedd*, Preg. 9. 10. Fe fydd  
Duw'r pryd hynny yn anghymmodol, pe-  
chod yn anfaddeuol, y Nefoedd mal nas  
galler ei chael, a'ch eneidiau wedi eu colli  
yn ddiobaith. Ac yna y Diafol eich gelyn  
gwaedlyd a gaiff ei wynfyd arnoch; Y  
mae fe'n gwybod os ei eiddo ef a fyddwch  
mewn bywyd ac angau, mai ei eiddo ef a  
fyddwch

fyddwch byth ac yn oes oesoedd, ac na  
ymedy'e a chwi a'i gilydd yn dragwywyd.  
Bechaduriaid, diammau yw hyn, lle y fy-  
rni y pren, yno y bydd efe; fel y mae'r  
had, selly y bydd y cynhauaf; os gwnewch  
chwi waith y Diafol, fe fydd yn rhaid i  
chwi gael cyflog y Diafol: Os cerddwch  
an orchymmyn ac arweiniad Tywyfog y  
Twyllwch, a gadel iddo eich tywys a'ch  
llusgo yma ac accw wrth ei ewyllys tra  
fyddoch byw, chwi fyddwch yn Garcharor-  
ion ac yn Gaethweision iddo ef yn y Car-  
nachy ofnadwy hwnnw o dywyllwch du  
wedi eich marw.

Ystyriwch, nad yw Gwlad y twyllwch  
mddim lle i wasanaeth, nid oes dim edi-  
farhau yn y Bedd, ddim o Arglwydd tru-  
garha wrthym yn sgrifennedig ar byrh  
Uffern, nid oes yno na Sabbathau, na Phre-  
gethau, na Gweinidogion. Yn amser eich  
bywyd y mae'n rhaid i chwi lafurio a pha-  
nottoi am fywyd tragicwyddol; o waith  
mai yn ol eich gwaith a'ch dewis yn y Bŷd  
hwn, y bydd eich cyfran tragicwyddol yn  
Bŷd a ddaw. Golodwyd i chwi farw un-  
waith, ac wedi Angau bod Barn, *Heb.* 9. 27.  
Y mae'r March gwelwlas Marwolaeth yn  
myned ym mlaen, ac Uffern yn canlyn ar  
ol ef, *Date.* 6. 8. Ni newidir mo'ch cyflwr,  
y mae Dinystr tragicwyddol, neu lwydd-

ant dragwyddol eich eneidiau gwerthfawr yn ymddibynnu ar yr ychydig funudau hyn ; yr Afon chwyrn hon o hoedl dŷn, wedi iddi droi unwaith a llaesu, a rŷd yn oestad gan dreio, ac ni leinw hi byth drach. **efn** : feily fel y bydd y cwbl a adawoch heb wneuthur yn awr, heb ei wneuthur yn dragwydd. Os byddwch feirw yn Angrhedadwy, chwi fyddwch yn Angrhedadwy yn dragwydd ; os byddwch feirw tan euogrwydd a gallu pechoda digofaint Duw, chwi arhoswch tan euogrwydd pechoda digofaint Duw yn dragwydd : Eithr os byddwch feirw yn sanctaidd yn ostyngedig, wedi eich marweiddio, ac yn Cristianogion diragrith, chwi arhoswch yn sanctaidd, yn nefol, ac yn ffafor Duw yn dragwydd, *Datc. 22. 11.* *Yr hwn sydd frwnt sydd frwnt etto ; a'r hwn sydd sanctaidd, sydd sanctaidd etto :* Eithr y Pechadur diedifeiriol heb gael maddeuant, er pe byddai syw gant neu fil o flynyddoedd i fodloni ei Drachwantau, a felldithir yn y diwedd. O Druein ! y rhai ydych yn darllen y Traethawd bychan yma, mi ddeisif yfaf arnoch godi a gweithio tra 'yw yn ddydd ; y mae y nos yn dyfod, pan na ellwch chwi na neb weithio, *Joan 9.4.* Am hynny ewch at eich gwaith, a gwnewch ef a'ch holl egni, tra fo'ch Canwyll yn llosgi, eich Haul

yn

yn tywynnu : A ddiogwch chwi etto, a chwithau yngweled eich Awr-Lestr yn rhe-deg, eich Haul yn machludo, eich hunain yn meirw, a'ch Eneidiau yn cael eu difen-nu ? Am hynny ceisnewch yr *Arglwydd tra y galler ei gael ef*, Esay 55. 6. mewn amser cymmeradwy, 2 Cor. 6. 2. Cyn i'r ddeddf esgor, cyn i'r dydd fyned heibio fel peisswyn, Zeph. 2. 2. Cyn dyfod y dyddiau blin, cyn tywyllu y rhai sydd yn edrych drwy Fenebstri, a dechreu o geidwaid y ty grynnu, cyn cau'r pyr h yn yr heolydd, cyn torri y llwyn arian, a'r cawg aur, cyn torri'r pi-sifer ger llaw'r ffynnon, neu'r olwyn wrth y pydew, cyn myned o honoch i dŷ eich hi gartref, a dychwelyd o'r yspryd at Dduw yr hwn a'i rhoes ef, *Preg. 12. 1, &c.*

Yltyriwch rhyn goch a chwi eich hunain, A ydych yn gymmwys i ymfael a'r Pendudur galluog hwn Angau ? A ydych wedi ymbarottoi i'r daith faith hon, ac yn barod ac yn ewyllysgar i fyn'd trwy'r Ogof dywyll hon ? Gochelwch ac ofnwch rhag eich cael yn amharod ; meddyliwch am y pum Morwyn ffol, yrhai oedd yn myn'd i brynnu. Olew pan ddylasai eu Lainpau fod yn llosg, ac felly a ddaethant at y drws, eithr a'i caw-fant yng hauad : Cofiwch am *Esan* druan, yr hwn oedd yn hela helfa, tra fu efe'n colli'r fendith.

Chwychwi Bechaduriaid truein ! Beth ydych ar fedr ei wneuthur ? Os gweithiwch mae'n rhaid ichwi weithio bellach neu beidio. A ydych chwi yn bwriadu ceisio a siccrau Teyrnas Dduw yn gyntaf ac o flaen pob peth, *Matth. 6. 33.* Tra y gelwir hi heddyw ? neu a oes gennych ddim ond gwaelodion a budreddi henaint marwlyd i'w roi i Dduw a'ch Eneidiau anfarwol ? Oh na wybyddech chwithau yn eich dydd hwn y pethau a berthynent i'ch heddwch, cyn eu myned yn guddiedig oddiwrth eich Llygaid.

9. Yn olaf, Ystyriwch, *Mai'r olyn erchyllaf a synnaf y tu yma i Uffern yw gweled Ang-bredadyn heb Crist yn anadlu allan ei anadl dimeddaf ?* Fe welir pethau eraill gresynol iawn, megis gweled Gŵr yn newynu o ddiffyg Bara, neu yn marw o ddiffyg Meddyg, neu 'n boddi o ddiffyg Bâd ; neu weled Gŵr yn farw, Celain, Corph heb Enaid ; eithr och ! Mor refynol ac mor arlwydus yw gweled Gŵr yn agos at Dersynau Tragywyddoldeb, sef, gweled pechadur truan yn ei lygchwys oer ac yn griddfan wrth farw, a'i Enaid gwerthfawr ac anfarwol yn sefyll dan grynnu ar ei wesyfau cerion ac aangau y Goresgynnwr mawr, a Brenin Dychrynniadau yn dyfod yn ynyd a'i Writ i'w symmud ef yn y

naill llaw (na's gellir ei dychwelyd) a'i  
biccell farwol a'i golyn yn y llaw arall ;  
Cydwytod yn dirdynnu, yn cyfarth, yn  
cnoi, ac yn ei rwygo fel Llew ; y Diafol,  
dihenyddwr Duw yn edrych arno, ac yn  
sefyll ger llaw iddo : Y galon tan anobaith  
trwm a foddedig, y llygaid yn dywyll ac  
yn sefyll, llinynnion y galon yn barod i  
dorri gan gyfyngder ; ei Wraig, ei Blant  
a'i Gyfeillion wrth erchwyn y gwely yn  
wylo, yn ochneidio, yn llefain, yn gwasgu  
edwylaw ac yn curu eu dwyfronnau ; y  
Wraig yn gweiddi, o fy ngwr ! Y Plant yn  
lefain, och fy Nhad ! Yr Enaid truan a  
ddifethir a fydd yr holl amser hyn yn  
edrych yn ol ar yr amser a gamdreuliodd  
a'i bechodau gynt ; yn edrych i mewn  
a ei galon ei hun, golwg erchyll ! lle ni  
wel efe ddim o Ghrist, ddim Gras, ddim  
Purdeb, ddim ond pechod, euogrwydd, Ang-  
au a thywyllwch : yna yn edrych i fynu  
a y Duw hwnnw a ddigiwyd, y Crist  
hwnnw a wrthodwyd, ac ar y Nefoedd hon-  
no a'r Tragywyddoldeb a gollodd efe ; ac  
yn edrych i wared ar y pwll tywyll ac of-  
nadwy hwnnw, sy'n raid ei fod yn lle a chyf-  
an iddo ef (gyda disgwil yn ddychrynned-  
dig am Farn) gan ganfod y Cythreuliaid  
yn dyfod ac yn barod i ymaflyd ynddo. O  
pa weiddi ac ysgrechain ofnadwy a wna'r  
enaid

enaid wrth ymadael ! gan ddeall ei fod efe  
 ei hun yn foddi i wared, i wared i'r llyn  
 tanllyd a'r pwll diwaelod, lle y býdd yn  
 rhaid iddo gymmeryd i synu ei letty gýd.  
 a'r tan yssol byth ac yn dragwyd.

Gwewyr marwolaeth, colli'r býd, cyfyng.  
 der Cydwybod, ac ofn Uffern yn cydym.  
 gysarfod a wnant ddýn yn berffaith drus.  
 nus, ac a barant iddo weiddi gýd-a Chain  
 felldigedig, Gen. 4. 13. *Mwy yw fy nghosb.*  
*dig aeth nag y gallwyf ei goddef, neu ddywe.*  
*dyd (gýd. a'r Eglwys gyfluddiedig) Gwelw.*  
*ac edrychwrch a oes y fath ofid a'm gofid i? Ga.*  
*lar i. 12. Ac os yw meddwl dychrynnedig*  
*Cydwybod euog yn cyhuddo, mor boene.*  
*dig a durfing yma, beth a fydd tan cyfana.*  
*mor o ddigofaint ar ol hyn, pan dywelltir*  
*ef allan hýd yr eithaf ?*

Ystyriwrch Bechaduriaid ansynhwyrol,  
 mai fel hyn y gall eich cyflwr cwynfannus  
 fod pan ddeloch i farw, *sef, cael llawer o*  
*ofid a digofaint gýd-a'ch clefyd, Canys.*  
*bydd heddwch, medd fy Num, i'r rhai annu.*  
*iol; Esay 57. 21. Nid oes un gair yn yr*  
*holl Fibr, nad yw'n llesaru dychryn ym.*  
*mywyd ac angau i'r annuwiol; er pe bae'r*  
*pechadur fyw gan mlhynedd, fe felldithir;*  
*fe fydd marw tan yr holl felldithion sy'n*  
*igrifennedig yn Llyfr Duw; ie a than yr*  
*echryslonaf felldith. Efangylaidd honno,*

16. 22. Deall yr hyn a hair y fath  
 llyn afonyddwch yspryd, a meddwl achrif am  
 yn euogrwydd, a'r a wnelo iddynt felldithio  
 gyd. Duw a'u Brenin; gan edrych i wared  
 a y pwll, gan ruo allan, *Pwy o honom a*  
 yng. *brig gyd-a'r tan yffol?* *Pwy o honom a bress-*  
 ym. *gylia gyda llosgfeidd tragywyddol?* *Esay 33.*  
 14. Am hynny byddwch synhwyrol i ddeall  
 hyn, chwi oll y rhai ydych yn anghofio  
 Duw, rhag iddo efe eich rhwygo, ac na byddo  
 garedydd, *Psal. 50. 22.*

Ac megis y mae yn ofnadwy ac yn fraw-  
 jchus gweled Angrheddyn yn marw, felly  
 yn y gwrthwyneb, y mae'n gyffurus ac yn  
 hyfryd gweled y Duwiol yn marw, o waith  
 mai (ei *ultimum* yw ei *optimum*) ei amser  
 diweddaf yw ei amser goraf, a gwell (medd  
 Salomon Preg. 7. 1.) *Yw dydd ei farwolaeth*  
*u dydd ei enedigaeth, Canys ei ddiwedd*  
*fydd tangneddyf, Psal. 37. 37.*

Duw mewn tangneddyf, Cydwybod  
 mewn tangneddyf, a'r cwbl mewn tang-  
 neddyf; O'r olwg wynsydedig! weled yr  
 Enaid yn llammu ac yn dyheu am y Nef-  
 oedd, yn myned allan o'r byd ar adenydd  
 llawenydd, tawelwch a thegwch yspryd,  
 gyd-a gwynt hwylus i'r Nefoedd, gan hir-  
 aethu a gweiddi, Fy Nuw, na hir drig;  
 bryssia, fy anwylyd, bryssia; tyred Argl-  
 wydd Iesu; y mae gennayf chwant i'm dat-  
 tod

tot ac i fod gyd-a Christ, yr hyn sydd o're se (y  
óll, *Phil. 1. 23.*)

Chwi glywioch beth yw'r pethau mawr  
ion sy raid i ni ystyried oblegid ein di-  
wedd, sef, y býdd diwedd yn sicr, na wédyd  
yw'r býd hwn ddim lle parhaus ; na wéddyd  
y rhai sy'n eich gweled yr awr hon, cyn y  
bo hir, mo honoch mwyach yn dragwydd  
Chwi a glywioch y difethir eich pethau  
presennol, y gád pechod, yr hwn sydd  
llawn o wenwyn marwol golyn, biccell a drysso  
drywana trwy eich afu, ac y bydd cyflwr  
yr annuviolion yn alarus, yn ofitadwy, ie  
ac yn ddiobaith, pan ddelont i feirw ; ca-  
nys pan ddéil Angau, fe fydd eich eneidiad  
prýd hynny wedi eu sefydliu fel na ddichon  
dim cyf-newidiad fôd byth bythoedd.

Y peth nessaf yw, son am y Rhesymmau  
pa ham y mae yn ddyledswydd ac yn beth  
o'r fath bwys i ni ystyried ein diwedd, a  
Rhesymmau yw y rhai hyn sy'n canlyn.

Y Rheswm 1. A gymmerir oddiwrth  
Dduw, O waith fod yr unig ddoeth, y grajd,  
y trugaroccaf, a'r enaid-dosturiolaf Dduw y  
dymuno hynny yn dra difrifol, Oh na baent  
ddoethion, na ddeallent hyn, nad ystyrient  
eu diwedd ! Garedigion, yn y dymoniad,  
neu'r deifyfiad gynhyrfiol hwn, y mae ty-  
ner ymysgaroedd Duw ; hon yw gwir iaith  
ei galon ef, ac y mae, mal pe dywedasai  
ef

oreu (yn ol dull dynion) wrth ei was ffydd-  
 on Moses ; nid oes gan i ond un deifyfiad  
 awr aeo arch, a'r cwbl a gynhwysir yn yr un  
 n di honno, hynny yw, am fyned o honot a dy-  
 nad edyd wrthynt trofod fi, fod yn rhaid  
 i wleiddynt fod yn ddoethion i ystyried hyn ; i  
 cynyddio y dyddiau gynt, a blynyddoedd Cen-  
 ydd, edlaeth a Chenhedlaeth, beth a wneuthym  
 ethau trostynt drwy eu dewis hwynt o'r holl  
 mor pobloedd sydd ar wyneb y ddaiar i fod yn  
 ell a drysor, yn bobl unig a phriodol i mi ; ac o  
 flwngchos i mi eu caru, y gwaredais hwynt, y  
 , i.e. gneuthym ryfeddodau trostynt yn yr  
 ca. dipbr, yn y mor coch, ac yn yr anialwch,  
 iau'r a'u cedwais mor anwyl a chanwyll sy-  
 chon yngad, gan eu dŵyn ar adenydd Eryrod ;  
 a ddynt gwybyddent ddarfod iddynt fy  
 man a nghofio i, fy nigio i, a bod eu diwedd yn  
 beth byg i fod yn druenus : canys tan a gyn-  
 a'r anwyd yn fy nig, ac onid ystyriant ar frys,  
 e lysg hŷd Uffern isod.

wrth Bellach chwi y rhai ydych mewn perygl,  
 a/d, un oreu yw ? Gwrthwynebu, croesi a  
 o ym eich unig gyfaill goreu, ac anwylaf,  
 aent so'n dymuno'n dda i chwi ; a i rhynghu bodd  
 ient bodloni eich gelyn amlwg, marwol ac  
 iad, nghymmodol ? Ni ddichon eich gwrth-  
 ty- ynebwr y Diafol oddef i chwi feddwl am  
 iuth angau neu farw ; canys pe dioddefai a phe  
 iadawai Satan yr hén Sarph honno i chwi  
 efe edrych

edrych i Uffern, ni allai na'ch llusgo na'ch  
 tynnu yno wrth ei ewyllys. Ac a ewch  
 chwi rhagoch yn ffyrdd pechod ac angau  
 Neu meddyliwch rhyngoch a chwi 'ch hu-  
 nain, eiddo pwy ydych, beth a wnaethoch  
 i ba le yr ydych yn myned, a phêth fydd  
 debyg i ddyfod o honoch pan êl y ffun allan  
 o'ch genau; pa ymbarottoad a wnaethoch  
 am y byd arall, fel y gwneler y gwaith mawr  
 rhwng Duw a'ch eneidiau chwi felly i fydd.

Bechaduriaid! Pe buasai'r Duw sanctaidd  
 anfeidrol, cyflawn a geir-wir yn chwennych  
 ac yn amcanu eich Dinystr a'ch colledig  
 aeth, ni buasai efe yn galw arnoch fel hyd  
 yn brûdd ac yn ddifrifol i ystyried, diwed  
 pechod, angau a thragywyddoldeb, hyn  
 onid aethai hi yn rhy hwyr, a chwithau we-  
 di eich gadel yn ddiywared; am hymnau  
 mae'r hyn a amcenir yma yn perthyn i  
 gwneuthur yn ddedwydd, os edrychir ato.  
*Oh na baent ddechion, na ddeallent byn, na  
 ystyrient eu diwedd!*

Rheswm 2. *O waith mai meddwl yn ddwfr*  
*yn ddifrifol ac yn ystyr ol am Angau a'r Bedd*  
*a'i naturiola, ac a'i gesyd ger bron, cyn nessu*  
*a phobael wrth y drws, ac a'i gwylw i w ielud*  
*yn eglur: Lle nad yw pethau a edrychir ar-*  
*nynt o hirbell, pa un bymagaq fyddont*  
*da ai drwg, yn gweithio ond ychydig neu*  
*ddim arnom: Yn awr Ystyried yn ddifrifol*

fol ac yn ddŵys a ddyry megis bôd i bethau  
ddaw, ac a'u dŵg yn agos, fel y galloch  
ynddiddan yn naturiol a'r pethau hynny.

Y gŵr gwir dduwiol sy'n cael yr olwg ar  
berbau anweledig trwy fyfyrdod Duwiol  
ma ar adenydd ffydd a gobaith, a all esgyn  
ir Nef, a rhodio tro ar hŷd heolydd euraid  
*Jerusalem* newydd, megis y bu y Prophwyd  
Ezeziel yng weledigaethau Duw yn *Jerusalem*  
yn ei feddwl, pan oedd ei gorff wrth  
Afon *Chebar* ym mysg y Gaethglud yng-  
wlad y *Caldeaid*; felly hefyd y mae gan yr  
prydion trist archolledig hynny (y rhai  
trwy ofn angau ydynt holt amser eu bywyd  
mewn caethiwed, drwy ymarfer ag Enaid-  
mdrechau, a than argyhoeddion nerthol  
pechod a thrueni yn llada) y fath feddyl-  
am Uffern a digofaint Duw, a'r y sy'n  
peri iddynt fyn'd yn fynych i stafelloedd  
marwolaeth, ac ymweled a charcharorion  
ypwll, ac edrych ar y Gagendor du hwnnw  
ir ffwrn dan i fod mor agos, a'u bod ar ei  
ymyl yn fyrthio'n waftad. Yn y cyflwr  
ma y bu llawer o weision anwyl Duw, y  
mai sy' yn awr yn y Nefoedd uwchlaw'r  
oll ofn a'r dychrynedigaethau hyn oeddynt  
unwaith chwerwach nag Angau. Ac ohpa-  
iser yn ymosidio gan y gwewyr hyn a chy-  
ngder enaid, sy' yn barod i weiddi gŷd-a  
job dduwiol! *Pen. 6. 4.* T mae saethau'r  
*Holl-*

*Holl-alluog yn oes, y rhai y mae eu gwenwyn yn ysed fy yspryd: dychrynsau Duw a ymfyddu nasant i m herbyn.* **Y** cyfryw ydyw anian myfyrdod neu ystyriaeth, ag y gwna i bethau a ddaw a pheil weithio'n naturiol, yn neithol ac yn ddwfn ar ein meddyliau. **M**ae gis am Esampl,

Marchnatta wr yn yr *India*, trwy ei fyfyrdod neu feddylfryd, a all seddwl am orchwylion, ei wraig, ei blant a'i gyfeillion yng *Hymru*; neu Farchnatta-wr a fo'n radio yn y Farchnad yn *Llundain*, a all fod i fwriad a'i feddyliau yn yr *Tyspaen* neu'r *Indie*, neu ryw le arall; gall Drwgweithredwr fo wedi ei fwrrw i Garchar am ryw fai hy-nod ym mhell cyn y Sessiwn feddwl am amgylchiadau trist ei Driâl; fe all (yn i feddyliau) ei weled ei hun wedi ei ddwyr i'r Bar, yn sefyll ger bron Barnwr traws wrando darllain ei Indictment, profit achwyniad, cyhoeddi ei farn a'i sentens, a'i weled ei hun (mal ped fae) wrth le ei ddi-henyddiad, a'r Cebysfr am ei wddf yn bsr od i'w grogi ef. **A** phe baech chwi ymroi o wir ddifrif i yityried eich diwedd, chwi allech yn wir ac yn deimladwy yn eich calonnau feddwl am henaint, cymhyrcyn- rwydd, clefyd, eich gwely angau, anadl byr, chwŷs oerllyd, gwewyr marwolaeth a gridd-fan, amdo, ysgrin, a'ch gweled eich hunain (mal)

(mal pe baech) wedi eich estyn a'ch rhwy-  
mo, ac ar ysgwyddau dynion i'ch dwyn i'r  
Bedd, lle'r ymiborth Pryfed a Chynrhon-  
fniidd arnoch.

Gweision Duw a'r Sainct gynt a wnae-  
thanti hyn trwy Iwyddiant mawr a manfaid  
Enaid, ac felly y dylech chwitheu. Hwy  
ag yfrifasant neu a rifasant eu hoedl wrth  
ddyddiau, o waith eu bod beunydd yn ddig-  
wyddol i farwolaeth ac yn disgwil am dano  
nwaftadol. *Dysg i ni gyfrif ein dyddiau*,  
ebe Moses, *Psal. 90. 12.* *Tchydig a drwg fu*  
*dyddiau blynnyddoedd fy enioes*, ebe hen Jacob,  
*Gen. 47. 9.* *Canys dyn a aned o wraig sydd*  
*yr o ddyddian*, Job 14. 1. *Disgwiliaf holl*  
*dyddiau fy milwriaeth* (ebe Job) *hyd oni*  
*delo fy nghyfnewidiad*, Job 14. 14. *Canys*  
*ffawn y dygi du si i farwolaeth*; ac i'r ry  
(y twyll) *rhagderfynedig i bob dyn byw*, Job  
30. 23. Ac pen. 17. 1. Y dywedodd efe, *Fy*  
*madl a lygrwyd, fy nyddian a ddiffoddwyd,*  
*beddau fy barod i mi*; pa le bynnag yr ae neu  
ydelai, yr oedd efe yn edrych am fedd.  
Drachefn, trwy ddwys ystyried y gallwn ni  
edrych nid yn unig ar y bedd, eithr hefyd  
ar hwnt iddo, ar y gweithredoedd mawrion,  
ar pethau ofnadwy a fydd wedi angau.  
Nyni a allwn feddwl am losgi'r Bŷd, dyfod-  
lind Crist, sain yr Uldcorn, agoryd y beddau,  
yfod i'r Meirw, rhuad yr Annuwolion, y  
rhai

rhai (er llawened ydynt) a lefant y pryd  
hynny ar fynyddoedd a chreigiau meirw  
a mudion am fyrthio arnynt, a'u cuddio  
rhag wyneb ofnadwy Mab Duw, y mae'n  
yn ei ddirmygu'r awr hon : Canys ni allan  
sefyll yn y dydd mawr hwnnw o'i ddigter  
ef a'i ddigofaint ofnadwy, *Datc. 6. 16, 17*

Trwy'r ystyriaeth wr a chredadwy hon  
y gallwn ni ganfod y Barnwr yn sefyll wrth  
y drws, a Mab Duw (megis pe bae) yn ha-  
rod i dorri allan trwy'r Cymmylau, gyda  
gallu a gogoniant mawr, fel y gwnaeth S.  
*Jerom*, yr hwn a ddywedodd, pa un bynnag  
ai bwytta ai yfed a wnelwyf, yr wyf yn  
clywed y llais hwn yn fy nghlustiau, *Cy-  
fodwch feirw, a deuwnch i farn* : Yn awr, os  
yw iawn ystyried y pethau mawrion a ddaw,  
mor awchlym ac mor ddeffrōus, byddes  
Angau yr hwn sy'n waftad yn eich annos  
wrth eich fodlau yn fynych yn eich meddy-  
iau ; ie, fe ddylai eich pennau a'ch calon-  
nau hefyd gofio am dano'n fawr ; bôb nos  
pan eloch i'ch gawlau, a phob boreu pan  
godoch, meddyliwch bêth yn ddisfrifol ac yn  
brudd am Angau a Thragywyddoldeb.  
Bydded yr hyn a sgrifennodd llawer yn eu  
Modrwyau, \*sef, *Cofia farw*, yn sgrifenne-  
dig a phin o haiarn ac ag ewin o Adamant  
yn eich calonnau chwi. Dywed Historia-  
wyr am *Philip* Brenin *Macedonia*, iddo ofod

gor.

gorchymwyn ar un o'i weision ddyfod bob boreu iw stafell ef, a chyhoeddi hyn, sef, *Ei fod efe'n farwol*; ac os oedd gŵr Cen-hedlig mor ofalus am gadw cof o'i farwoldeb, mwy o lawer y dylai Cristion. Nyni addylem bob amser gofio dyddiau tywyll-wch, *Preg. 11. 8.* A chadw Bywyd ac Angau, Nêf ac Uffern ger ein bron, gan nad oes onid megis cam rhyngom ni ac angeu, *1 Sam. 20. 3.* Esgeulufo ac eisiau hyn oedd pachod *Israel*, a *Jerusalem* hefyd; *Ni feddyl-odd hi am ei diwedd, am hynny y syrthiodd* *syn rhyfedd*, Galar. 1. 9. A hyn y mae Duw yr hwn a fynnai i ni gofio ac ystyried yn achwyn yn doft rhagddo trwy'r Prophwyd, *Esay 1. 2, 3.* gan alw'r Nefoedd a'r Ddaiar yn dŷt trosto. *Gwrandoewch Nefoedd*; *dym dithen Ddaiar: Yr ych a edwyn ei fedd-ianydd, a'r Assyn breseb ei berchennog: Ond Israel nid edwyn, fy mholi ni ddeall.*

Rheswm 3. *Disrifol ystyried eich diwedd addaw* (trwy *Ras Duw*) *i fod yn Gyfaredd mgorol a godidog i yrru'r drwg mwyaf ymaith,* (i'w yn fod i ddiangor rhag colled anfeidrol) *sef pechod a'i effeithian a'i ganlyniadau erchyll.*

Bêth yw'r achos o'r llifeiriant a'r mor hwnnw o ddrygioni, a'r pechodau aruthraf ag fy'n awr yn y bŷd, ac yn y Genedl hon, ym mhob Dinas, Trêf a Mangre, ac yn ythan fwyaf o Deuluoedd, ym mysg pob ilat

stat a gradd o ddynion, megis, Swyddogion Gweinidogion, Pobl, Rhieni, Plant, Meistrisiaid, Gwafanaeth-ddynion, onid hwn sef eu bod heb ystyried eu diwedd y ddyfneddwys, ac yn ddifrifol ? Hyn ydym yn ei gael wedi ei ofod i lawr yngair Duw i fod yn un o seiliau mawrion pob pechod, ac eingeuluso pob dyledswyddau.

A ydych chwi, bechaduriaid diosaf, yn credu ac yn cofio fod yn rhaid i chwi farw, a dyfod i farn, fod yn rhaid i'ch eneidiad noethion, a'ch pechodau noethion sefyll a fyr ger bron y glewaf a'r farryccaf Farnwy byw a meirw, meddwl am yr hyn a fyddai megis cyllell ar eich gyddfau, megis cleddyf ar eich dwyfronnau, neu megis lgrifen-lawn ar y pared, i attal a llestair eich gyrfawtadol ac enbyd o ddrygioni ac anwiredd.

Oh pa greulonder erchyll ac usferron, ydys yn ei wneuthur yr awr hon, a hynny y bwyllog, yn ddigywilydd, yn gyndyn, yn erbyn hŷd yn oed goleuni natur, cydwybod, a'r Sgrythyr ! Pa felldithio, dywedyd Celynniwydd, Rhegu, Cablu, torri Sabbothau Twyllo, Hudo, Lladratta ! Pa Anlladrwydd, Diffeithder, Afendid, Meddwdod moci- aidd, Cybydd-dod, Bydolrwydd ! Pa Wat- war, Gwawdio, Llid, Cynfigen, Digafedd, Balchder, Gwŷn, a Drygioni yfprydol hefyd, megis Angrhediniaeth, Didduwiaeth,

Diedi-

Diedifeirwch, Rhagrith, Ymadawiad a'r  
 ydd, Cassau Duw, ei Bobl, ei Weinidog-  
 on, ei Ffyrdd a'i Ordinhadau, sy'n amlhau  
 mhab lle! Y mae dynion yn mynegi eu  
 echodau mal *Sodoma*, ac nid oes arnynt  
 wilydd am weithredoedd anffrwythlon y  
 wyllwch; a pha ham? onid o achos nad  
 dynt yn gofod eu meddyliau a'u calonnau  
 eu diwedd.

Oh bechaduriaid truain, ac ar drangce-  
 gaeth! Goddefwch i mi (o dyner doituri  
 ag at eich eneidiau sy'n gwaedu ac yn  
 yrodd i foddi) ddeifyf arnoch megiser mwyn  
 Arglwydd, disgyn i'r bedd, ddisgyn i  
 ffern yn eich meddyliau, ac ymattal yno,  
 meddwl am Frenin Dychrynniadau, prŷf  
 ydwybod, dvnnessad y Cythreuliaid, y Llyn  
 llosg, y Pydew diwaelod, colli Duw,  
 Nefoedd, a'ch Eneidiau gwerthfawr;  
 fflamau tan poeth a diddiwedd  
 presenoldeb a chyfeilliach Cythreul-  
 Gwrthodedigion, ac Ysprydion dam-  
 Celdig; ac se fydd eich tammeidiau melus i  
 yn fustl a wermod. Y pethau braw-  
 hyn os gwir ystyrir, a fyddant mal  
 llygaid, Taranau yn eich  
 tammeidiau, mal Draiu, Piccellau a Chleddy-  
 yn eich cnawd, mal gwenwyn yn eich  
 mysgaroedd, mal tan yn eich esgyrn i'ch  
 tru a pheri i chwi'n ebrwydd attal a  
 ffirwyo

ffirwyno awen eich trachwantau Uffernol, <sup>addi</sup>  
y galloch felly ffoi rhag y llid a fydd. <sup>mæd</sup>

Pe gwnaech ddim ond gweled y bedd ty  
wyll ac oer hwnnw, ac Uffern boeth sy <sup>mæd</sup>  
agos, chwi a newynech neu a fyddech feir  
yn hytrach na rhedeg i'r gormodedd hwnnw  
o bob gloddest a chyfeddach; ni allech <sup>mæd</sup>  
chysgu na chwrnu, downfio na chwarae <sup>mæd</sup>  
fin y pwll tan y cyfryw ystyriaeth. <sup>ddyd</sup>

Eithr anghofiwch hyn oll gyrrwch ymae  
feddyliau am Dduw, Angau ac Uffern,  
chwi a redwch ac a ruthrwch i bechod, <sup>me</sup>  
gis march i'r frwydr, *Jer. 8. 6. Luc. 12. 4*  
gan weiddi, hedwch, hedwch, nes <sup>pr</sup>  
perygl, marwolaeth a dinistr, *1 Thes. 5.*

Dyma'r pechod mawr hwnnw a addi  
dodd *Gaer-Salem* i ddinystr, ac a wnaeth id  
syrthio yn rhyfedd. *Ei haflendid sydd* <sup>dyd</sup>  
*ei godren, nid yw hi yn meddwl am ei dimer* <sup>dyd</sup>  
Y mae'r Arglwydd yn achwyn trwy'r Pro  
phwyd *Esay* rhag yr un peth, *Israel* <sup>mæd</sup>  
*edwyn, sy mholi ni ddeall*: Eithr beth sy <sup>Y</sup>  
caulyn, *Ob genhedlaeth bechadurus, pobl* <sup>tri</sup>  
*thog o anwiredd, had y rhai drygionus, meibion* <sup>we</sup>  
*yn llygru, gwrthodasant yr Arglwydd, digi* <sup>aint</sup>  
*sant Sanct Israel*; *Cyltedlwch Galar. 1.* <sup>deb.</sup>  
*ag Esay. 1. 3, 4.*

Ond yr hwn a wnelo farn a chyflawnden  
hwnav a geidw yn fyw ei enaid; Pwy y  
hwnnw? Y fawl a yltyrio, ac a ddychwel  
oddiwr.

ol, se oddiwrth ei holl gamweddau y rhai a  
naeth, hwnnw a gediw ei enaid; pwy  
ynnag a ddifethir, ni ddifethir byth mo'r  
hn hwnnw, *Ezec. 18. 14, 28.*

Rheswm 4. *Istyried eich diwedd a fydd*  
*mogaeth nerthol i'ch gwneuthur yn egniol, ac*  
*ymarfer y diwydrwydd mwyaf mewn ffordd*  
*ddyledswydd; ie fe weithia yn ddiammeu*  
*reich holl ddyledswyddau, ac ar eich holl*  
*asusau; canys ystyried a gwneuthur a*  
*wsylltir yn fynych yng'hŷd, *Psal. 41. 1.**  
*Cyn ei fyd a ystyria wrth y tlawd, Dihar.*  
2. 49. *Hi a feddwl neu a ystyria am faes, ac*  
*pryn ef. Meddyliais am fy ffyrdd, neu*  
5. *styriais fy ffyrdd, a throais fy nhraed at dy*  
*stiolaethau di, *Psal. 119. 59. Galar. 3. 40.**  
h id yn os dim a'ch gwna yn ddifrifol, yn  
ddiwyd ac yn ddianwadal mewn un rhyw  
meddyledswydd, ac i weithio tra ydyw yn  
Pro dydd, cyn y delo y nos pan na ddichon  
el m eithio, *Joan 9. 4.*

Y mae'r Apostol yn ein cynggori i gyd-  
i ymannedd ei gilydd, i ymennog i gariad  
a hynny yn fwy, o gym-  
aint a'ch bod yn gweled y dýdd yn nessau,  
1. *Heb. 10. 24, 25. Cofio dýdd ein marwol-*  
a'n mynediad i Dragywyddoldeb, a  
osod hynny i weithio'n ddwfn ar y galon,  
fydd fel llais Taran yn llesaru wrth y  
echadur diosol anheimladwy, Deffro, De-  
ffro,

ffro, ti yr hwn wyt yn cyfgu, agor dy ly-  
gaid, saf ar dy draed, gwèl a chenfydd pa-  
For o waed a digofaint sy' yma ! Gwèl a  
chrèd, cred ac ystyria, ystyria ac ofna, ofna  
a ffo, a bryssia yn dy waith ; y mae dy  
waith yn dra-mawr ac yn bwysig, mae  
gorchwylion yn aml, mae gwrthwynebwyr  
yn gryfion, mae dy nerth yn ychydig, mae  
dy amser yn fyr, mae dy gyfrif yn fawr,  
mae marwolaeth a barn wrth y drws, am  
hynny cyfod a gweithia beilach neu baid.

Y Morwr halogediccaf a ochneidia, a ala-  
ra, a weddia, a eddy ac a adduned, os bydd  
marwolaeth a pherygl yn edrych yn farryg  
yn ei wyneb ef. Pan oedd y llong yn debyg  
i fyn'd yn ddrylliau, a marwolaeth yn maes  
o law yn bygwth ymaflyd ynddynt, y  
Morwyr a ofnafant yn ddirfawr, ac a lefa-  
fant bob un ar ei Dduw. A hyn a ddyfodd  
goleuni natur yn unig i Feistr y llong (er  
mai gŵr Cenhedlig ydoedd) nad oedd e'n iach,  
pryd hynny ddim amser i gyfgu ; Beth  
ddarf i iti gyfagur, cyfod, galw ar dy Dduw :  
fe allai'r ystyr y Dduw hwnnw wrthym, fu  
na'n coler, Jonah 1. 6. A'r Lladron a'r Ilo-  
fruddion hynodtaf a weddiant yn y Carchar  
neu pan ddelont ar y Crog-pren, lle di-  
henyddiad.

Pan anfonodd y Barnwr cyflawnaf ei  
Angel dinyllioli Ddinas Llundain, a lleoedd  
er.

eraill yn y flwyddyn 1665. Rhag dirfawr ofn yr hwn y ffodd llawer mil, a llawer mil a syrthiodd, sef Celaneddau dynion megis tom ar y ddaiar, ac megis dyrneidiau ar ol y Medelwr. Pan gurodd Angau wrth filo ddryfau mewn un noswaith, O pa gy-faddef pechod, ymprvdio, gweiddi a churo'n daer a fu wrth orseddfaingc Gras (ac ysgat-sydd gan lawer o ddynion a theuluoedd na weddiasant ond ychydig gynt na chwedyn.)

g. i Dduw dosfurio, maddeu a symmud y farnedigaeth gynhwynol honno oedd yn y gubo, yr hon sy'n awr ym mron myn'd anghof. Pan dybiwyd yn ddeffrous am wyr ddinystr Nineveh, y Brenin a'i Bende-  
maes a orchymynnodd, ac a gyhoeddodd  
t, Impryd, ac a archodd i bob un alw ar lefa-Dduw yn lew, *Jonah* 3. 7.

godd Bechaduriaid, pe baech yn wir deim-  
(endwy o'ch perygl, chwi weddieu yn bu-  
d eich, yn wrefoccach, yn ewillysgarach, yn  
eth ddwysfach, ac yn fwy calonnog nag y gwedd-  
duw soch er ioed o'r blaen. Perygl niewn tyb,  
hwnnw'n berygl marwolaeth hefyd, a  
maeth i Jacob wylo ac ymbil ar Dduw;  
Canys Esau a gasaodd Jacob, ac a ddywedodd  
ei galon, nessau y mae dyddian galor fy  
Rhâd, yna y lladdaf Jacob sy mrawd, Gen.  
7. 41. a Jacob a ofnodd yn fawr, a chy-  
ng oedd arnaw, Gen. 32. 7, Yr hyn a ba-  
rodd

rodd iddo fod mor daer wrth Dduw am ymwared, ac a orchfygodd, *Gen. 32. 11, 28.*  
*Hos. 12. 4.* Bechaduriaid truein ! Y mae eich cyflwr yn enbyd, (ni ddywedaf yn ddiobaith) ond ni wyddoch chwi oddiwr-tho ; ni wyddoch chwi eich bod yn druein, ac yn resynol, ac yn dlodion, ac yn ddeillion, ac yn noethion : Pe deallech eich bod yn haeddu digofaint Duw, dyrnod a cholyn

*Angau, bôb moment, fe barai hynny i chwi*  
*alw ar Dduw yn lew am nawdd a madden-*  
*ant, Job sanctaidd, pan feddyliodd efe*  
*am farwolaeth a barn, a osodes weddi i Dy*  
*weithio, ac a ddywedodd, Pa ham na fadd-yd*  
*sui fy nghamwedd, ac na fwr i heibio fy an-*  
*wiredd ? canys yn awr yn y llwch y gorweddaf*  
*O na chuddit fi yn y bêdd ; na'm cedwir y*  
*ddirgel, nes troi dy lid ymaith, na osodit am-*  
*fer nodedig i mi, a'm cofio, Job 7. 21.*

*14. 13.* Hyn hefyd a barodd i'r ddau Fre-  
*nin grafol hynny, Dafydd a Hezeciah wyl-*  
*a gweddio yn chwerwedd eu heneidiawd*  
*Tn y dyddian hynny y clafychodd Hezecia-*  
*byd farw, ac Esay y Propbwyd mab Amoz*  
*ddaeth atto ef, ac a ddywedodd wrtho, ffacl-*  
*hyn y dywed yr Arglwydd ; trefna dy Dy, can-*  
*marw fyddi, ac ni byddi byw, yna Hezecia-*  
*a droes ei wyneb at y pared, ac a weddiodd*  
*yr Arglwydd, Esay 38. 1, 2, 3.*

*Dafydd, pan gylchynodd gofidion Angau*

ef, ac y daliodd gofidiau Uffern ef, yna (eb' am efe) y gelwais ar enw'r Arglwydd, attolwg 28. Arglwydd gwared fy enaid, *Psal. 116. 3, 4.* Jonah yr hwn a gyfgai yn y Llong, a wedd- iwr- odd ym mol y Mor-fil, *O fol Uffern y gwae- uein, Apolitol Petr, a Christ ei hun yn ein hannog llion, weddio oddiwrth ystyried diwedd y Byd, d y gan ddywedyd, Diwedd pob peth a nessodd: hynny byddwch sobr, a gwiliadwrus i chwiuddiau, i Petr 4. 7.* A gwediwrch (medd iden-Dist) ar gael eich *cyfrif yn deilwng i ddiangc i efeag y pethau hyn oll, ac i sefyll ger bron Mab ddi i Dyn, Luc 21. 36.* Ac nid yw ein Hargl-faddwydd Iesu anwyl yn gorchymwyn i ni y anmeud y peth na's gwnaeth efe ei hun ; ddaftanys gan fod yn deimladwy o chwerw ac vit yrhyli gwppan digofaint ei Dad, efe a t am eddiodd, *Fy Nhad, os ym boffabl, aed y 1. 2. wppan hwn heibio, Matth. 26. 39.*

Fre- Bechaduriaid ! Goddefwch i mi ddy- wylwyd wrthych, er diofaled ac er anystyr- diau ydych, y byddai aigrcaffiad deffrous eich Eneidiau am nessad Marwolaeth a mozan, mal y waedd hanner nos i'ch cynhyr- o, fach cyffroi i geisio eich Olew i mewn ac , cantrwsio eich Lampau. Y Morwynnion call zeciai rhai ffol oeddynt yn huno ac yn ddiofa- odd digon, nes clywed y waedd ddifymmwth brawychus honno, *Wele, mae y Priod-Fab*

yn dyfod, erch allan i gyfarfod ag ef, Matth.  
 25.6. Yna y cyfododd yr holl Forwynnion bynni,  
 ac a drwsiafant eu Lampau. Y dymetl a'r  
 glaw sy'n peri i'r Gwenyn brysuro i'r Cwch,  
 sy'n dwyn yr Ymdeithydd i'w Letty, y Llong  
 i'r Porthladd; felly'r un ffynyd meddwl am  
 Farwolaeth a bair i'r Proffesswr marwaidd  
 a chysgadur syned i weddio. Pan fyddo adfyd  
 arnynt i'm boreu-gcisiaint, Hos. 5. 15.

Myfyrdod calon - ddeffrous am dragy-  
 wyddoldeb anghylnewidiol, a fydd megs  
 lleferydd o'r Cynmylau yn llefain, Prys-  
 urwch, Bechaduriaid, prysurwch, prysurwch  
 ar redeg; prysurwch megis am eich bywyd  
 yngwaith Ffydd ac Edifeirwch i ymadael  
 phechod, ac i lynu wrth Iesu Crist, heb yr hawl  
 nid oes obaith. Noah gyd-a pharchedig ofn  
 a ddarparodd yr Arch, ac a aeth i mewn yr  
 iddi i achub ei Dŷ. Pan foddyd yr holl yr  
 Fyd diofal a diyingais yn y Diluw, Heb. 11.7. haic  
 Ani yn gwybod ofn yr Arglwydd, yr ydym ysbryd  
 perswadio dynion, 2 Cor. 5. 11.

Chwychwi Bechaduriaid truein, y rhaidi  
 ni wnewch na chredu nac ystyried nesthwi  
 byddoch yn gymmwys ar syrthio i'r Pwll: thur  
 Pe bae gennych ond agen fechan i edrych i'r ddo  
 Bŷd arall, mor wrol ac mor galonnog fydd. Ddo  
 ech i gyflawni 'n ebrwydd y dyledswyddau tu-ag  
 a wyddoch? Chwi a'ch holech eich hunain  
 a'ch profech ac a'ch chwiliach eich hunain:

ddarllenech, wrandawech, syfyriech, wil-  
iech, weddiech, ofnech, garech, edifar-  
haech, ac a u fuddhaech fwy nag a wnaethoch  
erioed o'r blaen. **A** wyddoch chwi y daw y  
nos, ei bod hi yn dyfod, ac y bydd dyddiau  
gywyllwch yn llawer. *Beth bynnag a n n e l o c h ,*  
*gnewch a'ch holl egni,* Preg. 9. 10. *Yn awr*  
*cyn i'r ddeddf esgor, cyn i'r dydd fyned heibio*  
*el peisswyn, cyn dyfod arnoch lid digofaint*  
*Arglwydd, ceisiwch yr Arglwydd : Canys*  
*u fodd y diengwch, os esgeulusrch iechydwr-*  
*Prym* *gymaint ? Zeph. 2. 2, 3. Heb. 2. 3.*

Rheswm 5. *Y mae'n rhaid i chwi ystyried*  
*yn ydych Diwedd, canys yn hyn y mae cich Doc-*  
*ael a bineb mwyaef yn sesyll ;. Oh na baent ddoe-*  
*thwion, na ddeallent hyn, nad ystyrient eu diwedd!*  
*Os mynnwch fod mor ddoethion a rhagori*  
*yr holl Wyr doethion, Gwyr mowrion*  
*holl ystat a'r rhai cyfrwys yn y Byd ; mae'n*  
*maid i hynny fod trwy ystyried, a darparu*  
*myrbyn eich diwedd. Garedigion, dy na'r*  
*peth a ddylech edrych swyaf atto, canys*  
*rhaiddiwrth hyn yr ennillwch siwr fuddiant i*  
*neschwi 'ch hunain, canys fe wna i ddyn wneu-*  
*will: sur llesfad iddo ei hun, a bod yn ddoeth*  
*ch i'r iddo ei hun, Job 22. 2. Dibar. 9. 12. Gwyr*  
*fydd Ddoethineb yw deall hyn, sef bod yn ddoeth*  
*ddau ag at y peth sy cda, Rhuf. 16. 19. Bod*  
*nain ddoeth yng Hrist, sicrhau'r daioni pen-*  
*nain, yw'r Ddoethineb oraf.*

Y mae llawer o rai doethion bydol, y  
 rhai tra ydynt yn byw 'ynt yn parottoi er-  
 byn pob peth ond Angau ac y maeant yn  
 fynych yn barod i farw, cyn dechreu o  
 honynt fyw, (mewn ystyriaeth ysprydol)  
 ac onid yw yn amser anghymmwys iawn  
 a gresynol i barottoi erbyn Angau, pan fo'n  
 faich i ddŷn fyw? Ac yn ddiai y cyfryw  
 yw'r aml ddrygau sy'n dilyn henaint, a  
 na ddichon dynion gael dim diddanwch  
 ynddynt, *Preg.* 12. 1. Ac a ddywedir  
 y rhai'n yw'r unig ddynion doethion, y rhai  
 nid 'ynt ond doethion yn eu *Cenhedlaeth*  
 geisio'r Bŷd, i ymlid oferedd celwydd,  
 gwrrhod eu trugaredd eu hun, *Jonah* 2. 8.  
 I gloddio iddynt eu 'hunain bydewau, ie  
 bydewau wedi eu torri, ni ddaliant ddwfr,  
 ac yn gadael ffynnon y dyfroedd byw, *Jer.*  
 2. 13. Nid yw hyn ond dewis cerrig  
 flaeu perlau, ynnill y Ddaiar a cholli'r Ne-  
 foedd, *Matth.* 16. 26. Bod yn ddedwydd  
 tros amser, ac yn druenus yn dragwydd.

Gwir ddoethineb ac ystyriaeth ddifrifol  
 sy'n myfyrio yngylch pethau da a drwg;  
 ie y mae'n meddwl am y daioni goreu, pa  
 fodd y gall ddyfod iddo, ac am y drwg  
 gwaethaf, pa fodd y gall ei rwyltro, ei  
 ochel a diangc rhagddo, gan ddewis y  
 moddion cymhwysaf ac effeithiolaf i ddwyn  
 hynny i ben. Y Ddoethineb dduwiol a godi-  
 dog

dog hon sydd briodol a rhagorol i gyfarwyddo, *Preg.* 10, 10. Ac felly y mae yn cyfarwyddo pôb gŵr duwiol ystyriol tra syddo byw, yn ddiogel ac yn sicr i achub yr hyn sydd o bris mwyaf ganddo, sef, enaid gwerthfawr, a dâl fwy nâ dim ag sy'n ei helw ef. Pe bae'r holl Greigiau yn Berlau, yr holl Ddaiar a'r Nefoedd yn Aur; neu pe bae'r holl Ddwfr sy'n y Mor mawr wedi ei droi yn Grisiau, neu'n Feini gwerthfawroccaf ag sy'n y byd, a gofod y cwbl y naill glorian, a'r Enaid yn y clorian trall, fe bwysai'r Enaid y cwbl i lawr. Dywed ein Harglwydd anwyl nad yw ynnill holl Fyd ddim pris a dalai ei ystyried newn cyffelybiaeth i golled am un enaid, *Matth.* 16. 26. Felly y bydd rhaid i hwnnw yn ddoeth yn wir, a gafodd Flŵch i adw'r Tlws gwerthfawr digyffelyb hwn; y bydd efe'n ddiogel yn Dragywydd. *Yn ab a ennillo eneidiau sydd ddoeth,* medd y Doethaf a'r a oedd ddŷn yn unig, *Dibar.*
  
 II. 30. Ac yn ddiai yna felly y mae'r hwnn achubo ei enaid ei hun. Drachefn, y mae'r hwn sy'n ystyried ei ddiwedd, ar y cordd union i ynnill a chael y Cyfaill goraf, a wna ddaioni iddo yn ddiai pan fo rheithaf wrtho, ac yn y perygl mwyaf, sef, Duw, Crist, Angylion, Sainct, Cydwybod, a'r Sgrythyr, yn wir gyfeillion iddo. Pan

twymir unwaith y briw rhwng Duw a'r  
 enaid truan, pwy a wna ddrwg neu niwed  
 iddo? *Os yw Duw irofom, pwy a all fod i'n  
 herbyn?* Rhuf. 8. 31. *Mewn heddwrch y gor-  
 weddaf, ac yr hunaf,* Psal. 4. 8. Hefyd, y  
 mae fēn parodtoi erbyn yr anghennion  
 mwyaf, trwy roi pēth i'w gadw erbyn amser  
 treulio. Nid oedd gŵr i'w gael yn holl  
 Wlad yr *Aipht* mor ddoeth a *Joseph*, yr hwn  
 gan ragweled eu heisiau, a lanwodd y  
 Tryffor-dai erbyn blynnyddoedd y newyn,  
 Dywed *Salomon* (*Dihar.* :o. 5.) mai *syn-  
 bwyrol* yw'r hwn a gasgl ei fwyd amser haf.  
 Yltyriwch mai ieuengectid yw eich haf  
 chwi; Nid amser caelglu yw henaint a chlaf-  
 wely, ond amser treulio, ac nid ydych yn  
 ddoethion, yn ddoethion tu-ag at Dduw,  
 yn ddoethion ar lēs eich eneidiau eich hu-  
 nain, y fawl nid ydych yn cyfrif yn bennaf  
 gorchwyl i chwi farchnatta a thryffori er-  
 byn yr amser hwnnw. Y mae llawer enaid  
 truan, fel y Ceiliog-rhodyn nwytus, yn  
 neidio a llammu, chwarae a chanu tra paro'r  
 Haf, ac yn marw o newyn pan ddelo'r  
 Gauaf: Ond y mae'r enaid gwîr ddifrisol  
 ac yltyriol, fel y Wenhynen boenus neu'r  
 Morgrugyn, yn gweithio neu yn llafurio'r  
 Haf: Ac fel y ba i ddŷn roi ymaith ddiogi  
 a dysgu ei ddyledswydd, ac felly barotroi  
 erbyn yr amser a ddaw, Y mae *Salomon* yn  
 ei

ei anfon ef at y Morgrugyn, gan ddywedyd,  
*Dihar. 6. 6, 8. Cerdd a y Morgrugyn, tyd i  
 ddiogyn; edrych ar ei ffyrdd ef a bydd ddoeth;*  
*y mae efe yn parottoi ei fwyd yr haf, ac yn  
 casglu ei luniaeth y cynhauaf.* Ac felly mae'r  
 doeth o galon, sy'n marchnatta erbyn tra-  
 gywyddoldeb, yn trysori y pethau goreu  
 erbyn y dŷdd drwg, y rhai ydynt Ffafor  
 Duw, hawl yng Hriit, maddeuant Pechodau,  
 heddwch Cydwybod, stor o Weddiau, Pro-  
 fadau gwerthfawr ac etholedig, ac arwydd-  
 ion ferchog o Ffafor ei Dad, yspysrwydd  
 am ei wlad Nefol. Dyma Dryffor cuddie-  
 dig a nefol y gŵr duwiol, y hwn yn unig a  
 elwir yn ddoeth, *Micah 6. 9.*

Heb law'r pethau hyn, y mae fe'n rhag-  
 flaenu'r gwaethaf o'r drygau, sef, euog-  
 rwydd pechod, colyn angau, gofidia' Uffern,  
 dychryn Cydwybod, digofaint Duw, colli  
 Duw, ei Enaid a'r Nefoedd. Y drwg neu'r  
 golled anfeidrol a diddiwygiol hon ni ddi-  
 oddef efe byth mo honi, o waith y bydd  
 yr ystyriaeth amferol hon am Farwolaeth  
 a Barn yn fod i'w gymhwyso ef i eddiang  
 rhagddo. *Y rhai oedd barod a aethant i mewn*  
*ir Briodas, Matth. 25. 10.*

Ond ain danoch chwi y rhai ddiofal am  
 eich Eneidiau anfarwol, nad ydych yn  
 meddwl am Angau, nad ydych yn ystyried  
 eich diwedd (oni ragflaena trugaredd an-  
 feidrol

feidrol yn ebrwydd) chwi fyddwch feirw yn siccr hēb ddoethineb ; oni wnewch chwi 'ch eneidiau yn ddiogel mewn pryd, oni wnewch chwi Dduw a Christ yn gyfeillion i chwi (tra yw pobl druan Dduw yn trysori trysori yn y Nef) fail dda erbyn yr amser fydd ar ddyfod, *chwi drysorwch ddiogfaint erbyn dydd y digofaint, a datcuddiad cyfawn farn Duv*, Rhuf. 2. 5. A dyma gyflwr galarus llaweroedd o rai doethion bydol, a'r rheini hefyd swydd a gorchwyl pa rai yw cādw (pe gellid) eraill yn fyw, ief, iachau Clefydon, a rhagflaenu Marwolaeth. Yr ydys yn dal fulw oblegid *Paracelsus*, Pysygwr mawr, a gŵr cyfarwydd iawn mewn profiadau *Chymical*, ddarfod iddo ymffrostio a dywedyd, iddo gyrrhaedd i'r fath ddoethineb yn adnabod naws dynion, ac yn studio meddyginaethau, fel na byddai pwy bynnag a ganlynai ei Reolau ef, ac a gadwai ei Hyfforddiadau byth farw o un clefyd ; o ddamwain fe allai, ac o henaint rhaid fyddai iddo farw, ond efe a gymmerai arno ei gadw yn holl-iach rhag pob Clefydion, Gorchwyl hŷf iawn a thra-rhyfygus : Eithr ni allai efe yr hwn trwy Gelfyddyd a addawodd gadw eraill, ymgadw ei hun ynghanol ei oes, canys se fu farw pan oedd efe ynghylch faith a deugain oed.

Bobl druein ! gan na ellwch ragflaenu  
 Angau, eich doethineb yw ymbarottoi er-  
 y delo ef ; ac yn gymmaint na's gellwch  
 rwyddim moddion, nerth na chyfarwyddyd  
 mgadw rhag dyrnod Angau, ceisiwch tra-  
 illoch feddyginaeth neu gyfaredd yn er-  
 yn colyn Angau, fel pan fyddoch feirw,  
 a byddoch feirw yn ddiymbarottoad, neu  
 ab ddoethineb. *Canys dyn mewn anrhydedd*  
*beb ddeall sydd gyffelyb i anifeiliaid a ddi-*  
*feir, medd y Psalmydd, Psal. 49. 20.* Felly  
 gwnaeth y gwr goludog truan hwnnw,  
 mewn cam gymmeriad, yr hwn (er ei fod  
 ei farn ei hun neu eraill yn gall) oedd  
 gyfrif Duw'r unig ddoeth, yn w'r ynfyd ;  
 hwn yn gymmaint ag iddo ymbarottoi  
 unig tu-ag at amser ei fywyd, ac nid tu-  
 gat farwolaeth, a haeddodd yn dda ddy-  
 edyd wrtho, *O ynfyd, y nos hon y gofyn-*  
*dy enaid oddiwrthit, Luc 12. 20.* Nos-  
 waith dywyll yn wir oedd hi, yn yr hon y  
 lloedd efe'r ddau Fyd ar unwaith, y Ddaiar  
 Nefoedd hefyd. Ac a ddywedwch chwi  
 bod yn ddoethion, a chwithau heb  
 tyried beth a fydd eich diwedd ? Y pum  
 Morwyn a elwir y Morwynion ffol, eithr  
 ham ? O waith nad ymbarottoisant erbyn  
 yfodiad y Priod-Fab, a phan ddaethant i'r  
 ains, yr ydoedd wedi ei gau rhagddynt :  
 Ah ! dyna siommedigaeth drist ac ofnadwy,  
 Matth. 25. 10.

Ond

Ond yr enaid diwyd wedi ymbarottid  
 a'i olew yn ei lestr, a phob pêch yn bar  
 ganddo, sy'n y cyfryw gyflwr ag y gallu  
 edrych ar Angau dan wenu, o waith iddi  
 golli ei golyn a'i wenwyn marwol, ac iddi  
 ddichon ond lladd y Corph, ni all wneud fy  
 dim niwed i'r Enaid: Eithr y pechadur  
 gadurus a diosol, a ddalir yn ofnadwy, fel yng  
 daliwyd *Belsazzar* gynt gan yr ysgresiwr  
 law a ymddangosodd ar y pared; golwg  
 fyn a brawychus pa un, a newidiodd  
 liw ef, ac a gyffrodd ei feddyliau, fel yng  
 allai nai Wîn, na'i Wragedd, na'i Ordder. F  
 chadon gyffuro mo honaw, yr hwn a'i derfno  
 chafodd ei hun yn erbyn Duw y Nefoedd  
*Dan. 5.*

Bechaduriaid! Ystyriwch mai golwg  
 nadwy yw Brenin Dychrynniadau, ac  
 bydd efe i nêb yn fwy ofnadwy nag i'r  
 rhai sy a'u Nefoedd yma; fe fydd i'r cyfryw  
 rai megis rhwygo hŷd yn oed gorchuddi  
 calonnau, gwaeth na thorri aelod oddiwrth  
 y Corph; canys llawer a oddefasant golli  
 aelodau er mwyn achub eu hoedl; *O angau*  
*angau, angau, mor chwierw, chwierw, ym cofnau*  
*am danat i'r gwr sy'n esmwyth yn ei feddian*  
wun a glywn arnaf ei wrando yn dda  
ddi-

ddigon, eithr am y trydydd a grybwylodd efe, yr hwn oedd yn arfer gofod y fwyall ar wreiddyn y pren, ac ymaffyd a'r galon; ni allafi aros gwrando arnaw, canys y mae fe bob amser (eb efe) yn clwyfo fy nghydwybod.

6. Nid yw dynion yn ystyried eu diwedd, o waith fod arnynt ofni gwneuthur hynny.

1. I Bechaduriaid gwammal, y mae co-ffadwriaeth marwolaeth yn belen chwerw na oddef i fwyniant pechod fyned i wared yn felus. Am hynny y maent yn dywedyd wrth feddyliau am farwolaeth, fel y dywedodd y Rhaglaw wrth *Paul*, *Dos ymaith ar byn o amser, a phan gaffwyf amser cyfaddas, mi alwaf am danat*, *Acts 24. 25*. Meddyliau disrifol am farwolaeth a'r farn a fydd, fel yr sgrifen-law ar y pared, a oſtwng yspryd ac a dyr lawenydd y Tywylog mwyaf neu'r Gwas gwychaf yn y Býd.

2. Maent yn ofni meddwl am Angau, o waith na ddarfu iddynt ymbarottoi erbyn ei ddyfodiad ef, hynny yw, na ddarfu iddynt gredu, edifarhau, a byw yn lân-fucheddol, fel y gwnaent Dduw yn Gyfaill iddynt. Un wedi myned yn ôl llaw, a llawer cant o bunnau o ddyled arno fwy nag a allo dalu, a fydd yn ofni bwrw ei gyfrifon: felly mae pechaduriaid truein diedifeiriol sy'n nyled Duw o ddeng-mil o dalentau, yn an-wyllysgar

llysgar i feddwl am Angau, o waith y wed Angau wrthynt, Deuwch rhoddwch frif o'ch goruchwiliaeth, canys mae'n i chwi dalu'r ffyrling eithaf.

3. Maent yn ofni meddwl am Angau, o nos y pethau ofnadwy sy'n canlyn Ang- fel y mae'n perthyn i'r ddau Fyd. Yn id a wna Angau o ran a berthyn i'r Byd m sy syn iawn.

4. Y mae'n dwyn yn annocheladwy i ttodiad neu wahaniad Enaid a Chorph; fydd yn rhaid i'r ddau gydymmaith an-hyn, a fuant fyw ac a gyd-dreigliasant a'u gilydd, ac a gydbechasant tros er blwyddyn, ymado'r pryd hynny, a byw a a'n gelain farw, yn gymmwys im ond i'r bedd, ac fe fydd yn rhaid i'r id gael trigfa arall, *Job 17. 13, 14. a'r 19. lawn y gellid galw Angau yn Frenin Brynniadau, Job 18. 14.*

5. Y mae'n beth arswydus gado'r Byd, a fu mor hoff ac mor hyfryd, ac er yn yr hwn y darfu i chwi ymboeni a nro cynnifer o flynyddoedd, mewn un waith ei golli ei gýd; canys pan ddelo'r iymadael, chwi eilwch fwrrw golwg ar holl gyffuron a gawloch tan yr Haul, synnorthwyon am y Nefoedd, sef, Gwyr, tragedd, Rhieni, Plant, Ceraint, Cyfeill-Gymdeithion difyr, Aur, Tai, Tir-oedd,

oedd, Gwleddoedd melus a dainteithiol, ac  
 Bargenion hyfryd, a dywedyd, mae'n rhaid  
 i ni bellach ymadael, ewch ymaith yn dra-  
 gywydd; ni chawn ni bŷth eich gweled na  
 'ch mwynhau mwy, ni wnaawn ni na bwytra  
 nac yfed, nac ymgyfeilliachu mwy, pryn-  
 nu na gwerthu mwy: fe ddarfu ein holl  
 ddigrifwch cnawdol ac anianol, ein llawer  
 nydd a'n hyfrydwch a aethant ymaith,  
 holl fuddiant gwynfydedig i'n lechydwr  
 iaeth a derfynant yn awr. Ewch yn iach  
 foddion Gras, a holl amserau euraid cyd-  
 faddas i'n eneidiau, ewch yn iach yr holl  
 Weinidogion ffyddlon hynny a glywiom  
 ewch yn iach yr holl Bregethau nerthol aeb  
 deffrous hynny a seiniasant yn ein clusti  
 ni, ewch yn iach yr holl Sabbathau gwynfy-  
 dedig, ewch yn iach holl Gynghorion  
 Esamplau, Ceryddon a Gweddiau ein Cy-  
 feillion a'n Ceraint difrifol a chrefyddol,  
 chawn ni bŷth mwy weled wyneb Gweini  
 dog, neu wrando pregeth mwy, na drwng  
 Gras a bywyd bŷth mwy yn agored  
 dragywydd. A pheth sy'n aros ond ymaith  
 gof galarus am y pethau daionus hynny  
 aethant ymaith, a chyfrif tost cyfyng fydd  
 etto'n ol?

Oh newid a cholled erchyll yn wir! i mae  
 rhai sy'n gwneuthur y Bŷd yn gartref iddi  
 ynt, sy a'u Nefoedd y tu yma i'r Nefoed  
 adegut.

iol, ac hēb ddim rhagddarpar neu gyfran y tu  
aid hwnt i'r bēdd. Meddyliau am yr hyn a  
dra-wnaeth i wr ieuangc (llwyddiannus ddi-  
dagon yn y Bŷd) adrodd y geiriau hyn, *Os*  
*yr tra hyddaf fi byw, mi fyddaf yn wr cyfoethog;*  
*yr ynad dyma'r plâ, mae'n rhaid i mi farw;* yr  
hollsyn yn ddyladwy a fu cyn pen nemmar o  
weamser gwedi hynny.

h, 3. Nid rhyfedd fod Angau mor ofnadwy,  
dwr amys wedi Angau y daw Barn. Rhingyll  
iach w'r Angau sy'n gwysio Eneidiau euog i  
cydysfod a rhoi cyfrif ger bron Brawdle of-  
nadwy Duw. A phêth sy fwy ofnadwy i  
mudiwg weithredwr nā golwg a phresennol-  
holdeb Barnwr digofus? Tra yr oedd *Paul*  
ymrefymmu am y Farn a fydd, *Phelix* a  
wyn dychrynnodd ac a archodd iddo fyned  
orion maith; fe ddarfu i'r Athrawiaeth honno  
n Cyngwyfo ef, fel na allai aros mohoni, *Aet.*  
ol, 25.

veini Defnydd 3. Y trydydd defnydd sydd i'ch  
drwngbori, i'ch perswadio, ac i'ch cynhyr-  
ed ymiosod y ddyledswydd hon o'r fath bwys  
ymatwr ac anfeidrol mewn ymarfer. O Gare-  
nygion, mi attolygaf i chwi feddwl pêth  
sydewn pryd am awr eich marwolaeth, fel  
bo i Angau a chwi fod yn fwy cynnefin.  
r! i mae'r Cyfaill goreu ag fy gennych yn y  
fiddaf a'r Ddaiar, yn hiraethu am weled  
foedomy; *Ob na byddai gyfryw galon ynddynt,*  
aet. 5. 29. K Yn

Yn awr os mynnwch wneuthur dim yn y gwaith bendigedig hwn, sef parodtoi erbyn marwolaeth a barn, mae'n rhaid ei wneuthur ef, 1. *Ar frys.* 2. *Yn ddisfrifol.* 3. *Yn Effeithiol.*

1. Mae'n rhaid ei wneuthur ef ar Frŷs, gorchwyl ydyw o'r fath bŵys nad oes le i oedi nac esgelulio mohono tros funud o amser. Pettych ond gweled eich bôd ar gyffiniau dragwyddoldeb, ac mewn enbydrwydd beunydd o gael eich difethu yn dragwydd, chwi ymroddech i'w wneuthur ef yn ebrwydd. I'ch rhwyddhau a'ch an-nog, Ystyriwch,

1. Y mae bywyd (er anwyled ac erif y gwerthfa'n rocced ydyw) yn ansiccr iawn. Pa ddiddim yw'r bywyd hwn ? Gwyn, agw Tarth, Breuddwyd, Anadl, Clôch ar ddwfr, arw

Pa gynted y torrir yr edau, y rhêd ym awr-leitr, neu y tywylla'r Lamp ddisglan hon sy'n llosgi, neu'r a'n nissodd, pa brŷd arw pa fodd, neu pa le y terfyna'r bywyd byn arw darsodedig hwn, ni wyddoch chwi ; pa ddr un ai gartref ai oddi-cartref, ym mysg eidi A Cyfeillion ai ym mysg dieithriaid, yn y 2. maes ai yn y tŷ, wrth y bwrdd ai yn ymioes gwely, pwyaŵyr ?

2. Gall Angau ddyfod yn ddisymmwth Pa brŷd y gefyd y March gwelwlas allan, a'r boreu, ai hanner dŷdd ai hanner nos, a wya

yn all nēb synegi i chwi. Y mae awr dynghed-  
fennol rhag yr hon ni ddichon nēb ddiang-  
d ei d, *Luc* 12. 20. *Psal.* 73. 18, 19. *Psal.*  
In 64. 7. *1 Thes.* 5. 3. *1 Cor.* 10. 13.

3. Pan ddēl Angau fe dery'n sicer ; Y  
mae'r Brenin Dychrynniadau hwn ar y  
March gweblas bōb amser yn marchog-  
d oeth ei gylch, ac yn lladd pa le bynnag y  
arwlo : nid oes un Darian nac Aftalch, nac  
en-arsau profiadol a all ein hymddiffyn, nac  
ynges, na llu neu fyddin o ddynion neu Ang-  
thunion. Os caiff Angau ofnadwy Frenin  
ei Orseddfaingc, neu Gardottyn ar y  
Dommen, yr un peth ganddo ef. Ni chy-  
c erif y Lefiathan mawr hwn, Angau, nerth  
awr pe byddai cyn gryfed a *Samson*, mwy  
gwellt ; mae Angau yn gwneuthur ei  
dwin yn fuan, yn hawdd, ac heb edrych yn  
ed y neb neb. Mi anghwanegaf yma,

1. Mae galwedigaethau, rhybuddion ac  
arwm Angau yn aml iawn ; nid oes un o  
moch na alwyd arno, ac na churwyd wrth  
lawer gwaith, i beri i chwi feddwl  
Angau.

2. Y mae Gorchymynion Angau yn  
lioed, fe ddaw a'i Writ gŷd ag ef. Angau  
ddaw yn Enw'r Barnwr ofnadwy, ac a  
mmer ei Gommissiwn o Lys y Nefoedd,  
mwyn cyflawni a gwneuthur Deddf dra-  
wyddol a diadlam, fel y bydd yn rhaid

iddo efe wneuthur ei waith a chael ei neges,  
Pe bai gan ddŷn Fŵn-gloddiau o Aur ac  
Arian i'w rhoi, ni allent waredu mo honaw  
rhag gafael y Rhingyll anymbilgar hwn.

3. Y mae Gorfodau Angau yn fawr, *My a wn y dygi di fi i farwolaeth, ac i'r ty rhag derfynedig i bob dyn byw, Job 30. 23. Pa a fydd byw, ac ni wel farwolaeth? Psal. 89. 48. Gosodaist ei derfynau fel nad âl trostym Job 14. 5.* Y rhai a oresgynnasant Frenhiniaethau a Gwledydd, ac a ddygasant cwbl o'u blaen, a ddarostyngwyd gan Angau. Pan ddel Angau a llindagu gwr er p bae y balchaf, y dewraf a'r cryfaf yn y Byd fe fydd yn rhaid iddo syned o'i fodd ne o'i anfodd, yr un ydyw gan Angau. Y ydys yn dal sylw am ddynion drygion nad ydynt yn rhoi eu heneidiau i fym eithr eu tynnu allan yr ydys. *Pa obaf sydd i'r rhagrithiwr, er elwa o honaw ef, pa dynno Duw ei enaid ef allan, Job 27. 8, Corwynt a'i lladratta ef liw nos. Y nos ba y gofynnant dy Enaid, Luc 12. 20. Ni er Angau un noswaith. Nid yw ond oedd iddynt hwy y rhai sy'n gryfion ac yn heidddwywedyd wrth Angau, Dôs at yr wynebau culion rhychiog, at y pennau llwydion at y gruddiau gwyrleision, at y cefnau llymion, at yr eisgyrn sychion, at y bronnnau hysbion, na chyfwrdd a'r gŵr ieuang hwn.*

tharo'r llangces lan-brydweddol hon, y  
 ym mlodau a thegwch ei Natur. Dos at  
 Cleiriach darfodedig accw, y sy ar ei  
 gwydd, yn llesg ac yn barod i farw ; Dos  
 y Wrach wan accw sy wedi gwywo, gad  
 mi fod yn esgusodol. Ond nid yw Angau  
 prisio hyn. Canys y mae'r Goresgynwr  
 mawr hwn Angau yn euro cyn fynyched  
 wrth ddrws y gwr ieuang a drws yr hen  
 raig. Y mae Angau yn dala ac yn dwyn  
 maith y cryf, y cyfoethog, y goludog, yr  
 rhydeddus a'r dyligedig yn garcharorion  
 bedd, cyn fynyched a'r gwan, y claf, y  
 hawl, y gwael a'r anwybodol.

2. Mae'n rhaid i chwi ei wneuthur ef yn  
 ddirifol, a'ch holl Eneidiau : Y byw a'i  
 esyd at ei galon, *Preg. 7. 2.* Ni all y  
 eirw, nid oes dychymmyg yn y bedd :  
 m hynny ewch yn ei gylch ef yn awr  
 brysur, cyn del henaint ac Angau.

3. Gnewch ef yn *Effeithiol*, ewch trwy'r  
 waith, na adewch mohono heb ei wneuthi-  
 neu yn hanner ei wneuthur ; marw-  
 ch bob trachwant, cyflawnwch bob  
 gledswydd, ac ymarferwch bob gras. Ni  
 aeth ei adael heb ei ddechreu, na'i adael  
 bei orphen. Yn awr y mae amser cy-  
 das o'ch blaen chwi, y mae dŷdd Gras  
 parhau, y mae Crist wrth y drws, agor-  
 iddo a gnewch bob peth yn ddiogel ;

canys os cewch bŷth faddeuant, eich cyf-iawnhau a'ch sancteiddio, mae'n rhaid i hynny fod yn awr. Bellach y canlyn Anno-gaethau i'ch annog i ystyried eich diwedd.

*Annogaeth 1.* Ystyriwch fod angenrhaid perffaith ac anghyfrannol yn gofod arnoch wneuthur hynny, angenrhaid presennol, angenrhaid anfeidrol a thragywyddol; pethau erailli a ellir eu gwneuthur, hwn sy raid ei wneuthur, ac y mae hi dros ben y pryd y gallafai'r gwaith mawr hwn fod wedi ei wneuthur a'i orphen. Pennaf gorchwyl ag sy gennych yn eich bywyd yw ymbarotio mewn amser ac yn gywir erbyn marwolaeth a barn. Gwell a fuasai bod eich holl orchwylion eraill yn y Bŷd wedi eu hesgeuluso yn llwyr, megis, Gŵr, Gwraig, Plant, Prynnu, Gwerthu, Gwanwyn, Cynhauaf, wedi eu gadel yn ol, a gollwng i'r cwbl syned yn ofer, nag anturio, colli a difethu eich Eneidiau; canys hyn yn ddiammau a ddinyfrisia Gorph ac Enaid bŷth ac yn oes oesoedd.

O meddyliwch o ddifrif cyn lleied a wnaethoch yn yr amser a dreuliafoch o'ch bywyd, ac mor anabl a fyddwch i wneuthur dim yn niwedd yr amser, pan ddeloch i'letteua i'r Bedd. O cofiwch ddyddiau tywyllwch, canys llawer fyddant, *Preg. 11. 8.*

Ni wnaeth y rhai fu yn y bedd fil o flynyddoedd ddim, ac ni ellwch chwithau wneuthur dim wedi y deloch yno. Bellach am danoch chwi, y fawl a suoch fyw, rai ugain, ddegarhugain, ddeugain, ddeg a deugain neu drugain o flynyddoedd, ac heb wneuthur dim tu-ag at ymbarodtoi erbyn eich cyflwr tragicwyddol, y mae 'n llawn bryd iddechreuar gwaith.

Y mae'r rhan fwyaf o honoch mor anneillus, a pheidio ylliyried na meddwl am Angau, nes clywoch Gloch, neu ganfod Bedd neu Arch, nes delo angau o fewn eich parwydydd, a churo wrth bennau eich Gwlau : nes gweloch Gar, Blentyn, Frawd, Wr neu Wraig yn trengu ac yn marw, nes gweloch hwynt yn oeri ac yn griddfan a'r trangcedigaeth, nes paro'ch llygaid fel yn i'ch calonnau feddalhau, mae'ch calonna'u'n anfynych yn meddwl am eich marwoldeb : Yn awr gan fod yn rhaid gwneud y peth, a'i wneuthur yn fuan hefyd, s'mrowch er gwaethaf Dynion a Chythreuaid, a'r holi Fyd, fyned yng'hŷd a'r gwaith.

Annogaeth 2. Ystyriwch, y gallir ei wneud; ef, yr ydych fel y galloch ei wneuthur; bendigedig fŷth a fyddo Gras Rhad.

1. Mae amser a chyflwr eto o'ch blaen  
Bw. Mae'r Ganwyll yn llosgi a'r Haul

yn tywynnau, y mae etto'n ddýdd, er nad yw yn foreu, y mae peth Tywod etto'n ol, er nid llonaid yr Awr-Lester. Y mae rhai o honoch yn hen, yn gloffion, ac yn fyddariaid, eithr níd yn feirw; eraill yn weinion, yn gleifion ac yn nychu, eithr yn fyw. Pe bae'r Haul wedi machludu, y Ganolwyll wedi diffod a'r Awr-lestr wedi rhe-deg, canu yn iach fyddai raid i bob gobaith am y Nefoedd, neu newid eich cyflwr býth bythoedd. Y rhai a aethant i wared at y meirw, ac ydynt ym mysg y rhai damnedig, a allant, ac ydynt, mewni poenau, y meddwl am y cyfle a gynnygiwyd iddyn unwaith i'w gwneuthur yn ddedwydd, eithr ni allant alw dim yn ol; mae hynny yn amhosibl.

2. Mae Duw yn fodlon i'ch cynnorthwyo, os ewch atto ef; *Efe piau'r nerth*, ac efe a'i rhydd i'r dirym, *E/a. 40. 29.* Ni piau'r ddyledswydd, Duw piau'r Cymorth a'n Llwyddiant. Duw yr hwn a roddes i chwamser i ystyried, a ddichon hefyd roi i chwamser ieneidiau i ystyried; ewch atto ef ar eich gliniau a deifyfwch megis a'm eich bywyd ei gymorth parod, a dywedwch fel y dywedodd y Wraig ddoeth wrth *Ddasydd Cynnorthwya*, *O Frenin, 2 Sam. 14. 4.* Neu fel y dywedodd y Tad tros ei fab cystuddiedig, *Marc 9. 22.* Os gelli di ddim, cymorth ni.

ni. Crist an cynnorthwyodd ni ; ei addewid ef yw, *Ceiswch*, a chwi a gewch. Ond ni ellir dywedyd felly am Eneidiau a ymawdasant a'r Bŷd, o waith fod amser a moddion wedi myned ymaith tros bŷth oddiwr-thynt.

Yna yn Enw'r Arglwydd, rhyddhewch eich hunain fel gwŷr, gwŷr doethion, sy ganddynt Eneidiau gwerthfawr, rhesymmol ac ystyriol, sy'n gwneuthur gwhan rhyngoch chwi ag Anifeiliaid ; gadewch i'r Tlws ardderchog hwnnw sef Rheswm, weithio trwy ystyried eich diwedd ; canys ystyried sydd weithred neu ymarfer difrifol, taer a bywiog o'r deall, ynghylch pethau i'w gwneuthur, neu beidio eu gwneuthur, yn rhwyddhau neu yn llestair eu gwneuthuriad fel y gwelo yn dda. Ymarfer y meddwl a'r galon ydyw, y mae y rhai'n ar waith yn iau'yr ystyried Duwiol hwn. *Myfyrnod* (fel y mae un yn dal sylw) sy'n edrych ar bethau, megis yr olwg ar y gwrthddrych ; *Barn* sy'n adnabod pethau pa'r un ai da ai drwg eich ydynt ; eithr ystyried sy'n chwilio'r gwirionedd ym mhellach. Gosodwch ystyried i fel weithio, ac nid fel anifeiliaid, gadel i'ch llygaid, i'ch clustiau, i'ch trachwantau a'ch Newydd sylhwyrau eich arwain, eithr ymddidden-udd wch a'ch calonnau, ystyriwch eich ffyrdd, meddyliwch am eich gweithredoedd, ac

edrychwch at eich diwedd, yr hyn pe gwnaech ni syddech mor gnawdol, ac mor bechadurus, ag a fuoch ac ydych, *Esay* 1. 3.

*Annogaeth 3.* Ystyriwch mai ei adel heibio neu ei esgeulufo, a'ch gwna chwi yn waethaf o'r ynsydion. Os ei wneuthur yw y doethineb pennaf, mae'n rhaid mai peidio ei wneuthur yw'r ynsfydrwydd mwyaf; hyn a'ch gwna fel *Ephraim* yn Golominen ynsyd hēb galon, *Hos.* 7. 11. A wyddoch chwi fod yn rhaid i chwi farw, a marw ond unwaith? Ac oni wnewch chwi eich goreu er gwneuthur y pēth hwnnw yn dda, na ellir gwneuthur mo honaw'r ail waith? Mal y dywedodd *Luther* wrth ei wrthwyneswyr, *Ni ellwch chwi fy lladd i ond unwaith, ni ellwch chwi fy nghyfodi i fywyd trachesn, a'm lladd i'r ail waith.* Felly y dywedaf finnau wrthych chwithau, Chwi bechadur-iad truein, pan elo'r ffün allan o'ch genau, ni ddychwel mwy.

Oh ystyriwch a chalon ddychrynnedig, pa faint sy'n ymddibynnu ar y marw hyn unwaith! sef, ynnill neu golli eich eneidiau gwerthfawr ac anwyl, ynnill neu golli ffafor Duw, mwynhau Duw; llawenydd y Nef, neu boenau Uffern sy'n sefyll arnaw.

Pan ddēl Angau fe fydd eich tragedywyddoldeb wedi ei fwrw; chwi gewch weled a gwybod

gwybod y munudyn nessaf ar ôl i chwi saethu allan i'r Gagendor du ac erchyll, bêth a fyddwch, a pha le y byddwch hyd bôb dragwyddoldeb. Ac a fernwch chwi mai dynion y ddaiar, neu'r rhai doethion bydol yw'r dynion callaf, y rhai sy' yn gofalu am y Corph, ac yn esgeuluso'r Enaid? Y rhai sy' yn gwneuthur rhagddar bod tros Amser, eithr nid tros dragwyddoldeb? O Garedigion, pe gallech ond dilyn eu hól i Glafwely, i Wely-angau, oddiyno i dragwyddoldeb, ac at frawdle erchyll Duw, fe fyddai yn hawdd i chwi farnu bêth ydynt, Jer. 17. 11. Luc 12. 20. a'r 16. 22, 23. Datc. 6. 15.

Annogaeth 4. Mewn ychydig iawn o amser my fydd eich cynnorthwyon, a'ch maenteision presennol, nerthol a deffrous, i'ch cynhyrfu ac i'beri i chw i gofio am y Bŷd arall, wedi myned pnaith a'ch gadel chwi. Ar rheini yn bennaf ydynt dri, sef, 1. Ordinhadau deffrous. 2. Rhagluniaethau deffrous. 3. Ceryddon deffrous.

1. *Ordinhadau deffrous* a gant eu diwedd. Gweinidogion ffyddlon a nerthol yr Esgengyl, sy'n gwiliad tros eich eneidiau, a swydd y rhai yw tano'r Bigynau, a rhoi'r Alarwm, a orphennant eu gwaith, ni wyddom ni pa gynted. Y Boanerges hyn a Chenadon yr Arglwydd, sy'n pregethu Athrawiaeth syn a brawychus Marwolaeth a Barn,

Barn, a hynny trwy lefain uchel a dagrau prudd, taerni a gwresogrwydd yspryd, i beri i chwi ddeall eich pechodau a'ch enbydrwydd, a elwir adref ar fyr. *Moses* y prophwyd mawr hwnnw, wedi iddo gyfanoedd i'r Gan o didog hon (rhan o'r hon yw fy Nhestun) a gasglwyd at ei Dadau. *Noah* y pregethwr cyflawnder hwnnw, wedi iddo tros lawer blwyddyn yng hŷd rybuddio'r hên Fŷd, a alwyd i'r Arch, ac ni chawsant hwy bŷth bregeth yn rhagor, nes daeth digofaint Duw am eu pennau, ac nid oedd ymwared, 2 *Petr* 2. 5. Am hynny na fyddwch fel eich Tadau, y rhai y galwodd y prophwydi o'r blaen arnynt, gan ddymed yd, dychwelwch oddiwrth eich ffyrdd drwg, canys nid oes ganddynt ddiin llawer o amser i alw; Nid yw y propkwydi yn byw bŷth, *Zech.* 1. 4, 5. Ni ellwch wrth reswm ddisgwil gwrando bôb amser hyfryd lais Clŷch *Aaron*, neu fain yr Udeorn arian; fe fachluda'r Haul ar y prophwydi: Am hynny tra fo'r Gwiliwyr ar y Mûr, cymmerwch rybudd, a gorphennwch eich gwaith tra fo'r goleuni gennych. Oh Garedigion, gwnewch y gore'tu-ag at eich mantes tragicwyddol o'r Pregethau eglur a nerthol hynny, a'r ydych yn eu gwrando a'u darllen, ac na chyfrifwch n o honaw yn bregethu deddfol. Pwy a fu deftach yn eu Pregethau na'n Harglwydd a'i

ni Gennadwr ? Yr hwn a ddylem ni ei ddi-  
 yn, onide ni a dynnwn y pechod erchyll o  
 luogrwydd gwaed ar ein heneidiau, *Ezec.*  
 18, 19. Yr ydys yn sylwi fod mwy o  
 Athrawiaethau dychrynnedig wedi eu  
 gwasgaru yma ac accw yn y *Testament*  
*Newydd*, nag yn yr *Hén*, cymhwysfo y rhai  
 nerthol sy angenrheidiol iawn yn gystal  
 ar les pechaduriaid diofal, a Sainct cysiga-  
 durus. *Dafydd sanctaidd* wedi ei gwyp, a  
 yrrhiodd mewn trym-gwsg, ac ni ddeffrodd  
 es daeth *Nathan* y prophwyd, a dywedyd  
 vrtho'n eglur ac yn neilltuol am ei bechod.  
 Ac am y Morwynnion, yr ydym yn darllain,  
 Tra'r oedd y Priod-Fab yn aros yn hîr, yr  
 sepiasant oll ac yr hunafant, *Matth. 25. 5.*  
 Opa nifer o eneidiau cysgadur sy'n y Bîd,  
 ac yn llawer o Ddinafoedd, Trefi a Phlwyf-  
 yn y Genedl hon, a gwynant yn dost  
 naill ai yn fyw neu'n farw, neu wedi marw,  
 am na wnaethant y goraf o lafur eu Bugeil-  
 aid ffyddlon !

2. Eich holl *Ragluniacthau deffroun*, trwy'r  
 thai y mae Duw yn eich galw ac yn eich  
 thybuddio, a gant eu diwedd. Fe fu y  
 Duw mawr a gogoneddus tros hîr amser  
 i nghîd yn llefaru ac yn galw arnoin trwy  
 ei Air, ac yn ddiweddar o amser fe lefarodd  
 trwy ei wialen ofnadwy, a hynny'n erchyll  
 aawn. Y Cleddyf, y Pla, y Tan, amhariad  
 Celfyddy-

Celfyddydau, a Barnedigaethau eraill, ydym i  
 Leferydd croch Duw digofus. Y Cyfludd iau hynny ar ein Teuluoedd, ein Ceraint, i spy  
 ein Meddiannau a'n Personau, ydynt i geisio'n deffroi o'n cŵsg, ac felly er budd i ni rech  
 Pan oedd *Manasseh* mewn dyrysni, ac yn rag  
 rhwym a dwy gadwyn, ac yn cael ei ddwymiad,  
 i *Babilon*, efe a weddiodd ger bron yr Ar, na  
 glwydd ei Dduw, ac a ymosfyngodd yn cym  
 ddirfawr, 2 *Chron.* 33. 11, 12, 13. Wedi  
 cospi *Ephraim*, efe a ddeffrodd, a ddych i rot  
 welodd ac a edifarhaodd, *Jer.* 31. 18, 19. tria  
 Canys rhwymau a rhaffau gorthrymderol y  
 ydynt yn agoryd y clustiau i dderbyn ce-  
 rydd; yna efe a ddengys iddynt hwy eu fil H  
 gwaith, a'u hanwiredau, ac a ddywed am dyn  
 droi o honynnt oddiwrth anwired, *Job* 36. 8, 9, 10. Yn awr bod yn glust-fyddar wrth y  
 Wialen a'r Gair, ymgaledu a diofalhau,  
 a myned ym mlaen mewn pechod tan Rag-  
 luniaethau deffrous a syn, sydd farn of-  
 nadwy, a'r hon sy'n addfedu dynion i ddi-  
 nistr, 2 *Chron.* 28. 22. *Hwn* yw'r Brenin  
 Ahaz, Yr hwn yn yr amser yr oedd yn gysyng  
 arno a chwanebodd drossedd yn erbyn yr Ar-  
 glwydd, *Jer.* 5. 3.

3. Eich *Ceryddon deffrous* a gant eu di-  
 wedd hefyd. Y gweithrediadau dirgel a  
 nerthol hynny, ymryson ac ymdrechiadau  
 Yspryd Tuw tan y Wialen, ac yn y Byd a

dynnalir. Ni fydd Crist bob amser wrth y  
 uddwrs yn galw ac yn curo, ac ni bydd i'w  
 aint spryd ef, yr hwn a driithawyd ac a wrth-  
 gei, ynebwyd mor fynych, ymryson ac ym-  
 i ni rech a'ch calonnau a'ch Cydwybodau yn  
 cyswagwydd, *Gen. 6. 3.* Yn awr bechadur-  
 wyd, od oes gennych ddim cariad tu-ag  
 Ar, na phris am eich eneidiau anfarwol, cyn  
 i yn cymmerir ymaith yr holl gynnorthwyon  
 Vediyn, byddwch ddoethion i ystyried, ac i  
 ych ymroddi erbyn eich diwedd, rhag i Dduw  
 19. triadu'n ebrwydd, a dywedyd wrthych,  
 inderal y dywedodd efe wrth yr Iuddewon,  
 cefn. 1. 5. *I bâbêth i'ch tarewir mwy?* Neu  
 y euwl *Hos. 4. 17.* Ephraim a ymtoffyltodd ag  
 amalynod, gad iddo. Hwy a fyuant gael eu  
 36. achwantau, ac hwy a'u cant. *Fel mai byw si*  
*wrth yd yr Arglwydd, ni lanheir yr anwedd*  
*hau, m, hyd oni byddoedd feirw,* *Esay 22. 14.* Gan  
*lagnathycia dim, yr wyf yn bwriadu, medd*  
*of uw, na chant glywed bŷth mwy un bre-*  
*ddieth ddeffrous i chwilio eu heneidiau, ni*  
*enin cant bŷth mwy Gerydd neu Argyhoedd-*  
*syng d'hŷd onid elont i Uffern.*

Ar-

di- Annogaeth 5. *Ystyriwch y bydd taer-ym-*  
 l a *dagrau a giveddian'r anffyddloniaid, pan*  
 l a *elont i feirw, yn ofer, yn ddiffrydol ac yn*  
 l a *llwyddiannus.* Er pe llefarech ynghyfng-  
 d a *reich eneidiau, ac achwyn yn chwerwedd*  
 at- *eich*

eich ysprydion, pan ddolurio eich cnawd arnoch, ac y galaro eich eneidiau ynoch, ni thal hynny ddim, *Job 14. 22.*

Chwychwi y rhai ni foreu-godwch at Dduw, ac ni weddiwch ar yr Holl-alluog, y rhai ni weddiwch tra fo gennych amser i weddio, cymmorth i weddio, iechyd i weddio, ac annogaethau i weddio.

Y mae Duw'r awr hon yn gwahodd, chwi ellwch gael eich gwrandaw; ni fydd eich gweddiau yn awr Angau ond egluriadau eich ofn a'ch dychryn, yn tarddu oddiwrth ymsyniad ac agofrwydd eich enbydrwydd, pan na fyddo ond megis cam rhwng eich eneidiau wedi ymael, a bod ynghyflwr y Cythreuliaid: Anfynych y mae Duw yn clywed oddiwrth rai dynion, oni ddaw trallod, clefyd, ofn, cyfyngder a chyni arnynt. Poen a wna iddynt y pryd hynny weddio, ac udo ar eu gwblau; ac nid ydyw ond udo, nid gweddio, *Hos. 7. 14.* Eithr a wrendu Duw ar ei lef, pan ddelo cysyngder arno? Medd *Job 27. 9.* Na wna, medd yr Arglwydd, ni fynnar gennych ymofyn a mi, *Ezec. 20. 3.* O waith ei fod yn dyfod o feddwl drwg, neu anadl drewedig, o galon lygredig, bwdr, felldigedig, ac yna mae'n rhaid ei bod hi'n ffiaidd, *Dihar. 15. 8.* a'r 21. 27. Golchaf (medd Dafydd) fy nwylo mewn diniweidrwydd, ac yna'r amgylchynaf

ay

dy allor ; canys pe edrychafn ar anwiredd yn  
 sy nghalon, ni wrandawsai'r Arglwydd fy  
 ngweddi, Psal. 66. 18. Os ni wrandawsai'r  
 Arglwydd weddi Dafydd, yr hwn oedd wr  
 wrth fodd calon Duw ei hun, ni wrendy  
 efe weddi Cythraul, na gweddy Tyngwr,  
 Torrwr-Sabboth, na Meddwyn, nid yw  
 efe yn gwrando pechaduriaid sy'n hoffi ac  
 yncaru eu trachwantau. Nac ydyw, medd yr  
 Yspryd glan, er iddynt fy ngheisio i yn fo-  
 reu, ni'm cant. Ymma nodwch, fod dau  
 fath o foreu, boreu Duw, a boreu dŷn.  
 Boreu Duw sy ym moreu ein bywyd, yn  
 amser ieuengtid, y pryd hynny y mae Duw  
 yn galw ac yn gwahodd i ddyfod, Dihar.  
 1. 24. Preg. 12. 1. Boreu dŷn sy yn y pryd-  
 nhawn, neu yn niwedd bywyd, neu pan fo  
 dŷn yn agos at farwolaeth, pan ddel poen,  
 gofid a chaledi arno. Pan fyddo adfyd ar-  
 nynt i'm boreu-geisiant, Hos. 5. 15. Pan ddel  
 yr byn yr ydych yn ei ofni megis destryw, ac  
 y del eich dialedd megis Cor-wynt ; yna y gal-  
 want arnaf, ond ni wrandawaf ; yn foreu i'm  
 ceisiant, ond ni'm cant, Dihar. 1. 27, 28.  
 Duw a ddywed wrth yr holl gyfryw becha-  
 duriaid, cofiwch hyn, fel y dywedodd Isaac  
 wrth Abimelech, Gen. 26. 27. Pa ham y  
 daethoch chwi attaffi ? Gan i chwi sy nghassau,  
 am gyrru oddiwrthych : Neu efe a ddywed,  
 fel y dywedodd efe gynt wrth feibion Israel,  
 pan

pan ydoedd yn gyfyng iawn arnynt, Ewch a llawer ar y diwian a ddevisafoch: gware-dant hwy chwi yn amser eich cyfyngdra; eithr mysi ni waredaf chwi, Barn. 10. 14. Fe ddarsu i chwi wasanaethu'r Cythraul, fawrhau'r Bŷd, fodloni eich Trachwantau, gyffylltu a'm Gelyniôn; ewch at y Cythraul, ewch at eich Trachwantau, ac at eich Cyfeillion drygionus, gware-dant hwy chwi yn eich cyfyngdra. Yn awr y mae Angau a'r Cythreuliaid yn dyfod i'ch nol, ni ymarddelaf si a chwi na'ch gweddiau, eich eneidiad a'm ffieiddiasant, a'm henaid innau a ch ffieiddiau chwithau a'ch gweddiau, Ewch ymaith oddiwrthyf, nid adwaen chwi.

Annogaeth 6. *Mawr ddiddanwch buchedd y Duwiol yw gobeithio, a gwybod ei fod efe'n gymmwys erbyn Marwolaeth.* Beth bynnag a fo ei ran a'i gyfran yn y Bŷd hwn, fod yn sicr y bydd yn dda arno yn y Bŷd arall. A ydych chwi mewn cyflwr o Ras, ar ddarfod a phechod, ac mewn gwîr gariad a Christ a Sancteiddrwydd; cymmerwch gyffur, ewch ymaith, a bwyttewch eich bara trwy lawenydd, ac yfwch eich gwin trwy orfoledd calon, canys chwerwder marwolaeth a aeth ymaith. Brenin y Dychrynniadau, yr hwn oedd a gallu marwolaeth ganddo, a orchfygwyd gan Arglwydd y bywyd.

bywyd. Angau ofnadwy sy'n marchog-aeth ar y March gwelwlas, a dynnwyd i lawr oddiar ei farch gan eich Arglwydd hygar sy'n marchogaeth ar y March gwyn, tan groes waedlyd yr hwn y geillwch ei weled ef wedi ei ddiarfus, yn archolledig ac yn farw: Angau, yr hwn a deyrnafoedd o Addaf hŷd Moses a lyngcwyd yn awr mewn buddugoliaeth i Cor. 15. O law y bedd yr achubaf hwynt; oddiwrth angau y gwaredu hwynt: Byddaf angau i ti, ô angau; byddaf dranc i ti, y bedd, Hos. 13. 14. Y mae'r enaid sy'n credu yn farw gŷd-a Christ tra ydyw yn fyw, Rhuf. 6. 8. Ac a ryddhawyd nid yn unig oddiwrth ddamnedigaeth, eithr hefyd oddiwrth arglywyddiaeth pechod, ac y mae gobaith yn ei farwolaeth: Pan fyddo marw fe fydd marw yn yr Arglwydd, Datc. 14. 13. Efe a hunan yn yr Iesu, i Theff. 4. 14. Ei ddiwedd fydd tangneddyf, Psal. 37. 37. Hyn a wnaeth i'r Apostol ar ol ei ymdrech doft, orfoleddu tros y gelyn diweddaf hwn yr Angau, i Cor. 15. 55.

Annogaeth 7. *Pe nid ymbarottoech erbyn marwolaeth, eto chwi a ddymunech i chwi ymbarottoi* (fel y mae llawer yn dymuno pan fo hi'n rhy ddiweddar.) Chwi y fawl ydych yn gwneuthur rhagddarbod tros y cnawd, ac yn rhedeg i'r Byd a'i bethau mor daer,

daer, pan i'ch bwrir ar glâf-welu, chwi ddymunwch yn nygn boenau eich meddyliau, a flammau dyehrynn, O na buasem ni yn ymadael a'n pechodau ! O na buasem yn ofalus i ryngu bodd ac i anrhymeddu Duw, ac i geisio hawl yn Iesu Grist ! yna y buasem ni yn awr feirw o farwolaeth yr union ; eithr hyn oll a ddarfu i ni ei ddi-brisio'n gwbl, wy ddarfu i ni ymlid y Bŷd a'n holl egni, a chasglu cynnifer o byunau i'n hiliogaeth, ac a fuom byw mewn bywyd llawen a difyr ; eithr am ein heneidiau, am ein Tragywyddoldeb, pethau gwerthfawr anfeidrol, ni wnaethom ni ddim, fe ddarfu i ni ollwng ein heneidiau yn anghof. Yn awr dyma gennad Angau yn dyfod i'n hol ni, i garcharu ein Cyrph yn y bêdd, stafelloedd y tywyllwch, ac i ddwŷn ein Heneidiau, ni wyddom i ba le, i Uffern mae arnom ofn ; *Oh na buasem ddoethion i ddeall hyn ! I ystyried ein diwedd !* Bêth a roddem ni'n awr am gael byw ychydig o flynyddoedd yn rhagor, i wneuthur rhagddar bod tros yr Eneidiau hyn, sy raid iddynt fyned yn awr i Gagendor Tragywyddoldeb diddiwedd.

Annogaeth 8. *Ystyriwch y Budd, yr elw o ystyried eich diwedd yn fawr iawn : fel yr ymddengys wrth y pethau neilltuoll hyn sy'n canlyn.*

I. A

1. A fynnech chwi gassau pechod megis Uffern, a bod yn fwy gwir lan fucheddol, *ystyriwch eich diwedd*. Hyn sy dra diammeu fod holl rag-gennadon a chanlynwyr erchyill marwolaeth, yn tarddu ac yn tyfu allan o'r gwreiddyn chwerw hwn. Bêth sy 'n ar-cholli, brathu, poeni a lladd? Bêth sy'n dwyn clefydion, ac yn bygwth marwolaeth? Yn lladd y corph ac yn damnio a llosgi'r enaid? Bêth sy'n peri i chwi o anghenrhaid arfer Phyfygwr a Phyfygwriaeth tra fyddoch byw? Ac yn eich dwyn i Ysgrin a bedd, pan fyddoch feirw? Onid y pechod yr hwn yr ydych yn ei fawrhau yn eich monwesau?

Chwi bechaduriaid truain, deillion a siommedig, er lleied ac er hygared y mae pechod yn ymddangos ger bron eich llygaid gwammal, Mam a Mammaeth eich holl drueni ydyw, wedi ei ddeor yn Uffern, had neu dom y Diafol. *Yr hwn sydd yn gwneuthur pechod, o ddiabol y mae, i Joan 3. 8.* Hwn yw'r peth drwg a chwerw hwnnw sy'n llusgo Marwolaeth ac Uffern wrth ei fodlae; ie, sy'n arfogi Marwolaeth y Cythreuliaid ac Uffern yn ein herbyn ni. Oni bae'r Gelyn du, hagr, diriad, creulon a gwaedlyd hwn, ni allai Cyfraith na Chyflawnder ein condemnio, ni allai Angau ein lladd, ni allai'r Cythreuliaid ein poeni, ni allai Uffern ein llosgi.

Pechod

Pechod yw Bradwr a Llofrudd eich Enei. diau anfarwol, a'r Hoelion hynny a gloddiant eich Beddau ar fyr : Ac a fyddwch chwi yn ei fawrhau, ei guddio ai ddala'n sicr? A ddŷd gwraig y Gyllell honno yn ei Mynwes, a laddodd ei Phlentyn hygar neu ei Gwr? Na ddŷd yn un modd, mae'n rhaid ei thorri a'i thaflu ymaith yn dragwydd. Yn awr Garedigion, os pechod yw'r Gelyn, triniwch ef fel Gelyn neu Llofrudd, lleddwch ef, cymmerwch y gyllell, aberthu, a thorrwch withi ei waed ef, neu darewch wthien y galon, a gadewch iddo waedu hŷd oni bo farw. Gnewch ag ef, fel y gwnaeth Samuel ag Agag, sef ei ddarnio ef. Pe meddyliech o ddifrif am Angau ac Uffern, chwi a'i cassaech hŷd farw, ac a ddywedech ymaith ag ef i Uffern, o'r Heydaeth allan ; ac se wnae i chwi ymroi ac ymeginio'n hollol i ddilyn sancteiddrwydd, gan fod yn rhaid i chwi gael eich dattod, *Parw fath ddynion a ddylech chwi fod, mewn sanctaidd ymarweddiaid a Duw ioldeb,* 2 Petr 3. 11. Eithr os anghofiwch Angau, chwi wnewch waith erchyll, sef, eich cyfrifon yn fwy, ac Uffern yn boethach ; chwi 'chwanegwch eich pechodau, a Duw a bentyr a ddigofaint erbyn dŷdd digofaint. Ac os dengys Duw bŷth drugaredd, fe fydd drud i chwi, fe fydd yn rhaid i'ch Eneidiad alar,

alaru, fe fydd yn rhaid i'ch Calonnau dorri a gwaedu am bechod; canys onid edifar-hewch, fe'ch difethir yn ddiai, *Luc 13. 5.*

2. A fynnech chwi alw'ch Calonnau ym-  
aith yn suan oddiwith y Bŷd, a thryffori  
tryffor yn y Nef, Cofiwch eich diwedd.  
Yityriwch yn oetad yn yr amledd mwyaf  
o lwyddiant bydol, y bydd yn rhaid i chwi  
farw.

Oh fyddol-ddynion truein! y rhai ydych  
yn gwneuthur Aur yn obaith i chwi, y sawl  
ydych a'ch brŷd a'ch bwriad ar y Ddaiar.  
Re bae marwolaeth a thragywyddoldeb yn  
synychach yn eich meddyliau, chwi olyng-  
ech i fyned y peth hwnnw yn eich anwydau,  
a'r na eilwch ei gadw yn eich meddiant, ac  
a garech ychydig ar yr hyn a gollir, ac na  
eilwch garu mo honaw yn hîr; Golud a  
ymmer adenyydd, ac a eheda ymaith, *Di-  
mar. 23. 5.* Yityriwch cyn lleied lles a wna  
pethau'r Bŷd yma i chwi yn y dîdd drŵg;  
ni ddichon eich Aur a'ch Arian gadw mo  
monoch rhag clefydion tra fýddoch byw, na  
rhag Uffern wedi i chwi feirw, *Psal. 49. 6, 7.*

Y mae'n digwydd i lawer o'r rhai sy'n  
pentyrfa pethau'r bŷd hwn, mae y mae'n  
digwydd i Bynfarch, yr hwn trwy'r dîdd  
yn dŵyn tryffor mawr ar ei gefn, eithr  
nos a dynnir oddiarno, ac yntau a yrrir  
i'r Beudy budur. Felly y mae llawer o Fy-  
dol-

dol-ddynion goludog, y rhai sy'n eu blino  
 eu hunain wrth ynnill a dwyn Tryffor by-  
 dol, pan ddel Angau, fe a'i cymmerir oddi-  
 arnynt, a hwyntau am ei gam-ynnill, neu  
 ei gam-arfer, a yrrir i wared i Uffern: Y  
 Gwr goludog a fu farw, ac yn Uffern efe-  
 a gododd ei olwg.

Ac os mynnwch farwhau eich Calonnau  
 i'r Ddaiar wag hon, ac edrych am dryffor  
 uchod, a dedwyddwch y tu hwnt i'r Bedd,  
 a bery cyhêd agy paro eich Eneidiau, medd-  
 yliwch yn fynych am farwolaeth, canys  
 hyn a wna i chwi roi heibio 'ch gofalon a'ch  
 trallodion bydol.

Cofiwch na all bod dim llawer o amser  
 o'r dîdd heddyw hîd eich dîdd diweddaf,  
 nid yw eich taith neu'ch hynt ond ber, ac  
 ychydig arlwy sy ddigon, nid tlodi na chy-  
 foeth, ond digonedd o fara, yw dymuniad  
 a dewis un o ddinasfyddion Sion. Meddyl-  
 iwch fwy am Angau, ac edrychwrch yn i ch-  
 fynych ar Dragywyddoldeb, ac chwi ellwrch  
 glywed (mal pe bai) lleferydd yn dywedyd  
 wrthych, fel y dywedodd Duw wrth Baruch,  
 Jer. 45. 4, 5. *Myfi a ddestrywiad ac a ddi-  
 wreiddiaf; ac a geisi di fanredd? Na ebaus,*  
 Angau yw'r gwalladhwyr mawr a wna'r  
 cwbl yn waftad, a chwi y fawl ydych yn  
 cofleidio'r Bîd yn swyaf awyddus, a'i cewch

ef yn wagedd ; canys gwagedd yw'r cwbl,  
yw iaith profiad, *Preg. 1. 2. 1 Joan 2. 17.*

Pan aeth *Samuel* i enneinio *Saul*, efe a'i dygodd neu a'i cyfarwyddodd ef at Fedd *Rachel*, ac ir diben hyn (fel yr ydys yn tybied) sef, i attal neu ragflaenu y meddyliau uchel a beilchion, a allent godi ynddo ef oddiwrth uwchder y Sŵydd newydd a'r rhagorfraint fawr honno. Ac osgwîr yw'r Dŷb, y mae mal pe dywedasai efe fel hyn, *Saul*, Duw a'th anrh ydeddodd di yn fawr, a minnau a'th enneiniais yn Frenin ; ond cosia, mai yma mae llŵch *Rachel* dêg honno'n gorwedd ; ac er dy fod ti yn awr yn Frenin yn *Israel*, etto fe fydd yn rhaid i ti fôd fel *Rachel*, sef, wedi dy osod mewn Bêdd, meddwl a myr hwn sy Fyfyrddod dra marweddio. Chwy-chwi y fawl fydd gennych ddyfrwfr *Phiol lawn*, ydych yn ymdroi mewn golud, ac yn nofio mewn gogoniant bydol, yn i'ch diddyfnu oddiwrth y Bŷd (fel na bo'ch calonnau wedi eu troi'n bridd a'u claddu cyn y cladder chwi) cedwch Angau a Thragywyddoldeb yn newydd yn eich meddylau, *Job 14. 14.*

3. A fynech chwi fod yn ddyfn-deimladwy o gyflwr trist a galarus yr Anffyddoniaid pan ddelont i farw ? Meddyliwch yn brûdd am eich diwedd. Bêth a wnewch ef chwi yn awr caledi, pan alwo Duw am eich

Anadl, newid eich wynebpryd, a gofyn eich eneidiau, os ni wnaethoch ddim pa-  
rottoad erbyn Angau a Barn.

Oh druein! Mi dosturiwn wrthych a'm holl galon, wrth feddwl mor anwybodus ydych am y pethau a berthynant fwyaf i chwi; yr ydych yn bwytta, yn yfed, cyn cyfalu, yn prynnu, yn gwerthu ac yn ynnill elw, eithr yn dibrisio eich eneidiau, ac yn peidio ystyried am y dyllid drwg.

Gwae yr unig, yr unig mewn bywyd, a'r unig mewn Angau, nad oes ganddo un Crist yn gyfaill iddo, neu i sefyli gyd ag ef yn y dyllid galarus hwnnw, sy'n myned i orwedd ar ei Wely-angau heb heddwch a maddeuant, yr hwn a a i'r Bedd, ac a faif o flaen y Frawdle heb Dadleuwr i ddadleu trosto.

Y mae'n debyg iawn y bydd gennych amryw dyb am danoch eich hunain ac eraill ar awr eich marwolaeth, canys pa nesaf fo'r Gwrthddrych egluraf fydd yr Olwg; O bechaduriaid! Pan ddechreuo drws tragywyddoldeb agor, (fel y mae'n arfer gwneuthur i rai a fo'n marw) fe fydd gennych feddyliau eraill am danoch eich hunain a dynion eraill. Yma yr ydych yn eich dangos eich hunain allan yn weision gwychion, gan dybed eich bod yn uwch, ac yn well nag eraill; onid hon yw Babylon fawr,

fawr, ebe'r Brenin balch hwnnw wrth radio yn ei Frenhin-llȳs ; ond pan ymddangofo Angau gwēlglas, fe dyn i lawr blu'r Pau-nod hynny, ac a dyr eu cribau. Y mae'r Byd yn awr yn disgleirio ac yn ferennu yn eich llygaid, a hynny sy'n peri i chwi farau a thybied, na all dim ond Golud, Anrhydedd a Mawrder eich gwneuthur yn ddedwydd ; y pryd hynny yr ymddengys (wedi tynnu'r lliw) yn beth gwag a diddim. Eithr am y pur o galon, y rhai sy'n galaru am bechod, ac yn meddwl mwy am eu heneidiau nag am y Byd, a watwerir, a wawdir ac a gasseir yn awr gan edrych arnynt megis torf o ynfydion tlodion, prudd, llesg a phenysgafn, fe fernir y pryd hynny mai hwy, yw'r dynion goreu, doethaf a dedwyddaf ar y Ddaiar. Yn awr yr ydys yn eglusodi pechod, ac yn ei alw e'n beth yigafn a bychan, neu chwarae ieuenḡtid ; Ond fe fydd ganddo'r pryd hynny wyneb du ac ofnadwy, ac a fydd yn drymmach na phlwm, ac yn chwerwach nag Angau ei hun.

Yn awr y damnedig a'r annuwolion mell-digedig yw eich Cymdeithion godidog, a ch Cyfeillion mynwefol, ond pan ddeleoch i'riddfan wrth farw mewn chwŷs oerllyd, chwi a ddywedwch ymaith a hwynt, y mae'r olwg arnynt yn erchyll. Eithr gwy-

byddwch y bydd yn rhaid i chwi y rhai a fuoch yn Gymdeithion mewn pechod, fod yn Gymdeithion mewn dioddefaint, a gorwedd i lawr ynghyd mewn cadwynau a than tragywyddol: Chwi a gewch eich llyfletheirio a'ch rhwymo ynghyd, a bôd heb ymadel a'ch gilydd bŷth mwy yn oes oes oedd.

Yn awr ychydig yr ydys yn prisio hawl yng Hrist, a buchedd sanctaidd, ac yn de-wis pôb trachwant gwael a filoedd: y pryd hynny y Bŷd, y Bŷd am Ghrist. Deugain mil o bunnau am Gydwybod dda, a waeddodd Bydol ddyn cyfoethog annuwiol, pan oedd e'n marw, ac yn myned i Dragywyddoldeb.

4. A fynnech chwi edifarhau yn fuan, profi eich cyflwr, a gwneuthur pob peth yn barod erbyn y Bŷd arall? Meddyliwch am y Gelyn diweddaf hwn, Brenin Dychrynniadau, yr hwn cyn y bo hîr a derfyna eich dyddiau, ac yna fe fydd eich holl amser cyfaddas wedi myned tros fŷth.

Pe gwnai meddyliau am farwolaeth, ac yn enwedig yr ail farwolaeth ond gweithio ar eich Calonnau, a thyllu 'ch Cydwybodau, fe fyddai'n hawdd eich periwadio i fwriad ymaith eich pechodau; tef, i dorri ymaith law ddehau, neu i dynnu allan lygad dehau, ac i rwygo eich calonnau, i eistedd eich

eich hunain, i alaru yn y dirgel, i gysuddio eich Eneidiau, ac i roi eich genau yn y llwch, i edrych a oes obaith, *Galar.* 3. 28, 29. Ni a welwn am ddynion mewn taith, os tybiant fod ganddynt ddigon o ddŷdd, y maent yn ddiofal ac yn graff ddigon, ond os gweiant nad oes ond ychydig amser, hwy brysurant. Os bydd yn rhaid i wr wneuthur gwaith diwrnod cyfan mewn hanner diwrnod, fe frisia; Nid gwaith diwrnod **yw** Edifeirwch, er mai gwaith beunyddiol ydyw, y mae ein holl sywyd yn ddigon bach i'w orphen a'i berffeithio. Mae'n rhaid i ni alaru, cy hŷd ag y byddom yn pechu; mae'n rhaid i ni gyfaddef ein bod yn euog, cy hŷd ag y byddom yn digio'r Barnwr, ac erfyn am faddeuant a rhaffau am ein gyddfau, a churo ein dwyfronnau, ac wylo (pe gallem) y dagrau gwaed. **A** phethau mawrion Marwolaeth a Barn a'ch parottoant ac a'ch dysgant i wneuthur hynny'n ebrwydd; canys pan el y dýdd heibio, se ddaw y nos, a phan gauo'r Bedd ac Uffern eu safnau arnoch, beth a ellir wneuthur, *þreg. 9. 10.*

5. A fynnech chwi weddio yn wrefoccach, ac yn fynychach nag y gwnaethoch erioed eto? Cofiwch y bydd yn rhaid i chwi farw.

Coffadwriaethau a delwau'r meirw (fel y mae un yn sylwi) ydys yn gwneuthur mewn agwedd gweddio, sef ar eu gliniau, ac a dwylo wedi eu derchafu tu-a'r Nefoedd, mal pe bae eu Coffadwriaeth (yn awr wedi eu marw) i ddysgu i ni ein dyledswydd, beth sy raid i ni ei wneuthur tra ydym yn yn fyw. Ni roddes un oedd yn arfer gweddio yn fynych yn y dýdd, pan ofynnwyd iddo pa ham yr oeddefe'n treulio cymaint o amser mewn Gweddi, un ateb arall ond hwn, *mae'n rhaid i mi farw, mae'n rhaid i mi farw.* Meddwl deffrous am synediad dýn i gyflwr diddiwedd, a sefyll ar frys ger bron y Duw sanctaidd, a wna iddo weddio, a hynny'n daer. Os bydd yn y Teulu, Wr, Gwraig, neu Blentyn ym mron marw, fe fydd pawb gan mwyaf a ddelo, ynghylch y gwely yn codi eu dwylo, ac yn gweddio, ac yna hwy a waeddant, anfonwch yn suan am ryw Weinidog sobr difrifol, neu ryw Cristion diogel, gweddi felus-ber, i orchymwyn ei gyflwr trist i Dduw. Y Gwr ieuang a ddioddefodd yn ddiweddar am Losruddiaeth, yr hwn a ddaeth i'r Porth-*Newydd* mor anwybodol am Dduw, a'r March neu'r Mûl; ac mor anneallus am ei Enaid, a'r cyff neu'r garreg, a ddygwyd trwy ddyfodiad a dynessad Gweinidogion atto, i gydnabod ei gyflwr diobaith, a thrwy Rad

Rad a bendith Dduw ar y moddion a ordeiniwyd, efe ymddanghosodd mor ddyfn-deimladwy o berygl ofnadwy ei Enaid gwerthfawr, a darsod iddo trwy gymaint driftwch calon gyfaddef ei bechodau, weddio, a dadle' a Duw yng Hrist am faddeuant, hŷd oni ddarfu i'r Gweinidogion a'r Cristianogion oedd yno'n bresenol synnu a rhyfeddu. A phan ofynwyd iddo pa fynyched yr oedd efe'n gweddio, se atrebodd, mai pum waith neu chwech yn y dŷdd; a hynny trwy'r cyfryw dynerwch a iliaws o ddagrau, ag a gyffrodd hŷd yn oed ymysgaroedd y Gwrandawyr, ac (fel y dywedasant) a'u trodd yn ddagrau. Fel hyn y gwelwch y módd y gall nerthol argyhoeddiad marwolaeth a barn weithio ar y galon, i beri i rai lefain ar Dduw, na weddiasant er ioed o'r blaen. Am danoch chwi y rhai a ellwch orwedd y nos a chodi'r boreu, a myned ynghylch y Byd heb weddio yn neilltuol neu yn y teulu: Mae'n rhaid i mi ddywedyd wrthych nad oes gennych ond meddyliau ysgafn, od oes dim, am farwolaeth a thragywyddoldeb, na dim ystyr, na phris am eich cyflwr tragicywyddol, yr hyn fydd arwydd trist o gyflwr heb Grist.

6. A fynnech chwi wneuthur daioni i eraill, i'w Cyrph ac i'w Heneidiau, ystyr-iwch y bydd yn rhaid i chwi farw, ac y

byddwch ar ôl marwolaeth yn llwyr anabl i wneuthur dim. Y mae'r Gŵr doeth gan lefaru am amser gwneuthur pethau, a chynewidiadau Bywyd Dŷn, sef, fod amser i eni, ac amser i farw : Ac y mae efe (medd-af) wedi dal sylw ar ddiweddiadau a newidiadau Rhagluniaeth a wnaeth bob pêth yn deg yn ei amser, yn barnu mai goreu yw i ddŷn wneuthur daioni yn ei fywyd, *Preg. 3. 12. Am hynny tra ydym yn cael amser cyfaddas* (medd yr Apostol) *gwnawn dda i bawb*, Gal. 6. 10. *Pan fyddo ar dy law ei wneuthur*, *Dihar. 3. 27.* Garedigion, gwir feddyliau am angau a ddysgant i chwi roi rhan i faith, a hefyd i wyth, a hynny mewn amser ; canys pan ddel angau, fe fydd y cwbl wedi myned, y pryd hynny ni fydd mwy ar dy law ei wneuthur.

Pe baech chwi yn awr yn ystyried ac yn coelio fod yn rhaid i chwi farw, a rhoi cyfrif i Dduw, Arglwydd mawr a Rhoddwr eich holl bethau daionus (gan y bydd cyfrif mawr i'w roi, lle y derbynwyd llawer) a'i chaledech eich calonnau, ac ni chau eich ymlysgaroedd yn erbyn yr amryw wrthddrychau truain hynny, ydynt mor fynych yn eich golwg, ac yn Nryslau eich Tai.

Yn awr fel y byddoch fel Defaid, ac nid fel Moch, byddwch dda yn eich bywyd, a chyfranner

chyfranner eich gweithredoedd o drugaredd y Boreu, yr amser cymhwysaf i hau'r had hwn : Am hynny tyn allan yn fuan dy enaid i'r newynog, cyn y gwnelo angau ysgar rhwng dy Enid a'th Gorph : Canys a chyfryw ebyrt, y rhyngir bodd Duw. *Esay* 58. 10. *Heb.* 13. 16.

7. A synnech chwi gael a chadw purdeb, (Perl gwerthfawr yn wir) meddyliwch yn fynych am Farwolaeth a Barn. Y pryd hynny y profer ef, y pryd hynny y gwales i chwi. Purdeb (perffeithrwydd yr Ysgrythyr) yw'r peth goraf ag fy gan Cristion, Gras pob Gras ; canys Ffidd ddi-fluant a Chariad mewn purdeb, yw gwir iau a gwthi Cristianogrwydd.

Y peth goreu nesaf at werth-fawr waed a chyflawnder ein Prynwr gogoneddus (i ddadleu trosom yn awr Angau ac yn Llys y Nefoedd) yw gwirionedd oddimewn, *Psal.* 51. 6. *Esay* 38. 3. Bod yn alarwr yn *Sion*, sydd achos o gyffur a gwir ddiddanwch ; eithr bod yn bechadur yn *Sion*, sydd drift, ac a fydd achos o boen. *Judas* ym mysg yr Apostolion, Diafol ym manteil *Samuel*, yw Diafol yn wir. Pechaduriaid a ofnant yn *Sion*, a digon o achos sydd iidd-ynt ; canys y peth mwyaf ofnadwy yw byw a marw mewn rhagrith, o waith y dŵg rha-grith chwi'n ddiammeu i wared i *Uffern* ;

ie y lle twymnaf yn y tan yssol hwnnw, a'r llosgfeydd tragicwyddol fydd rhan y Rhag-rithwyr, *Ezay* 33. 14. *Matth.* 24. 51.

8. **Yn olaf,** A fynnech chwi brynnu'ch amser, a bod yn awyddus i ynnill Gras yn nydd Gras, er Iechydwrriaeth brefennol, yiprydol a thragywyddol i'ch Eneidiau; meddyliwch o ddifrif am eich diwedd.

Chwi bobl gysgadur a diofal ! pe baech yn ystyried y daw nos marwolaeth yn sicr, ac y gall hi ddyfod yn ddisymmwth, chwi a weithiech tra yw yn ddŷdd, ac a beidiech a bod mor ynsyd a rhoi heibio waith credu, edifarhâu a chystudio 'ch eneidiau, waith hunan-ymholi a phrofi, hŷd ddŷdd henaint a chlaf-wely, neu nes tarawo gwe-wyr marwolaeth arnoch. Ystyriwch, mai anfynych yr ydys yn cael edifeirwch gwely-angau, ac anfynych y mae yn dda, neu anfynych y mae edifeirwch claf-wely yn iachus, ond yn fynych yn edifeirwch claf. Yn awr os mynnwch ddilyn eich Arglydd, a gweithio tra ydyw yn ddydd, cofiwrhod yn rhaid i chwi farw, *Joan* 9. 4.

Hyfforddiadau a Chynnorthwyon i ystyried eich diwedd.

Hyfforddiad 1. *Clu llinch yn ddiysol am gair a llanbedd sy'n eich cauio chwi a meddyliwch.*

liau difrifol am angau a thragywyddoldeb, cyn belled oddiwrth eu gilydd, a llefwrch yn daer ar Dduw, am ei symmud ymaith yn ebrwydd : Os naill ai Anwyhodaeth, Didduwiaeth, Angrhediniaeth, Cnawdolrwydd, Meddwl-daiarol, neu Dddiofalwch ydyw, byddwch yn ddyfn-deimladwy o honaw, a gofodwch Weddi i weithio, tywelltwch hŷd yn oed eich eneidiau ger bron Duw yn wrefoccaf ac yn daeraf a galloch. Dywedwch fel y dywedodd *Moses*, *Pwy a edwyn nerth dy forriant?* *Canys fel y mae dy osn, y mae dy ddigter.* *Dysg i ni felly gyfrif ein dyddian, fel y dygom ein calon i ddoethineb*, *Psal. 90. 11, 12.* Garedigion, Doe thineb ysprydol a bair i chwi ystyried, yna gwaedda ar ôl gwybodaeth, a chyfod dy lef am ddeall ; *cais hi fel arian, chwilia am dani fel am dryfforau cuddiedig*, *Dihar. 2. 3, 4.* *Canys dy sywyd ti yw hi*, *Dihar. 4. 13.* Hi a dal cymaint ag a dalo'th Fywyd a'ch Enaid. Yna dos i' th Ystafell, a chwymp ar dy lliniau, a gweddia ar Dduw yn Enw Crist, am ddoethineb ysprydol ; Mae'n rhaid i ni ei cheisio hi, *Ezec. 36. 37.* A Duw a'i rhýdd hi, *Iago. 1. 5.* Erfyniwrch yn daerach nag am eich bywyd, am galon wir-ddoeth a deffrous, heb yr hon yr eugeulusir y pethau mawrion a berthynant i Dduw, a'ch eneidiau anfarwol yn dragwydd.

*Hyffordd-*

*Hyfforddiad 2. Arferwch a gwnewch y goreu yn ddiwyd ac yn ffyddlon o'r moddion mwyaf deffrrous ag sy'n perthyn i hyn.*

*1. Gofodwch eich bunain tan Weinidogaeth nerthol a ffyddlon, a fo'n chwilio 'ch Eneidiau, y rhai sy'n gwneud yn ben gorchwyl iddynt droi eneidiau dynion at Dduw.*

Nid yw Gweinidog llwfr diog yn debyg i ddeffroi pechadur diofal, nid argyoeddi a throi Eneidiau at Dduw yw'r nod y mae'n annelu atto. Bwriedwch wrando, caru, ffafrio a chalonni y rhai hynny sy'n ymaflyd fwyaf a'r Gydwybod, ac yn ceisio'n daer dynnu a gyrru Eneidiau at Iesu Grist, trwy osod y Fendith a'r Felldith, Bywyd ac Angau o'u blaen. Cerydd sy'n arwain y ffordd i Dredigaeth, fel y mae'r Nodwydd yn arwain yr Edau; Beth a dal Plaster lle nid oes ar-choll? Yr Esgyrn briwedig sy'n gwaeddi am gymmorth, nid rhaid i'r Jach wrth Ffddyg: Pregethiad cyffredin ar hŷd yr wyneb fydd fel y Cleddyf yn y Wain, nad yw yn tyllu nac yn gweithio; Eithr Pregethiad eglur, neilltuol a cheryddol (fel Pregeth *Nathan* wrth *Ddafydd*, neu Bregeth *Petr* wrth y *Juddewon*, 2 Sam. 12. 7. Att. 2. 37.) fydd fel y Cleddyf yn yr Ymysgaroedd, neu Physygwriaeth yn y Corph, a ddoluria hŷd adref. Y mae'r Pregethwyr hynny nad oes ganddyut ddim grym i geryddu ac argyhoeddi

argyhoeddi pechaduriaid diofal cyfagdur, yn gyffelyb i haid o Wenyn ormesol wedi colli eu Colynnau, na wneir dim a hwy. Eithr y rhai sy a gofal cynnifer o Gnuisiau euraid arnynt, a ddylent wahanu'r Gwenith oddiwrth yr Ulls, y Defaid oddiwrth y Geifr, y Gwerthfawr oddiwrth y Gwael, a thrwy wneud-felly ni a fyddwn fel genau Duw, ac yn rhŷdd oddiwrth Waed pob Dŷn.

Am hynny ynteu pregether yr Athrawiaeth ofniadwy a syn hon am Farwolaeth a Barn yn fynychach ac yn effeithiolach, fel y gallo eneidiau sy mewn perygl, ymron trengu, ganfod eu pechoda'u a'u henbydrwydd, a ffoi at Grist megis yr unig nodded; *Ani yn gwybod ofn yr Arglwydd, yr ydym yn perswadio dynion*, 2 Cor. 5. 11. Matth. 3. 7.

2. Ymddiddenwch a'r Cristianogion goreu, sef, a'r rhai sy bwyllog, tobr, sicr, diogel ac iach yn y Ffŷdd: Y cyfryw rai ag fy'n gwneuthur Crefydd yn bennaf gorchwyl iddynt, y rhai sy'n dda ganddynt son am Dduw a'r Bŷd a ddaw, a thrwy Gyngor a Siampel y rhai, y gellir eich cyffroi a'ch perswadio i Edifeirwch a Sancteiddrwydd, i ystyried am Angau a Barn. Y rhai hyn oedd rhai rhagoraw i Dafydd, yn y rhai yr oedd ei holl hyfrydwch, ac fe a'u gwnaeth yn Gyfeillion iddo, *Psal. 16. 3. a'r 119. 24.*

3. Dar-

3. Darllenwch y llyfrau goreu, a'r rheini a'r sy'n crybwyl am Farwolaeth a Barn, ond yn enwedig, Gair Duw. Yno y mae Afonydd pur o Grisiau, a'r Mwyn-gloddiau cyfoethoccaf: Yn y Maes hwn y cewch chwi'r Perl. *Presswylied Gair Crist ynoch yn belaeth, Col. 3. 16.* Na fyddwch anwybodol mewn un ihan o honaw, eithr byddwch sicr o fod yn gyfarwydd yn yr Ysgrythyrau hynny sy'n fon am fyrder Bywyd dŷn, sicrwydd Marwolaeth a Barn, Nef ac Uffern. Darllenwch Lyfr Job, a'r ddeuddegfed bennod o Lyfr y Pregethwr, *Psel. 39. Psalm 90.* A gadewch i mi ddeisfyf arnoch fod yn fynych yn gosod at eich Calonnau rai o'r Sgrythyrau hynny a'r sy'n gosod allan echryslondeb y lle poenus hwnnw, a fydd rhan yr holl rai sy'n anghofio Duw, ac yn peidio gwneud rhagymbarrotoad tros eu heneidiau gwerthfawr. Yr ychydig rai hyn a osodais i lawr yma, a ddymunwn i chwi oll eu hystyried a'u deall.

*Ar yr annuradolion y glawia efe foglau, tan a Brwmstan, a phoeth-wynt ystarnus: dyma ran en Phiol hwynt, Plal. 11. 6. Gwae yr anwir, drwg fydd iddo, Esay 3. 11. Duw a fwr yr annuradolion i'r ffwrn dan; yno y bydd wylofain a rhingcian Dannedd, Matth. 13. 42. Esay 33. 14. a'r 66 15. Matth. 25. 41. Luc 16. 25, 26. 2 Thes. 1. 8, 9. Date. 6. 8, 14, 15.*

Hyfforddiad

*Hyfforddiad 3.* Gwnewch gydwytod o neilltuo ychydig o amser beunydd o wir fwriad i feddwl am eich diwedd. Gwnewch hynny mor synych, nes bo angen a chwi wedi ymgyngefino, gesodwch eich hunain mewn agwedd i farw; meddyliwch am eich Amddo, eich Ysgrin a'ch Bèdd; by'd eich newidiad mawr felly ar eich Calonnau, fel y galloch bôb Boreu a Phrydnawn rodio tro neu ddau gýd-a'r Angau: Cofiwch pa fodd bynnag y mae arnoch yn awr, y bydd yn rhaid i chwi cyn y bo hîr fod yn trengu ac yn griddfan gan diffyg anadl ar eich Gwelau-angau, ac yn ymaiflyd a Brenin Dy-chryniadau, ac mewn moment ddisgyn i'r Bèdd, ac ni ddeuwch i fynu mwyach, Job 21. 13. a'r Ben. 7. 9.

Os mynnwch gyffroi eich calonnau a meddyliau am eich diwedd, ewch i wared i Golgotha, a meddyliwch am yr elgyrn sychion a'r curph pydrion hynny, ac yno adfywiwch goffadwriaeth eich Ceraint, eich Gwîr, eich Gwragedd, eich Plant, eich Cyfeillion a'ch Cymmydogion sy wedi meirw, ac edrychwch y tu hwnt i Stafelloedd y Bèdd, meddyliwch am yr eneidiau truain hynny a ymadawfiant a'r Bîd, ym-welwch a Charcharorion y Pwll. Myfyr-iwch ar y fflammau tan llidiog cynddeiriog hynny, y tywyllwch du hwnnw, mwg a dryglawyr

drygfawyr y Pydew diwaelod, oer-nadâu'r-damnedig, a rhuad y Cuthreuliaid, yr achwynion a'r tor-calon am ddwfr i oeri eu Tafodau poethion. A pan fyddoch yn meddwl am y miloedd hynny o eneidiau sy' ngîrôg yn Uffern, edrychwrh attoch eich hunain, a disgwiliwrh i'ch tro chwirthau ddyfod yn fuan. Tybiwrh bob dîdd, mai hwnnw yw'r diweddaf i chwi, bob pryd bwyd mai hwnnw yw'r diweddaf i chwi, bob taith mai honno yw'r ddiweddaf i chwi, bob dyledswydd, Sacrament a Phregeth, mai y rheini yw y rhai diweddaf i chwi. A phan ddelo dîdd yr Arglwydd, meddyliwrh wrthych eich hunain, hon yw'r Farchnad ysprydol ddiweddaf a gawn ni i brynnu Olew ysprydol Gras, ac i barottoi erbyn dysfodiad y Priodfab: Pan ddarfyddo'r dîdd hwn, fe allai na chawn ni bîth mwy glywed yr Arglwydd Iesu yn llefaru wrthym trwy enau ei Weinidogion ffyddion, bîth ein gwahawdd i ddyfod at Grist, neu i gredu, edifarhau, ymadael a phechod a derbyn maddeuant mwy; ac felly ymddygwch eich hunain bob dîdd, ac ym mhob dyledswydd, fel pe baech i gael eich galw at Frawdle Duw, ac i roi'ch cyfrif i sýnu'r nos. Yn eich holl feddyliau, geiriau a gweithredoedd, dywedwrh wrthych eich hunain, a wnaem ni fel hyn ac fel hyn, sef, bwyta,

bwytta, yfed, cyfgu, ymddiddan, prynnu,  
 gwerthu, pregethu, gwrando, gweddio,  
 neu waeth, pe gwyppe'm yn sicr mai  
 heddyw fyddai'r dŷdd diweddaf i ni ? O  
 bydded y Cofair hwnnw, *Memento mori*; sef,  
 Cofia farw : yr hwn y mae rhai yn ddŵyn  
 yn eu Modrwyau, yn argraffedig ar eich  
 Calonnau chwi, gan mai'r pêth mawr sy'n  
 perthyn ich bucheddau ydyw. Dyma'r  
 pêth a fu pobl Dduw, a rhai o'r Cenhedl-  
 oedd hefyd yn ofalus i'w gofio. Brenin *Asa*  
 a wnaeth ei feddrod yn amser ei fywyd,  
 2 *Chron. 16. 14* A rhai a wnaethant eu Bedd-  
 au yn eu Gerddi, a lleoedd diddanwch a  
 hyfrydwch, megis *Joseph o Arimathea*, *Joan*  
 19. 41. Ac yr oedd rhai o'r Cenhedloedd  
 yn arfer rhodio ym mysg y Beddau, i beri  
 iddynt gofio angau ; yr oedd rhai a'u Bedd-  
 au bob amser o flaen eu Pyrth, eraill a  
 phenglogau dynion meirwon beunydd yn  
 bresennol ar eu Byrddau ; ac a ro'wn ni, y  
 rhai ydym yn credu Athrawiaeth y Byd  
 arall, heibio feddyliau difrifol am Angau ?  
 Mae *Salomon* yn ein cynghori i fyn'd i Dŷ  
 Galar, gan ddywedyd wrthy'n mai gwell  
 yw, o waith y byw a'i gefyd at ei galon.  
 Pan glywoch y newydd am farwolaeth eich  
 Cyfeillion, eich Ceraint neu'ch Cymmydog-  
 ion, ewch yno, er nid yn gorfforol, etto'n  
 fyfyrddodol, yn eich brŷd a'ch meddyliau,  
 ewch,

ewch, a gofodwch eich hunain yn eu lle  
 hwynt, a meddyliwch fel hyn ; Gŵr neu  
 Wraig fyw a aeth yn gelain farw, neu dy-  
 warchen oer, yr enaid a aeth i'w drigias  
 dragwyddol ; eithr i ba le, pa un ai i'w  
 ddiddanu, ai i'w boeni, pwy a all ddy-  
 wedyd ? Os Gŵr duwiol oedd, efe a aeth  
 yn ddiammeu i'r Nefoedd ; Os ydych chwi-  
 thau yn gyfryw rai, fe fydd eich Eneidiau  
 ar fyr gŷd ag ef ; Ond os gŵr annuwiol  
 ydoedd, fe aeth yn ddiammeu i Uffern, ac  
 y mae efe yn awr ym mysg y Cythreuliaid ;  
 ac os ydych chwithau yn gyfryw rai, chwi  
 a fyddwch yno cyn y bo hîr hefyd. Gwîr  
 yw na ddichen bod gan y meirw ddim  
 meddyliau gŷd-a'r byw, ond y rhai byw a  
 wyddant y byddant feirw, medd *Salomon*  
*Prag. 3. 5.* A chwi'r fawl ydych ieuangc,  
 pan glywoch son am farwolaeth gŵr  
 ieuangc bywiog, heini, neu ferch ieuangc  
 deg hawddgar, tefwch, meddyliwch ac  
 ytyriwch, oni ellwch chwithau fod fel hyn,  
 chwi Wŷr, Gwragedd neu Blant, mewn  
 ychydig iawn o amser ? Ni ddywedaf fi  
 ddim yn rhagor mewn ffordd o hyffordd-  
 iad, yn unig mi ddymunaf arnoch ail olygu  
 'r pethau rhagddywedig, a chwi y rhai  
 ydych Rieni a Phennau teuluoedd, y rhai  
 ych yn gwneuthur Cydwybod o edrych at  
 eneidiau y rhai a orchymwynwyd tan eich  
 gofal,

gofal, a ellwch beri i'ch Plant a'ch Gwafanaeth-ddynion ddyfsgu ar eu tafodau, y pethau yr wyf yn eu gosod i lawr yma.

1. *Fod yn dra diamai y bydd diwedd.*
2. *Yr a pob peth a'r sy'n y Byd hwn, ymaith oddiwrthych ar eich diwedd tros byth.*
3. *Holl swyniant pechod a a ymaith, ac ni ad ddim ond colyn.*
4. *Tn unig yr byn sydd dragwyddol a wna i chwi lessiad.*
5. *Istyriwch tu-ag at ba un o'r ddau Dra-gwyddoldeb yr ydych chwi yn myned.*
6. *Yr ydych chwi oll yn agos at eich annedd dragwyddol.*
7. *Ni wyddoch chwi mor ddisymmwth neu mor ddirybudd y gall eich diwedd fod.*
8. *Fe fydd eich eneidian pan ddel angau, wedi eu sesydlu, fe fydd eich tragedywyddoldeb wedi ei fwrm.*
9. *Golwg ofnadvy a syn yw gweled Ang-rhedadyn heb Grifft yn anadlu allan ei anall diweddaf.*

4. *Desnydd. A all fod o gyffur i bobl diodion Dduw, y rhai, trwy ofn marwolaeth, yd ynt holl ddyddiau eu bywyd mewn caethiwed. Na thralloder eich calonnau, na ofnwch ac na chymmerwch fraw o achos*

y Brenin Dychrynniadau hwn : eithr llawen-hewch eich ysprydion, a diddenwch eich calonnau a hyn, sef, na ddichon Angau er erchyllled y mae i'r annuwolion, wneuthur i chwi ddim niwed. Gwell a fydd dydd eich marwolaeth na dydd eich genedigaeth, ac am hynny fe osodir angau yn Infentori'r Credadyn, ac a gyfrifir ym mysg ei Ragorfreintiau ef, i Cor. 3. 22. Marwolaeth fydd elw i'r Duwiol, tef, diwedd ar ei hell drueni prefennol, a dechreuad gogoniant diddiwedd. Y pryd hynny y bydd yr Enaid gwir edifeiriol, tralodus a lluggedig, wedi ei ryddhau yn berffaith o feddiant Satan, oddiwrth biccellau tanllyd a phrofedigae-thau ofnadwy'r Fall. Y pryd hynny y bydd yr hen Sarph tros fyth tan eu traed. Y pryd hynny y torrir ymaith gorh marwolaeth, a chyfanneddiad pechod oddifewn, y ffynnon naturiol honno o Lygredigaeth a fychir i fynu yn berffaith. Ni achwynwch bŷth mwy rhag meddyliau ofer, neu galonnau celyd : Ni amheuwch bŷth mwy am wirionedd Gras, neu ffafor Duw : Y Credadyn a gaiff fod y pryd hynny gŷd a Iesu Grist, Dŷdd ei ddattodiad a fydd dydd ei Goroniad, efe gaiff y pryd hynny dderbyn y Goron, eistedd ar yr Orseddfaingc, a myned i mewn i lawenydd ei Arglwydd;

yr

yr hyn yw digonolrwydd llawenydd a di-grifwch yn dragywydd, *Psal. 16. 11.*

Gwrthddadl. *Tr wylfi weithian yn meddwl am Angau, ond y mae meddylian am Angau a Barn yn ofnadwy iawn, mae arnasi ofn nad wylfi ddim yn gymmwys i farw. Pa fod y gwyddir hynny?*

Atteb. Y mae cymmhwylder greddfol erbyn marwolaeth, a chymmhwylder gweithredol erbyn marwolaeth. Y mae pôb gŵr neu wraig berffaith-rafol yn y Býd, a'r sy'n ofni Duw mewn gwirionedd, yn reddfol yn gyimmwys i farw, wedi ei barottoi felly erbyn ei newidiad mawr, fel na ddichon colyn angau neu'r ail farwolaeth wneuthur iddo ddim niwed; wedi myned trwy'r porth cyfyng, a gadael y Gagendor, y mae efe allan o berygl. Cyn gynted ag y mae dŷn mewn cyflwr o Ras, wedi ei ail-eni, wedi ei wneuthur yn Greadur newydd, a chwedi ei uno trwy ffydd a'r Arglwydd Iesu Ghrist; y mae Duw wedi cymmodi, ei berson wedi ei gyflawnhau, ei bechodau wedi eu maddeu, a'i sgrifennu yn llŷs y Nefoedd, er na ddygwyd ei fadd-euant i wared a'i sgrifennu a'i felio yn llŷs ei Gydwybod ei hun. Mae'r enaid gwir-ddychweledig yn gysaill anwyl i Dduw, ac a gaiff letteua yn ei synwes ef, a bôd býth mwy heb fod allan o'i ffafor ef: Gwir

yw,

yw, fe all y Nefoedd fod allan o olwg, fe allai y forrai Duw weithiau, ond ni chon-demnia efe bŷth. *Nid oes yn awr ddim damnedigaith i'r rhai sy yng Hrist Iesu, Rhuf. 8. 1. O pecha nêb, y mae i ni eiriolwr gŷd-a'r Tâd, Iesu Ghrîst y Cyfiauñ, i Joan 2. 1. Pwy a rydd ddim yn erbyn Etholedigion Duw? Duw yw'r hwn sydd yn cyfiauñbau, Crist yw'r hwn a fu farw, Rhuf. 8. 33, 34.*

Cwestiwn. *Pa bryd y mae'r Duwiol wedi ymbarodtoi yn weithredol erbyn marwolaeth?*

Atteb. Pan fo ei gyflwr ysprydol wedi ei sefydlu yn dda, ief, pan fo pob peth wedi ei wneuthur yn ddiogel rhwng Duw a'i Enaid ef yn neilltuol.

1. Pan fo dŷn yn gwybod yn dda ynddo ei hun iddo edifarhau yn bur, a thrwy lawer o ofid calon am yr holl bechodau a wyr efe iddo wneuthur cyn, neu wedi iddo ddychwelyd, sell y fel nad oes dim euog-rwydd hen na newydd yn aros arno ef. Y tristwch duwiol hwn yw hyfrydwch y gŵr duwiol, y mae yn hoff ganddo hau mewn dagrâu, y mae'n dda gan ei enaid ef amser gwlybi hau, canys y rhai sydd yn hau mewn dagrâu a fedant gynhauaf o orfoledd, yr hwn a fydd amser i orphywys o olwg yr

Ar-

Arglwydd ; cystedlwch, *Psal.* 126. 5, 6. ac  
*Att.* 3. 19.

2. Pan na bo pechod yn gymaint baich a'i fod efe wedi blino ar y corph hwn o farwolaeth, ac yn fodlon i adael tynnu'r ty afiachus i lawr, fel y galler iachau'r Gwahanglwyf, fel na bae iddo felly bechu neu droffeddu bŷth mwy. yn erbyn ei Dad. Meddyliau difrifol ac ystyried am yr hyn sy faich trwm iawn, ac achos o driflwch a bair iddo ochneidio ac achwyn. Ninnau yn y babell hon ydym yn ochneidio yn llwythog : Ac Oh mor chwerw-dost yr achwynodd St. Paul. *Rhuf.* 7. 24. *Ts truan oddyn wŷf si, pwy am gwared i oddiwrth gorff y farwolaeth hon?* Fe fu mewn marwolae-thau yn fynych er mwyn ei Arglwydd-an-wyl, eithr y farwolaeth hon, y corph hwn o bechod a'i blinodd ef yn fwy na'r cwbl : Yr ydoedd yn gymaint baich i *Ddasydd sanctaidd*, ag y clywodd efe ef hyd yn oed yn ei efgyrn, *Psal.* 38. 3.

3. Y mae'r Duwiol yn gymmwys i farw, pan fo gwaith gras wedi ei berfffeithio, a gwaith ei genhedliad wedi ei orphen. Pan fo gan yr enaid credadwy ei leitr yn llawn o Olew, a'r Wifg-briodas o gyflawnder gogoneiddus Crist am danaw, y pryd hynny

ny y býdd efe'n llestr i barch, wedi ei rag-barottai i Ogoniant, *Rhuf.* 9. 23. wedi ei weithio i hyn yma, 2 *Cor.* 5. 5. A chwedi ei wneuthur yn gymmwys i gael rhan o etifeddiaeth y Sainct yn y goleuni, *Col.* 1. 12. Y Llong sy wedi ei llwytho a'i llenwi sy'n gymmwys i fyn'd i'r Mor, ac i hwyllo oddi-yma, neu i'w Phorthladd dymunol. Y mae'r gweithiwr yn gymmwys i dderbyn ei gyflog wedi iddo orphen ei waith. Felly wedi i'r enaid a anwyd er mwyn y Nefoedd wafanaethu ei genhedlaeth yn ffyddlon, a gwneuthur y gwaith yn ei le, ei alwad a'i berthynasau, er mwyn yr hwn yr anfonodd Duw ef, ac yr ymddiriedodd iddo, (er bod y rhai goreu yn fyr, gan eu bod mewn rhai graddau yn weision anfuddiol) y prýdhynny y býdd efe yn gymmwys i roesawi Angau, er mai Brenin Dychrynniadau i'r cnawd ydyw. Pan gallo'r Duwiol yn fyw neu wrth farw appèlio at Dduw chwiliwr y calonnau, fel y gwnaeth *Hezeciah*, *Esay* 38. A dywedyd, *Mi a gwplheais y gwraith a roddais i mi i'w wneuthur*, *Joan* 17. 4. *Mi a orphennais fy ngyrfa, a rhoddwyd coron cyflawnder i'w chadw i mi*, 2 *Tim.* 4. 8. Hyn a'i gwnaef yn gymmwys ac yn ewyllysgar i ymadael, i fod gyd-a Christ.

4. Pan so pechod wedi ei faddeu, a'r maddeuant

maddeuant wedi ei felio, hynny yw, pan fo swn uchel euogrwydd pechod yn y Gydwybod wedi ei dawelu a'i ddifliewi trwy waed y tanellaid, a'i eglurder am y Nef yn danbiad ac yn eglur, yn gymaint na bod ei Wlad oreu mewn golwg iddo, a phorth Gogoniant yn agored yn ehang, sef, mynediad helaeth i mewn i dragwyddol Deyrnas ein Harglwydd a'n Hachubwr Iesu Christ, 2 Petr 1. 11. Yr oedd gan Lot feddwl i ystyn ei amser yn *Sodoma*, Dinas dêg oedd hi, ac ni wyddai efe'n dda i ba le yr ae pan adawai efe hi. Ond pan fo'r enaid grafol yn sicr o gael gwêll cyflwr, gwêll bywyd, yr hwn sy'n guddiedig gýda Christ yn Nuw, fel y gallo ddywedyd, fel y dywedodd gwr Duwiol enwog gynt wrth farw, *Ni wnaf si and newid fy lle, ni newidiafi ddim o nghyfeillion.* Fe all y prýd hynny (gan ei fod wedi ei felio hŷd ddŷdd prynedigaeth) hiraethu am ei ddattodiad.

5. Pan fo'r galon wedi ei diddyfnu oddiwrth, ac wedi blino ar y Bŷd drygionus hwn, a chwedi ei enynnu felly gan gariad Crist, fel na allo hi fyw hebddo ef, neu fod wedi ei diddyfnu oddiwrtho: Wedi profi grawn-wîn *Esgol*, fe fydd yn rhaid iddi fyn'd i *Ganaan* i wel'd y Wlad dda, y My-

nydd hyfryd hwnnw. Blaen golwg neu ragbrofiad o felysder, tegwch, a gogoniant yr Arglwydd Iesu, a wra chwant mawr a blȳs am fod gŷd-ag ef. Yr awr-hon, Arglwydd, gollwng dy was mewn tangneddyf, canys fy llygaid a welsant dy Iechydwr-iaeth, *Luc 2. 29, 30.* Canys am hynny yr ydym yn ochneidio. Ac oh mor hyderus, llonydd a chyffurol y gall y cyfryw enaid groesafu meddyliau am farwolaeth, a edifaruhaodd yn ddiffuant am bob pechod, ac i'r hwn y mae pechod yn faych mor drwm ag ychwennychai farw er mwyn cael mynddy yn rhŷdd oddiwrtho. Ac enaid yr hwn sy wedi ei lenwi a'i lwytho a Gras, ac yn sicr o Ogoniant, a'i galon wedi ei hanfon megis Cennad o'i flaen ef i'r Nefoedd. Ac yn ddiammeu disrifol a dwys-ystyried ein cyflwr tragicwyddol a'n hannogau ni i gyrchu yn daer at hyn.

I gloi'r cwbl i fynu, gadewch i mi ofyni chwi yngwydd Barnwr Mawr y Byw a'r Meirw (ger bron gorseddfaingc ofnâdwy'r hwn y bŷdd yn rhaid i chwi oll sefyll a fyfyr) yr ymofynnion hyn sy'n canlyn.

### Ymofynniad 1.

Yn gyntaf, Pa un ai ymbarodtoad amserol

rol erbyn Marwolaeth a Barn, sef, pa foddy diengwch rhag Uffern, a dyfod yn ddio-gel i'r Nefoedd, ydyw'r gorchwyl angen-reitiaf a mwyaf ei bwys sy gennych yn yr holl Fyd ? Barned ac artested eich Cydwybodau.

*Tmofynniad 2.*

Onid yw'r rhai hynny mewn cyflwr dedwydd iawn, a'r sy'n credu, edifarhaus a dychwelyd at Dduw a'u holl galonau ? Y rhai trwy fyw mewn bywyd grafol ydynt wedi gwir ymbarodtoi erbyn marwolaeth, ac allan o'r enbydrwydd erchyll hwnnw o golli'r Nefoedd, *Rhuf. 8. 1. Psal. 37. 37.*

*Tmofynniad 3.*

Onid ydyw yn boffobl i chwi, gan eich bod etto y tu yma i'r Bêdd ac Uffern, ymbarodtoi erbyn y dîdd drwg hwn ? Pe ymroddech i wneuthur hynny, chwi a'i gwnaech : Chwi a amcanasoch ac a addawioch yn fynych ; pa bryd y gwnewch ef ? Ni attal ac ni ludd nêb mo honoch, ond y Diafol a'ch cnawd chwi'ch hunain.

*Tmofynniad 4.*

A ydych chwi yn credu yn sicr y palla'r

pethau sy yma, y daw angau, y brâth pechôd, y diofryd beth hwnnw, ac y bydd cyflwr y pechaduriaid diedifeiriol yn awr angau yn athrist iawn ac yn ddiobaith? Gadewch i mi ddywedyd wrth yr holl gyfrwyd rai, nid oes noswaith a orweddnoch ar eich gwylau, nad ydych yn thedeg mewn perygl mawr iawn: Pe galwai Angau, a chwithau heb fôd yn barod, fe fyddai yn rhaid i chwi fyn'd, er y caech eich difethu yn dragwywyd, *Matth. 25.10, 11, 12, 30, 46.*

## Tmofynniad 5.

**A** ddarfu i chwi fyw felly mor gymmwys ag y galloch yn ddibryder orwedd mewn Bedd, gysodi drachefn, a sefyll ger bron Duw, yr hwn fydd dan yssol? A wyddoch chwi eich bôd eich hunain mewn cyflwr o Ras, eich bôd newydd eni, fod eich eglur-iadau am y Nefoedd yn eglur ac yn siccr? **A** ydyw eich gwaith wedi ei orphen? A ydyw eich Lampau yn llosgi? Ac oes gennych siccrwydd wedi ei feilio yn dda eich bod chwi'n rhai o'r nifer hynny i'r rhai y bydd marwolaeth yn rhagorfraint? *Phil. 1. 21.*

## Tmofynniad 6.

**A** ellwch chwi yn gyffurol ac yn ddiarfwyd

fwyd roesawi meddyliau am ddattodiad, ac  
 am adel eich hôll hyfrydwch daiarol a  
 chnawdol? Tybiwch yr anfonai'r Barnwr  
 ofnadwy Angau yn awr i'r sangre hon, ag  
 enwau pump neu chwech o honoch yn ei  
 Writ neu ei dalcen, ac y dywedai Angau,  
 Ti, a thi, y Gŵr hwn, a'r Wraig accw,  
 sy raid iddo ddysod gŷd-a mi. Mi dder-  
 byniais orchymmyn oddiwrth y Duw mawr  
 ac ofnadwy (yr hwn sydd a nerth marwo-  
 laeth ac Uffern ganddo) i'th ddŵyn di,  
 wr ieuangc, neu serch ieuangc, y dŷdd hwn  
 neu'r nos hon ger bron y Frawdle. Mi a'th  
 rybuddiais yn fynych trwy anfon fy nghen-  
 nadon, a hynny'r deg, yr ugain neu'r deu-  
 gain mlhynedd hyn, pob Arch, pob Corph  
 marw, neu Fedd a welaist ti, oeddynt cyn-  
 nifer o arwyddion o nyfodiad i. Yn awr  
 (medd Angau) mi a ddaethym fy hun,  
 edrych yma a gwel fy Nghommissiwn, gwel  
 fy Mhiccell a'm colyn. Y Biccell hon a ladd  
 dy gorff, ac a enfyn dy Enaid i Dragy-  
 wyddoldeb. Yr wyf fi yn gorchymmyn i  
 ti'r awr hon ganu'n iach, gymmeryd dy  
 gennad a Chyfeillion, Ceraint, Tai, Tir-  
 oedd, a Mwyniant pechod, unwaith tros  
 oll. Ni chei di bŷth eu gweled na'u mwyn-  
 hau mwy, *Luc. 12. 19, 20.* Oh pa foddy  
 gellwch chwi feddwl am eich marwolaeth,

llosgi'r Bŷd, canu'r Udcorn, cyfodi'r meirw  
 a sefyll wrth y Bar, a bod heb ofni a  
 chrynnu ? Chwi feibion a merchaid hyfryd-  
 wch ! Pe ystyriech pa ddychrynn ac ofn fy'n  
 eich annos wrth eich fodlau, ac a ddaw ar-  
 noch yn annocheladwy megis gwewyr un  
 a fo'n esgor, ni ddwywedech wrth Dduw,  
 dos ymaith, a thryffori digofaint, a phen-  
 tyrru ffrawyllau ac yscorpionau i'ch eneid-  
 iau cystuddiedig erbyn y dŷdd diweddaf.

## Tmofynniad 7.

Gadewch i mi ofyn i chwi y rhai ydych  
 yn cael eich cyfrif yn Seingctiau, ac yn gobe-  
 ithio am y Nefoedd, beth na bod eich Cyd-  
 wybodau yn y dirgel yn dywedyd wrthych,  
 na wnaethoch ond parodtoad gwael erbyn  
 Marwolaeth ; ie fe allai i chwi wneud llai  
 am y Nefoedd nag a wnaeth llawer a'r a  
 fy'n awr yn llffern.

Yr ydych yn dywedyd fod yn rhaid i  
 chwi farw, a dyfod i Farn : Ond pa wedd  
 y mae'r achos yn sefyll oblegid y Bŷd arall ?  
 Os edrychwch i wared ar y Bŷd hwn, y  
 mae yn dda, ond pa wedd y mae'ch eneid-  
 iau gwerthfawr oddifewn ? A ydych chwi  
 yn credu fod y rhai Di-dduw, y rhai digred,

y Meddwon, "y Tyngwŷr, y Llofruddion, y Lladron, yr Erlid-wŷr, y rhai Celwyddog, yr Anudonwŷr, y rhai sy'n torri 'r Sabbath, y Godinebwŷr a'r rhai bydol, yn myned ar redeg i Uffern? A ydych chwi yn credu fod Praidd Crist yn fychan, ac heb ofni eich hunain? A ydych chwi yn tybied fod Esau, Judas, Ahab, Agrippa, Herod, Simon Magus a'r Morwynion ffolion yn Uffern, ac etto'n coelio'n hyderus eich bod chwi yn myned i'r Nef? Fe wnaeth y rhai'n hwy nag a wnaeth llawer o honoch chwi. Esau a wylodd ac a lefodd am y fendifith, Heb.

12. 17. Ahab a ymostyngodd ger bron yr Aenglwydd, i Bren. 21. 29. Herod a wnae hwy o bethau, ac a wrandawae ar Joan Fedyddiwr yn ewyllysgar, Marc 6. 20. Nid oedd yr Tsgrifennydd bell oddiwrth Deyrnas Dduw, Marc 12. 34. Yr oedd Agrippa o fewn ychydig i fod yn Gbriſtian, Act. 26. 28. Simon Magus a gredodd ac a fedyddiwyd, Act. 8. 13. Nid oedd y Morwynion ffolion yn halogedig, hwy a gymmerasant ofal i drwsio eu Lampau, ac a gurasant wrth y Drws. Yn awr pa bechodau a adawfoch? Pa Ras a ymarferaloch? Pa ddyledswyddau a gyflawnafoch? A pha fod? Gochelwch eich bod yn cael eich twyllo; Ymdrechwrch am fyned i mewn trwy'r portb cyfng,

syng, canys llawer a geisiant syned i mewn,  
ac ni's gallant, *Luc 13. 24.*

## Tmosynniad 8.

Chwychwi wedi cael cynnifer o rybuddion, amser a moddion i ymbarottoi erbyn Marwolaeth a Barn, ac ni ymbarottowch pwy a dosturia wrthych pan eich difethir? Ni thosturia Duw, *Dihar. 1. 26, 27.* Ni we thosturia Crist, *Luc 19.27.* Ni thosturia Angylion, Seingstiau na Gweinidogion, pawb a ddywedant ymaith a hwynt, condeinni hwynt.

Ac Oh pa olyg yn lladd ac yn brawys pob fydd dysfodiad Crist yn y Cymmylau i bobl asfhai a ddarfu iddynt naill ai gwadu ei ddyfua fodiad ef, neu ni fynnent ymbarottoi erbyn sel hynny. Yr oedd ei gnawdoliaeth ef yn ofyn uadwy, *Matth. 2. 3.* Yr oedd ei groes gýd hoeliad ef yn fwy ofnadwy, *Luc 23. 44, 45, 46, 47, 48.* Eithr ei eisteddiad ef ar bwriad Orsedd barn a fýdd fwyaf ofnadwy. *Tna y daet galara holl lwythau'r ddaiar, Matth. 24. 30.* A dynion a ddywedant wrth y Mynydd oedd a'r Creigiau fyrthiwrh arnom ni, a chuddiwrh ni o wydd yr hwn sydd yn eistedd ar yr Orseddfaingc, ac oddiwrh yn

lld yr Oen, Date. 6. 15, 16. Pan welont  
 gynnifer miloedd a myrddiwnau o Wŷr a  
 Gwragedd yn cael eu taflu bendramwnwgl  
 gŷd-a holl Cythreuliaid Uffern, i'r Llyn  
 hwnnw sy'n llosgi o Dan a Brwmstan. Pa  
 wedd y galarant y prŷd hynny gan osid  
 galon, ac udo gan orthrymder Yspryd, ac  
 a chwierwedd enaid, ddymuno na chlywsent  
 erioed un gair son am Ghrist, na buasent  
 wedi eu geni ym mysg y Cenhedloedd,  
 neu na buasent heb fod erioed, na mwyn-  
 hau bywyd o hyfrydwch ar y ddaiar ! Pa  
 sodd y cur y pechadur truan ei ddwy-  
 fron, tynnu ei wallt, rhwygo ei ymys-  
 garoedd, gan weiddi (pan welo efe fod  
 pob gobaith wedi ymadael) oh na bu-  
 baswn i yn awr heb un enaid ! Neu na  
 suasai'r enaid anfarwol hwn yn farwol !  
 fel y buaswn farw yn awr, a pheidio byw  
 yn hwy ! neu na suasai fy marn i letteua  
 gŷd-a'r Cythreuliaid yn y Llyn-Tan hwn  
 ond tros ddeng mîl o flynyddoedd, fel na  
 buasai i mi felly aros mewn cyflwr o alltu-  
 daeth o wŷdd a phresennoldeb Duw hŷd  
 bob Tragywyddoldeb.

Oh gan hynny gweddiwch, am fod di-  
 ynrifol feddyliau am farwolaeth bob amser  
 yn eich Calonnau ; a pha le bynnag yr  
 eloch

eloch chwi, aent hwythau; ac ym mha le bynnag y lletteuoch chwi, lletteuent hwythau; fel y galloch grybwyl am danynt wrth eich Plant a'ch Tylwyth, pan eistedd-och yn eich Tai, a phan gerddoch ar y ffordd, a phan orweddoch i lawr, a phan gyfodoch i fynu. Oh rhwymwch y pethau Mowrion hyn am Farwolaeth a Barn megis yn arwyddion ar eich dwy-law, byddant yn rhagdalau rhwng eich llygaid, ac ysgrifennwch hwynt ar bŷst eich tai, ac ar eich pyrth, fel y byddont bob amser ger bron eich llygaid er daioni i chwi yn wastad, fel yr ymgadwoch arnoch rhag anghofio o honoch yr Arglwydd eich Duw, a'r pethau tragicwyddol a berthynant i'ch Eneidiau ansarwol, ac rhag i lid yr Arglwydd ennyn i'ch erbyn, a'ch difethu yn ebrwydd a chyfludd dirfawr.

Ystyriwch bellach yr hyn a ddarfu i mi ei ddywedyd, a'r Arglwydd a roddo i chwi ddeall ym mhob peth, 2 Tim. 2. 7. Yr hyn yw'r peth y mae Duw yn ei ddymuno yn y Testun, *Oh na baent ddoethion, na ddeallent hyn, nad ystyrient eu Diwedd.*

le  
vy-  
ynt  
dd-  
r y  
han  
han  
egis  
yn  
gri-  
reich  
ron  
tad,  
ofio  
a'r  
i ch  
rgl.  
yn

mi  
do i  
L. 7.  
idy-  
pion,  
edd.